# Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

## Adroddiad Cychwynnol

## Yr Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS)



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Rhagfyr 2018

# Cynnwys

1 Rhagarweiniad ..... 2
Yr AC/AAS a phroses y CDLl..... 2
Cynnydd a Chydymffurfio â Rheoliadau ..... 3
2. Y Dull o Arfarnu ..... 5
Y Dull ..... 5
Y Fframwaith Cynaliadwyedd ..... 5
Pennu arwyddocâd effaith..... 6
Amserlenni ..... 6
Senario Sylfaenol..... 9
Matricsau Effaith..... 9
3. Arfarnu'r Amcanion Strategol ..... 10
Gweledigaeth Ddiwygiedig Ddrafft y CDLl ..... 10
Arfarnu Cynaliadwyedd yr Amcanion Strategol..... 11
4. Arfarnu Dewisiadau Strategol a Dewisiadau Eraill..... 17
Asesu Dewisiadau Twf Strategol..... 17
AC o Ddewisiadau Twf – Crynodeb ..... 38
Arfarniad Cynaliadwyedd y Dewisiadau Gofodol..... 39
Crynodeb o Arfarniad Cynaliadwyedd Dewisiadau Gofodol..... 65
Dewis Hybrid – Cymuned Gytbwys a Thwf Cynaliadwy ..... 67
5. Arfarnu Polisïau Strategol ..... 72
6. Effeithiau Cyffredinol a Lliniaru..... **Error! Bookmark not defined.**
7. Fframwaith Monitro Arfarnu Cynaliadwyedd ..... **Error! Bookmark not defined.**
8. Y Casgliadau a'r Camau Nesaf ..... **Error! Bookmark not defined.**
Y Casgliadau ..... **Error! Bookmark not defined.**
Cyfnodau Nesau'r Broses Arfarnu Cynaliadwyedd ..... **Error! Bookmark not defined.**
Atodiadau..... **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad 1 Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd ..... **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad 2 Fframwaith Monitro Cynaliadwyedd – Ffynonellau Data ... **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad 3. Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol .. **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad 4. Polisi Strategol 16: Hierarchaeth Aneddiadau..... **Error! Bookmark not defined.**

## 1 Rhagarweiniad

1.1.1 Mae'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (AC) hwn yn ffurfio rhan o ddogfennau cynnig cyn adneuo y Cyngor ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig Sir Gaerfyrddin. Diben yr AC yw nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol sy'n debygol o ganlyniad i'r CDLl, ac awgrymu mesurau i liniaru'r effeithiau cadarnhaol gymaint â phosibl. Mae'r broses hon yn hybu datblygiad mwy cynaliadwy ac yn meithrin proses fwy cynhwysol a thryloyw o lunio CDLl, ac yn helpu i sicrhau bod y CDLl wedi'i integreiddio â pholisïau eraill.

1.1.2 Mae Arfarniad Cynaliadwyedd yn ofyniad statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol o dan Adran 62 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Diben Arfarniad Cynaliadwyedd yw asesu effeithiau cymdeithasol ac economaidd y polisïau, y cynigion a'r elfennau strategaeth sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod y penderfyniadau'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

1.1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio datblygu cynaliadwy yng Nghymru trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel a ganlyn:

*"ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant"*

1.1.4 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn nodi bod yn rhaid i Arfarniad Cynaliadwyedd integreiddio gofynion Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae gofynion Cyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC (a elwir hefyd yn Gyfarwyddeb AAS) wedi'u trosi i Gyfraith Cymru trwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn golygu bod angen gwneud asesiad ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd; mae hyn yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol.

1.1.5 Fe'i cynhelir yr AC ochr yn ochr â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

### 1.2 Yr AC/AAS a phroses y CDLl

1.2.1 Mae Llawlyfr y CDLl yn amlinellu pum prif gam wrth gynnal yr AC (gweler Tabl 1). Mae'r AC yn broses ailadroddol, sy'n arwain at sylwadau ac adborth ym mhob cam o'r CDLl, gan ganiatáu am ystyried y goblygiadau posibl ar gynaliadwyedd yn sgil dewisiadau/polisïau arfaethedig ac am broses dryloyw. Os oes angen, gellir mireinio'r CDLl drwy gydol y gwaith o'i baratoi i sicrhau ei fod yn ddogfen gynaliadwy.

**Tabl 1 Camau ym mhroses yr AC a'u cysylltiad â'r CDLl. Wedi'u haddasu o'r Llawlyfr CDLl (2il Argraffiad).**

| Cam yr AC/AAS | Cam y CDLl |
|---|---|
| **Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas** | Casglu tystiolaeth ac amcanion |
| A1 Nodi polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill; ac amcanion cynaliadwyedd | |
| A2 Casglu gwybodaeth sylfaenol | |
| A3 Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd | |
| A4 Datblygu fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd | |
| A5 Ymgynghori ar gwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyedd | |
| **Cam B: Datblygu a mireinio dewisiadau ac asesu'r effeithiau** | Dewisiadau Strategol a'r Strategaeth a Ffefrir |
| B1 Profi amcanion y CDLl o'u cymharu â'r Fframwaith Cynaliadwyedd | |
| B2 Datblygu dewisiadau'r CDLl | |
| B3 Rhagfynegi effeithiau dewisiadau'r CDLl | |
| B4 Gwerthuso effeithiau dewisiadau'r CDLl | |
| B5 Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau andwyol a gwneud y mwyaf o'r effeithiau llesol | |
| B6 Cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol | |
| **Cam C: Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol** | |
| C1 Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol | |
| **Cam D: Ymgynghori ynghylch y CDLl drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol** | |
| D1 Ymgynghori ar y Dewis o Strategaeth y CDLl ac adroddiad yr AC cychwynnol | |
| D2(i) Arfarnu unrhyw newidiadau sylweddol o'r ymgynghoriad | |
| Diweddaru Adroddiad yr AC | Paratoi ac adneuo'r CDLl |
| Archwilio | Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu |
| D2(ii) Arfarnu newidiadau sylweddol yn sgil sylwadau | |
| D3 Gwneud penderfyniadau a darparu gwybodaeth | |
| Datganiad mabwysiadu ac adroddiad yr AC terfynol | |
| **Cam E: Monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r CDLl** | Monitro ac Adolygu |
| E1 Llunio'r nodau a'r dulliau terfynol ar gyfer monitro | |
| E2 Ymateb i effeithiau andwyol | |

## 1.3 Cynnydd a Chydymffurfio â Rheoliadau

### Cam A

Cwblhaodd y Cyngor Gam A ym mis Gorffennaf 2018 drwy gyhoeddi Adroddiad Cwmpasu drafft i ymgynghori arno. Roedd yr Adroddiad Cwmpasu drafft yn cynnwys:

- **A1 Adolygu Cynlluniau/Polisïau/Rhaglenni ac Amcanion Cynaliadwyedd**
  Archwiliwyd nifer o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni a allai fod wedi effeithio ar y CDLl, gan gynnwys y rhai ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol, yn ogystal â

Chynlluniau Datblygu Lleol awdurdodau cyfagos. Cyflwynir fersiwn wedi'i diweddaru o'r rhestr yn Atodiad 3.

- **A2 Gwybodaeth Sylfaenol**
  Yr adroddiad cwmpasu drafft yw'r casgliad diweddaraf o gyflwr yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas yn Sir Gaerfyrddin. Mae hefyd yn ffurfio'r llinell sylfaen ar gyfer monitro'r canlyniadau'r CDLl ar ôl ei fabwysiadu.
- **A3 Nodi materion a phroblemau**
  Mae'r adroddiad yn amlygu materion cynaliadwyedd a phroblemau, ac yn nodi cyfleoedd y gellir manteisio arnynt drwy'r CDLl diwygiedig.
- **A4 Datblygu'r Fframwaith Cynaliadwyedd**
  Mae'r Fframwaith yr AC yn darparu ffordd o allu disgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau cynaliadwyedd ac fe'i datblygwyd wrth ystyried y materion a'r cyfleoedd a godwyd. Mae'r fframwaith hwn yn darparu sail y gellir ei defnyddio i brofi cynaliadwyedd y CDLl.
- **A5 Ymgynghori ar Gwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyedd**
  Ar 18 Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd yr Adroddiad Cwmpasu i ymgynghori arno am gyfnod o chwe wythnos. Roedd ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin ac anfonwyd negeseuon e-bost a llythyron i roi gwybod i gyrff a phersonau ymgynghori am hyn a oedd wedi cofrestru i gael diweddariadau ar broses y CDLl.
  Cafwyd sylwadau gan nifer o randdeiliaid, bob un wedi'u cynnwys yn Atodiad 5. Gwnaed newidiadau i'r AC yn sgil y sylwadau hyn, lle bo hynny'n briodol, a nodwyd unrhyw sylwadau a oedd yn ymwneud yn fwy â'r CDLl a'u trosglwyddo i'r tîm CDLl eu hystyried.

**Cam B**

Paratowyd adroddiad yr AC cychwynnol hwn i gydymffurfio â Cham B o'r broses SA.

- **B1 Profi amcanion y CDLl o'u cymharu â'r Fframwaith Cynaliadwyedd**
  Bydd yr adroddiad hwn yn profi amcanion y strategaeth a ffefrir yn y CDLl o'u cymharu â'r Fframwaith Cynaliadwyedd. Caiff hyn ei gofnodi ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.
- **B2 Datblygu dewisiadau'r CDLl**
  **B3 Rhagfynegi effeithiau dewisiadau'r CDLl**
  **B4 Gwerthuso effeithiau dewisiadau'r CDLl**
  Bydd yr adroddiad hwn yn datblygu, yn rhagfynegi ac yn gwerthuso dewisiadau strategol y CDLl, o ran twf a dosbarthiad gofodol, yn ogystal â'r polisïau strategol a fydd ar waith i'w gweithredu.
  Cofnodir y broses hon ym Mhennod 5 a 6 yr adroddiad hwn.
- **B5 Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau andwyol a gwneud y mwyaf o'r effeithiau llesol.**
  Trafodir hyn ym Mhennod 7 yr adroddiad hwn.
- **B6 Cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol gweithredu'r CDLl**
  Trafodir hyn ym Mhennod 8 yr adroddiad hwn.

# 2. Y Dull o Arfarnu

## 2.1 Y Dull

2.1.1.Mae dull yr AC wedi cyfeirio at ganllawiau a ddarparwyd mewn nifer o ddogfennau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llawlyfr CDLl Llywodraeth Cymru – Argraffiad 2, (2015)[1],
- Sustainability Appraisal of Regional Spatial Strategies and Local Development Documents ODPM (2005)[2]
- A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive ODPM (2005)[3]
- Improving the Effectiveness and Efficiency of SEA/SA for Land Use Plans, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (2018)[4]

## 2.2 Y Fframwaith Cynaliadwyedd

2.2.1 Mae Fframwaith yr AC yn darparu sail cyson ar gyfer disgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau amcanion, dewisiadau a chynigion penodol y CDLl ar gynaliadwyedd. Mae Fframwaith yr AC wedi'i arwain gan amcanion, felly caiff pob un o amcanion a dewisiadau strategol y CDLl diwygiedig eu hasesu o ran eu cyfraniad at gyflawni amcanion yr AC.

2.2.2 Mae'r fframwaith yn nodi amcanion cynaliadwyedd sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn ac sy'n adlewyrchu'r heriau a wynebir ym maes y cynllun. Datblygwyd yr amcanion wrth ystyried y cyfraniadau canlynol, ac mae pob un wedi'i nodi yn Adroddiad Cwmpasu yr AC:

- Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau
- Gwybodaeth Sylfaenol
- Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd a nodwyd

2.2.3 Cyflwynwyd Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) yn yr Adroddiad Cwmpasu SA[5]. Dewiswyd yr amcanion er mwyn asesu sut y bydd y CDLl diwygiedig yn bodloni meini prawf y Gyfarwyddeb SEA ac yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Rhoddir Fframwaith yr AC yn llawn yn Atodiad 1. I grynhoi, mae'r amcanion yn adlewyrchu'r themâu a nodir yn Atodlen 2 y Rheoliadau SEA yn ogystal ag amcanion ychwanegol ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd a ffactorau economaidd-gymdeithasol.

2.2.4 15 Amcan yr AC sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith yw:

- AC1 Datblygu Cynaliadwy

---

[1] Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru - Rhifyn 2 - Awst 2015. https://gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?skip=1&lang=cy

[2] Sustainability Appraisal of Regional Spatial Strategies and Local Development Documents, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005.

[3] A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gweithrediaeth yr Alban ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon 2005.

[4] Improving the Effectiveness and Efficiency of SEA/SA for Land Use Plans, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol 2018

[5] Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Gorffennaf 2018 https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1215167/sa-scoping-report_cym-final.pdf

- AC2 Bioamrywiaeth
- AC3 Ansawdd Aer
- AC4 Ffactorau Hinsoddol
- AC5 Dŵr
- AC6 Asedau Materol
- AC7 Pridd
- AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylcheddau Hanesyddol
- AC9 Tirwedd
- AC10 Poblogaeth
- AC11 Y Gymraeg
- AC 12 Iechyd a Llesiant
- AC 13 Addysg a Sgiliau
- AC14 Yr Economi
- AC15 Gwead Cymdeithas

2.2.5 I gynorthwyo'r broses asesu cefnogir pob amcan â nifer o isamcanion a 'meini prawf gwneud penderfyniadau' cysylltiedig, a fydd yn hwyluso'r broses asesu ac yn helpu i ddehongli'r brif amcan.

## 2.3 Pennu arwyddocâd effaith

2.3.1 Mae'n rhaid i'r Adroddiad Amgylcheddol gofnodi unrhyw Atodiad II o'r Gyfarwyddeb AAS sy'n nodi meini prawf ar gyfer pennu effeithiau arwyddocaol tebygol. Mae rhagfynegi effeithiau yn cynnwys nodi newidiadau i'r llinell sylfaen amgylcheddol y rhagfynegir y byddant yn codi yn sgil gweithredu'r cynllun, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau eraill. Dylai rhagfynegi effeithiau gynnwys y canlynol hefyd:

- **Maint** effeithiau'r cynllun, gan gynnwys i ba raddau mae'r cynllun yn gosod fframwaith ar gyfer prosiectau, i ba raddau mae'n dylanwadu ar gynlluniau eraill, a phroblemau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r cynllun.
- **Sensitifrwydd** yr amgylchedd dan sylw, gan gynnwys gwerth yr ardal a pha mor agored ydyw i niwed, safonau ansawdd amgylcheddol y rhagorwyd arnynt, ac effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau dynodedig.
- **Nodweddion yr effaith**, gan gynnwys tebygolrwydd, hyd, amlder, y gallu i'w gwyrdroi, effeithiau cronnus, effeithiau traws ffiniol, risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd, a maint a graddau gofodol yr effeithiau.

2.3.2 O gofio natur eang cynigion y cynllun a pha mor anodd yw gwahanu achosion eraill yr effeithiau, ystyrir mai dull ansoddol yw'r dull mwyaf ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw ansoddol yn golygu 'wedi dyfalu' ac mae angen i ragfynegiadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth. Pan fydd y dystiolaeth wedi'i hystyried, mae'n rhaid ffurfio barn a yw'r effaith a ragfynegir yn un arwyddocaol. Mae Ffigur 1 yn darparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i farnu arwyddocâd yn gyson a gan sicrhau bod rhagfynegi, gwerthuso a lliniaru wedi'u cynnwys yn yr arfarniad.


## 2.4 Amserlenni

2.4.1 Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r dadansoddiad o effeithiau gynnwys effeithiau tymor byr, canolig a hir, parhaol a dros dro (Atodiad I(f)). Gall effeithiau amrywio dros wahanol amserlenni, e.e. effeithiau tymor byr andwyol o ganlyniad i darfu ar

gynefinoedd ond effeithiau buddiol tymor hir o ostyngiadau mewn llygredd aer neu nwyon tŷ gwydr. Gan gofio hyn, bydd yr AC yn ystyried effeithiau dros dair amserlen.

- Tymor Byr (TB): 0–5 o flynyddoedd
- Tymor Canolig (TC): 6 - 10 o flynyddoedd
- Tymor Hir (TH): 11–20 o flynyddoedd

## Ffigwr 1 Proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd



## 2.5 Senario Sylfaenol

2.5.1 I fodloni gofynion AAS (Rheoliadau AAS – Rheoliad 12 ac Atodlen 2(2)) mae angen nodi esblygiad tebygol ardal y cynllun pe na byddai'r cynllun yn cael ei weithredu. Mae sefydlu beth fydd y sefyllfa heb y cynllun, h.y. senario busnes arferol, yn cynnwys gofyn sut y gall polisïau, arferion a thueddiadau presennol newid yn y dyfodol heb unrhyw ymyrraeth weithredol trwy'r CDLl. Dylid defnyddio'r sefyllfa busnes arfer fel llinell sylfaen i gymharu goblygiadau a pherfformiad dewisiadau eraill. Gan fod hyn yn ddiwygiad o'r CDLl presennol, y llinell sylfaen a ddefnyddir wrth ystyried yr holl ddewisiadau a pholisïau, yw sut y byddai'r ardal yn newid o dan y cynllun datblygu presennol heb gyflwyno polisïau newydd.

2.5.2 Cynhaliwyd yr arfarniad hwn drwy ystyried cynlluniau, rhaglenni a pholisïau presennol sydd ar waith yn rhan o'r senario sylfaenol. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd rhai o'r cynlluniau, rhaglenni a pholisïau hyn eisoes yn lliniaru rhai o'r effeithiau negyddol a all ddigwydd o ganlyniad i'r CDLl ac ystyriwyd hyn yn rhan o'r asesiad. Ceir rhestr lawn o gynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol yn Atodiad 3. Rhoddir ystyriaeth arbennig i bolisi cynllunio cenedlaethol presennol sy'n gysylltiedig â Nodiadau Cyngor Technegol (TAN).

## 2.6 Matricsau Effaith

2.6.1 Er mwyn profi faint y mae'r dewisiadau strategol a'r polisïau yn Fframwaith yr AC yn cyfateb, defnyddiwyd matricsau i grynhoi'r arfarniad trwy ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir yn Nhabl 2. Nodir y modd y mae'r amcanion, dewisiadau a safleoedd yn cyfrannu at gyflawni amcanion Fframwaith yr AC gan ddefnyddio'r symbolau canlynol:

**Tabl 2 Meini Prawf yr Arfarniad Cynaliadwyedd**

| Symbol | Effaith a Ragfynegir | Camau/ymateb a awgrymir |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol iawn – byddai testun yr arfarniad yn helpu'n sylweddol i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol iawn yn fwy |
| + | Effaith gadarnhaol – byddai testun yr arfarniad yn helpu i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol yn fwy |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o'r amcan Cynaliadwyedd ond yn llesteirio elfennau eraill. | Ystyried camau lliniaru ar gyfer yr effeithiau negyddol ac ellir gwella'r effeithiau cadarnhaol |
| - | Effaith negyddol – byddai testun yr arfarniad yn amharu ar yr amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried camau lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio y polisi neu'r dyraniad safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig. |
| -- | Effaith negyddol iawn – byddai testun yr arfarniad yn amharu'n sylweddol ar yr amcan Cynaliadwyedd. | Dulliau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith; ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig |
| I | Bydd effaith ar yr amcan Cynaliadwyedd yn dibynnu ar sut y gweithredir y polisi a'r dyraniad | Awgrymiadau ar gyfer gweithredu |
| ? | Ansicr o'r effaith – angen rhagor o wybodaeth | Ystyried o ble bydd hyn yn dod – gan bwy mae'r wybodaeth? Sut y caiff ei chasglu? Pryd y caiff ei chasglu? |

## 3. Arfarnu'r Amcanion Strategol

3.1.1 Mae'n rhaid i Weledigaeth ac Amcanion y CDLl gydsynio ag egwyddorion cynaliadwyedd a bod wedi'u hasesu o'u cymharu â phob un o amcanion yr AC, er mwyn nodi a fydd unrhyw effaith sylweddol ar yr amgylchedd, neu ganlyniadau anghynaliadwy. Mae'r broses hon wedi helpu i fireinio'r Weledigaeth a'r Amcanion i sicrhau eu bod yn ymgorffori ac yn adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd.

### 3.1 Gweledigaeth Ddiwygiedig Ddrafft y CDLl

3.1.2 Swyddogaeth y Weledigaeth yw sefydlu diben craidd y CDLl diwygiedig a darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisïau a mesur faint o lwyddiant a gafwyd wrth weithredu'r cynllun. Mae Gweledigaeth y CDLl yn darparu persbectif gofodol sy'n rhoi diben a chyfeiriad i'r cynllun ac yn sicrhau cyflawniad trwy'r system cynllunio defnydd tir. Mae gweledigaeth ddiwygiedig y CDLl yn defnyddio blaenoriaethau cynllunio strategol a nodir mewn polisi cenedlaethol a strategaethau lleol, ac wedi'u nodi'n Faterion Allweddol ar gyfer y Sir (Ffigur

**Ffigwr 1 Gweledigaeth y CDLl Diwygiedig Drafft**

Un Sir Gâr

Bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, lle caiff ei nodweddion diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Bydd ganddi gymunedau ffyniannus, cydlynus a chynaliadwy a fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau i bobl, lleoedd a sefydliadau yn rhannau gwledig a threfol ein Sir.

Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogwr hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

3.1.3 Aseswyd y weledigaeth trwy ddefnyddio fframwaith yr AC ac fe'i dangosir yn Nhabl 3. Daeth yr asesiad hwn i'r casgliad y perfformiodd y Weledigaeth Ddrafft yn dda o'i gymharu â'r rhan fwyaf o agweddau ar ddatblygu cynaliadwy, yn arbennig Bioamrywiaeth, Asedau Materol, Poblogaeth, Iechyd a Llesiant, Addysg a Sgiliau, Yr Economi a Gwead Cymdeithas.

3.1.4 Mae'n anodd pennu beth fydd effaith y weledigaeth ar amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol mwy penodol, fel Ansawdd Aer, Ffactorau Hinsoddol, Dŵr, Pridd, Treftadaeth Ddiwylliannol a Thirwedd ac ni wneir unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at y ffactorau hyn yn y Weledigaeth. Fodd bynnag, ceir cyfeiriad at werthfawrogi a pharchu rhinweddau amgylcheddol sy'n rhoi sylfaen ar gyfer effaith gadarnhaol ar yr amcanion cynaliadwyedd hyn.

3.1.5 Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol ychwaith at y Gymraeg, felly nid oes cysylltiad rhwng Gweledigaeth y CDLl ac amcan y Gymraeg yn yr AC ar hyn o bryd.

## 3.2 Arfarnu Cynaliadwyedd yr Amcanion Strategol

3.2.1 Dylai Amcanion y CDLl ddarparu datganiadau clir o fwriad a chanolbwyntio ar sut i gyflawni Gweledigaeth y CDLl. Maent yn darparu fframwaith a gaiff ei ddefnyddio i ffurfio polisïau strategol, ac wedyn bydd yn llywio'r broses o lunio polisïau ar gyfer y Cynllun Adnau. Mae'r Amcanion Strategol hefyd yn darparu cyd-destun ar gyfer datblygu'r Dewisiadau Gofodol a Twf Strategol.

3.2.2 Nodir yr Amcanion Strategol drafft yn llawn yn Nhabl 3 isod, a cheir crynodeb o'u perfformiad o'i gymharu â fframwaith yr AC yn Ffigur 3. Ceir sylwadau manwl yn Nhabl 4.

### Tabl 3: Amcanion y CDLl Diwygiedig Drafft

**Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd**

- **AS1** Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau, yn cael ei ddiogelu a'i wella
- **AS2** Cynorthwyo i ehangu a hyrwyddo cyfleoedd llesiant trwy fynediad i gyfleusterau cymunedol a hamdden yn ogystal â chefn gwlad
- **AS5** Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol a hyrwyddo'r arfer o ailddefnyddio adeiladau segur yn briodol.

**Ymyrraeth Gynnar - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt.**

- **AS3** Helpu i ehangu a hyrwyddo cyfleoedd am addysg a hyfforddiant sgiliau i bawb.
- **AS4** Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal drwy hyrwyddo mynediad i wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith amrywiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal â chanol trefi bywiog.

**Cysylltiadau Cryf - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid**

- **AS6** Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd gofodol yn cael eu cynnal trwy gyfeirio datblygiadau i leoliadau cynaliadwy sydd â mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, a rhoi anogaeth i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- **AS7** Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael ag achos newid yn yr hinsawdd ac addasu ei effeithiau, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a'u diogelu.
- **AS8** Cyfrannu at ddarparu system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy sydd ar gael i bawb, gan gynnwys cysylltiadau â dulliau trafnidiaeth amgen

**Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd**

- **AS9** Diogelu a gwella cymeriad amrywiol, nodweddion unigryw, diogelwch a bywiogrwydd cymunedau'r Sir drwy hyrwyddo dull o greu lle ac ymdeimlad o le.
- **AS10** Darparu cymysgedd priodol o dai o ansawdd ledled y Sir, yn seiliedig ar egwyddorion datblygu economaidd-gymdeithasol cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal.
- **AS11** Helpu i warchod, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r Sir ynghyd â'i hasedau a'i gwead cymdeithasol.
- **AS12** Annog buddsoddiad ac arloesedd mewn ardaloedd gwledig a threfol trwy sicrhau darpariaeth ddigonol i ddiwallu'r angen am waith a chyfrannu ar lefel ranbarthol tuag at gyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
- **AS13** Darparu ar gyfer mentrau twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn.
- **AS14** Adlewyrchu'r gofynion sy'n gysylltiedig â chyflwyno datblygiadau newydd, o safbwynt seilwaith caled a meddal (gan gynnwys band eang).

3.2.3 Ar y cyfan, mae'r 14 o Amcanion Strategol yn dangos cyd-fynd cadarnhaol ag egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac yn perfformio'n dda o'i gymharu â'r Fframwaith Cynaliadwyedd, a phrin yw'r gwrthdaro posibl a ddaw i'r amlwg. Mae hyn yn dangos bod agweddau cynaliadwyedd wedi'u hystyried yn llawn trwy gydol y broses o ddatblygu'r Amcanion Strategol.

3.2.4 Ar gyfer llawer o'r Amcanion Cynaliadwyedd, ni ŵyr beth fydd effaith Amcanion y CDLl gan fod y canlyniad yn dibynnu ar y math o ddatblygiad, gweithgaredd neu leoliad. Mae'r arfarniad hefyd yn amlygu gwrthdaro posibl, yn arbennig o ran Bioamrywiaeth, Ansawdd Aer, Dŵr a Threftadaeth Ddiwylliannol. Dylid datrys yr effeithiau ansicr a negyddol posibl hyn trwy'r polisïau CDLl manwl a chamau lliniaru priodol, lle bo hynny'n bosibl.

### Tabl 4: Sylwadau yr Arfarniad Cynaliadwyedd o ran Amcanion Strategol

| | |
|---|---|
| **AS1** | • Cefnogi camau gwarchod bioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau (AC2).<br>• Cyd-fynd yn gadarnhaol â gwella ansawdd aer (AC3) a'r gallu i wrthsefyll ffactorau hinsoddol (AC4) trwy ddiogelu mannau gwyrdd, coed a llystyfiant naturiol arall sy'n cyfrannu at buro'r aer a lleihau nwyon tŷ gwydr.<br>• Sicrhau y caiff rhywogaethau a chynefinoedd eu diogelu a'u gwella. Ceir llawer o enghreifftiau afonol, aberol, arfordirol a morol o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin. Dylai eu gwarchod ei gwneud yn ofynnol i wella ansawdd dŵr, sy'n cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC5.<br>• Annog cynaliadwyedd a dulliau cynaliadwy o deithio (AC6) sy'n cyd-fynd yn gadarnhaol â lleihau effeithiau trafnidiaeth a thagfeydd traffig ar rywogaethau a chynefinoedd.<br>• Mae gwarchod yr amgylchedd naturiol yn cynyddu mynediad at fannau gwyrdd at ddibenion llesiant (AC12), fodd bynnag, gallai hyn annog pwysau hamdden anghynaliadwy ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n hynod sensitif i bwysau allanol. |
| **AS2** | • Mae gwarchod a gwella bioamrywiaeth mewn ardaloedd gwledig a threfol (AC2) yn cynyddu mynediad at yr amgylchedd naturiol at ddibenion hamdden a llesiant. Fodd bynnag, gall hyn arwain at bwysau hamdden anghynaliadwy ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n hynod sensitif i bwysau allanol.<br>• Trwy gynnal lefel uchel o ansawdd dŵr (AC5) sicrheir bod safon uchel o gyfleusterau cymunedol a hamdden ar y dŵr ar gael. Fodd bynnag, gallai mwy o ddefnydd hamdden o adnoddau dŵr gynyddu pwysau llygredd ar gyrff dŵr sensitif.<br>• Mae hybu ac integreiddio gwahanol ddulliau o deithio (yn arbennig beicio a cherddded) (AC6) yn cyd-fynd yn bositif ag AS2.<br>• Mae AS2 yn cyfrannu'n gadarnhaol at hybu cynhwysiant cymdeithasol ymysg grwpiau difreintiedig a lleiafrifol yn y gymdeithas, trwy hybu mynediad at gyfleoedd a chyfleusterau llesiant (AC10/AC15).<br>• Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag AC12. |

| | |
|---|---|
| **AS3** | • Cyd-fynd yn gadarnhaol â chynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol, yn ogystal â hybu camau i gadw pobl ifanc yn y gymuned (AC10/AC12/AC15) trwy hybu mynediad at addysg a chyfleoedd hyfforddiant sgiliau i bawb.<br>• Mae Sir Gaerfyrddin yn cefnogi cyfleusterau dysgu cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a bydd eu hybu yn cyd-fynd yn gadarnhaol â hybu'r Gymraeg ar draws y Sir (AC11).<br>• Mae'r amcan yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag AC13.<br>• Mae cefnogi poblogaeth mwy addysgiedig a medrus yn cefnogi'n gadarnhaol economi gynaliadwy a chyfleoedd cyflogaeth da (AC14). |
| **AS4** | • Mae sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau ar gael yn ogystal â hybu canol trefi llawn bywyd yn annog diwallu anghenion yn lleol, a fydd yn lleihau'r pellteroedd y bydd yn rhaid i bobl eu teithio ac yn cynyddu defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus (AC3/AC4/AC6)<br>• Mae cyfleoedd cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC10 ac AC15.<br>• Mae sefydlu canol trefi llawn bywyd â chymysgedd amrywiol o gyfleusterau yn cefnogi gwelliant trefluniau (AC9).<br>• Mae mynediad at wasanaethau a chyfleusterau yn annog pobl ifanc i aros (AC10) a siaradwyr Cymraeg (AC11) yn y Sir, ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy ledled Sir Gaerfyrddin (AC14). |
| **AS5** | • Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag AC8.<br>• Mae AS4 ac AC9 yn hybu ailddefnyddio tir diffaith ac adeiladau segur a gwella trefluniau lleol.<br>• Mae'r amcan hwn hefyd yn cyd-fynd ag AC7 gan ei fod yn cynnig posibilrwydd i sicrhau y caiff safleoedd tir llwyd eu hailddatblygu, ac yn lleihau gwaith datblygu ar safleoedd maes glas a choridorau afonau lle ceir pridd â gwerth amaethyddol uchel.<br>• Mae diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn sicrhau y caiff asedau diwylliannol Cymru eu gwarchod (AC11) a'u bod ar gael i bobl yn Sir Gaerfyrddin at ddibenion llesiant (AC12). |
| **AS6** | • Cyfyngu'r potensial am waith datblygu gwledig helaeth a rhannu cynefinoedd o ganlyniad i'r gwaith hwnnw (AC2) gan fod gwaith datblygu yn canolbwyntio ar leoliadau cynaliadwy.<br>• Mae diwallu anghenion yn lleol yn lleihau'r pellteroedd y mae'n rhaid i bobl eu teithio ac yn cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus (AC4, AC6), ac mae hyn yn cyfrannu at leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat sy'n arwain at effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer (AC3).<br>• Mae hefyd yn sicrhau bod gwaith datblygu yn canolbwyntio ar ardaloedd lle ceir seilwaith yn barod i gefnogi'r gwaith datblygu, e.e. adnoddau dŵr (AC5), mynediad at gyfleusterau iechyd, addysg a hyfforddiant (AC12, AC13, AC15).<br>• Mae annog defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn cyd-fynd ag AC9 ac AC7. |
| **AS7** | • Mae'r amcan yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag AC4. |

| | |
|---|---|
| | • Mae mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd yn cyd-fynd yn gadarnhaol â hybu defnydd o ddulliau eraill lo deithio a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus (AC6) a gall hyn arwain at effeithiau cadarnhaol ar elfennau eraill hefyd, fel ansawdd aer (AC3).<br>• Mae addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys gwneud lle ar gyfer dŵr a lleihau'r risgiau o lifogydd (AC5).<br>• Mae hybu defnydd effeithlon o adnoddau a diogelu adnoddau hefyd yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC6. |
| **AS8** | • Mae sefydlu system drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy, gan gynnwys dulliau eraill o deithio, yn cyd-fynd yn gadarnhaol â gwella ansawdd aer (AC3) a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (AC4)<br>• Mae'r amcan yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag AC6<br>• Mae defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hybu cynhwysiant grwpiau difreintiedig yn y gymdeithas (AC10, AC15), trwy caniatáu iddynt ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau ni waeth beth fo'u sefyllfa gymdeithasol.<br>• Mae annog dulliau eraill o deithio, fel cerdded a seiclo yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC12. |
| **AS9** | • Mae bioamrywiaeth, amgylchedd naturiol (AC2), treftadaeth ddiwylliannol (AC8) a thirwedd unigryw (AC9) Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu at ymdeimlad o le a dylid eu gwarchod.<br>• Mae creu ymdeimlad cryf o le a chymunedau llawn bywyd yn Sir Gaerfyrddin yn bwysig i gadw pobl ifanc yn y sir (AC10).<br>• Mae gan y sir hunaniaeth Gymraeg gref ac mae'n rhaid gwarchod a gwella hyn (AC11) i gynnal nodweddion unigrwy a chymeriad Sir Gaerfyrddin.<br>• Dylai creu lle wella gwead cymdeithas trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol, yn arbennig ar gyfer grwpiau difreintiedig a lleiafrifol yn y gymdeithas (AC10, AC15). |
| **AS10** | • Mae darparu ar gyfer cymysgedd o gartrefi o ansawdd uchel ar draws y sir yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC8 ac AC9.<br>• Bydd cyfleoedd cyfartal yn sicrhau bod grwpiau difreintiedig a lleiafrifol a phobl ifanc hefyd, yn cael cyfle i gael mynediad at dai addas ar draws y sir (AC10, AC15), a gall hyn arwain at gadw siaradwyr Cymraeg yn y Sir (AC11). |
| **AS11** | • Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag AC11 ac AC15.<br>• Cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC10, oherwydd bod gan boblogaeth Sir Gaerfyrddin hunaniaeth Gymraeg gref a chyfran uchel o'r boblogaeth wedi'u geni yng Nghymru.<br>• Bydd hybu'r Gymraeg yn effeithio'n gadarnhaol ar lefelau llythrennedd Cymraeg (AC13). |
| **AS12** | • Mae cynlluniau arfaethedig i gefnogi cyflawniad rhanbarthol Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn canolbwyntio ar ddatblygiadau newydd yn Llanelli a Chaerfyrddin. Ceir nifer o ardaloedd sy'n sensitif o ran bioamrywiaeth (AC2) |

| | |
|---|---|
| | ac ansawdd aer (AC3) ac ansawdd dŵr (AC5) yn y ddwy ardal hyn, a gall gwaith datblygu arwain at effeithiau negyddol ar y rhain.<br>• Gall creu cyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig a threfol ym mhob rhan o'r sir arwain at ostyngiad cadarnhaol i'r gofyniad i ddefnyddio ceir preifat i gymudo allan o'r sir (AC4/AC6). Fodd bynnag, nid yw cynlluniau cychwynnol ar gyfer datblygiadau yng Nghaerfyrddin a Llanelli yn cefnogi hyn ar hyn o bryd.<br>• Mae'n anodd pennu beth fydd effaith yr amcan hwn ar AC11 oherwydd bod gan ddatblygiad economaidd a'r swyddi a grëir o ganlyniad i hynny y potensial i gadw trigolion medrus sy'n siarad Cymraeg yn y Sir. Fodd bynnag, gall hyn hefyd annog pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i fewnfudo i'r sir, a allai wanhau'r diwylliant siarad Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin.<br>• Bydd yr amcan hwn yn arwain at effaith gadarnhaol ar greu swyddi, a fydd yn ei dro yn hybu twf economaidd a busnes cynaliadwy yng Nghymru (AC14).<br>• Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at addysg, gwella sgiliau a chadw pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn Sir Gaerfyrddin (AC10/AC13) gan fod cyfleoedd cyflogaeth o safon ar gael i bob rhan o'r boblogaeth (AC15).<br>• Bydd y cynlluniau i greu pentref gwyddorau bywyd a llesiant yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe yn ysgogydd cadarnhaol ar gyfer iechyd a llesiant ar draws Sir Gaerfyrddin. |
| **AS13** | • Mae gan lefelau cynyddol o dwristiaeth yn y sir y potensial i gynyddu pwysau hamdden ar rai o safleoedd dynodedig bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol Sir Gaerfyrddin, yn arbennig safleoedd arfordirol a morol sydd â gwerth hamdden uchel (AC2/AC5/AC8).<br>• Mae'r pwysau cynyddol y traffig sydd ynghlwm wrth dwristiaeth yn debygol o arwain at effaith negyddol ar ardaloedd lle ceir problemau ansawdd aer eisoes, yn ogystal â chynefinoedd/rhywogaethau sy'n sensitif i bwysau o'r fath (AC2/AC3).<br>• Mae darpariaeth ar gyfer mentrau twristiaeth drwy gydol y flwyddyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyflogaeth a chyfleoedd addysg, sgiliau a hyfforddiant cysylltiedig (AC13), a bydd hyn yn ei dro yn arwain at effaith gadarnhaol ar yr economi leol (AC14) ac at gadw pobl ifanc yn y sir (AC10). |
| **AS14** | • Mae sicrhau bod gwaith datblygu newydd wedi'i gefnogi gan seilwaith caled a meddal digonol yn sicrhau y caiff adnoddau dŵr eu defnyddio mewn modd cynaliadwy a bod gan systemau ddigon o gapasiti i ymdrin â charthffosiaeth a gwaredu llygredd. (AC5)<br>• Mae hefyd yn debygol y bydd AS14 yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC3, AC4 ac AC6 wrth annog camau i ddiwallu anghenion yn lleol a lleihau'r angen i deithio i gael gafael ar gyfleusterau a gwasanaethau.<br>• Mae'r amcan hwn yn debygol o gyd-fynd yn gadarnhaol â chynyddu mynediad at wasanaethau, yn arbennig i'r rhai hynny ar gyfer grwpiau difreintiedig neu leiafrifol yn y gymdeithas (AC10/AC15).<br>• Mae hefyd yn debygol o gefnogi mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau llesiant (AC12) yn ogystal â chyfleusterau addysg, sgiliau a hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth o safon (AC14). |

### Ffigwr 2: Profi Amcanion Strategol Diwygiedig y CDLl o'u cymharu â'r fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd

| Gweledigaeth ac Amcanion | AC1 | AC2 | AC3 | AC4 | AC5 | AC6 | AC7 | AC8 | AC9 | AC10 | AC11 | AC12 | AC13 | AC14 | AC15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth | + | + | ? | ? | ? | + | ? | ? | ? | + | | + | + | + | + |
| AS1 | + | + | + | + | + | | | | | | | ? | | | |
| AS2 | + | ? | | | ? | + | | | | + | | + | | | + |
| AS3 | + | | | | | | | | | + | + | | | | + |
| AS4 | + | | + | + | | + | | | + | + | + | | | + | + |
| AS5 | + | | | | | | + | + | + | | + | + | | | |
| AS6 | + | + | + | + | + | + | + | | + | | | + | + | | + |
| AS7 | + | | + | + | + | + | | | | | | | | | |
| AS8 | + | | | + | | + | | | | + | | + | | | + |
| AS9 | + | + | | | | | | + | + | + | + | | | | + |
| AS10 | + | | | | | | | + | + | + | + | | | | + |
| AS11 | + | | | | | | | | | + | + | | + | | + |
| AS12 | + | - | - | ? | - | ? | | | | + | ? | + | + | + | + |
| AS13 | + | - | - | | - | | | - | | + | ? | + | + | + | |
| AS14 | + | | + | + | + | + | | | | + | | + | + | + | + |

| | |
|---|---|
| + | Cyd-fynd cadarnhaol rhwng Amcan Strategol Diwygiedig y CDLl a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| ? | Ni ŵyr pa gyd-fynd sydd rhwng Amcan Strategol Diwygiedig y CDLl a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng Amcan Strategol Diwygiedig y CDLl a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| - | Gwrthdaro posibl rhwng Amcan Strategol Diwygiedig y CDLl a'r Amcan Cynaliadwyedd |

## 4. Arfarnu Dewisiadau Strategol a Dewisiadau Eraill

4.1.1 Mae'n rhaid i'r CDLl nodi strategaeth defnyddio tir a dewisiadau polisi i gyflawni ei Weledigaeth. Wrth lunio'r Strategaeth a Ffefrir, aseswyd amrywiadau yn y lefelau cyffredinol o dwf a dosbarthiad gofodol gwaith datblygu newydd.

4.1.2 Mae angen adroddiad amgylcheddol ar Gyfarwyddeb yr AAS sy'n disgrifio ac yn gwerthuso effeithiau amgylcheddol y cynllun a dewisiadau eraill rhesymol gan ystyried yr amcanion a chwmpas daearyddol y cynllun (Erthygl 5.1), a chynnwys braslun o'r rhesymau dros ddewis yr opsiwn a drafodwyd (Atodiad Ih). Mae Llawlyfr CDLl Llywodraeth Cynulliad Cymru yn egluro:

*"Diben y dasg hon yw rhagfynegi effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y CDLl. Y brif dechneg yw rhagfynegi effeithiau cadarnhaol a negyddol pob opsiwn ar y llinell sylfaen amgylcheddol a'r amcanion a nodir yn fframwaith yr AC. Wedyn gellir cymharu perfformiad pob opsiwn, gan ystyried, lle y bo angen, y senario "gweithredu yn ôl yr arfer", h.y. sut y byddai cynaliadwyedd yn newid o dam y cynllun datblygu presennol"* (Sec. 6.4.1).

4.1.3 Trafodir canlyniadau'r AC o'r Dewisiadau Twf Strategol a'r Dewisiadau Gofodol isod.

### 4.1 Asesu Dewisiadau Twf Strategol

4.1.4 Bydd angen i Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin ystyried poblogaeth, tai a thwf economaidd yn y Sir dros gyfnod o bymtheng mlynedd. Er mwyn llywio nifer yr anheddau y bydd angen eu darparu yn y CDLl, comisiynwyd Edge Analytics i ddarparu amrywiaeth o wahanol senarios rhagamcanu demograffig o'r enw 'Dewisiadau Twf Strategol'. Ceir crynodeb o'r dewisiadau twf a'r tueddiadau y maent wedi seilio arnynt yn Nhabl 4 isod.

4.1.5 Ystyriodd yr adroddiad y dystiolaeth ddemograffig ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn ogystal â defnyddio strategaethau economaidd presennol, gan gynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe[6], Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin[7] a'r Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth[8], sy'n cysylltu twf economaidd, newid y boblogaeth a thai.

4.1.6 Roedd y senarios demograffig yr ystyriodd Edge Analytics yn cynnwys:

- Prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2014
- Tymor Hir (16 blynedd o ddata mudo)
- Tymor Canolig (10 mlynedd o ddata mudo)
- Tymor Byr (data mudo y 6 blynedd diwethaf)
- Data mudo cyn y dirwasgiad (cyn 2008)

4.1.7 Gwnaethant hefyd ystyried dau senario â phwyslais ar gyflogaeth:

- Cyfradd Gymudo Sefydlog
- Cyfradd Gymudo yn Gostwng

[6] https://www.swansea.gov.uk/media/7514/Swansea-Bay-City-Region-Economic-Regeneration-Strategy/pdf/Swansea_Bay_City_Region_Economic_Regeneration_Strategy.pdf
[7] https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1212394/cynllun-adfywio-strategol-ar-gyfer-sir-ga-r-2015-2030.pdf
[8] https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1212934/astudiaeth-cyflogaeth-sectorol-2017.pdf

4.1.8 Mae'r senarios demograffig yn ystyried tueddiadau o ran poblogaeth, mudo, nifer y bobl ar aelwyd, cyfraddau geni a marw a nifer y tai sy'n wag yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd er mwyn rhagamcanu'r newid yn y boblogaeth a faint o anheddau y bydd eu hangen yn ystod cyfnod y CDLl diwygiedig. Ystyrir mai amserlenni'r tueddiadau hyn sy'n arwain at y senarios gwahanol a restrir uchod.

4.1.9 Mae twf aelwydydd ac anheddau o dan y senarios demograffig wedi'i amcangyfrif trwy ddefnyddio tybiaethau o fodel rhagamcanu aelwydydd Llywodraeth Cymru o 2014 ar y cyd â chyfradd canran yr eiddo gwag, sy'n ystyried nifer yr eiddo gwag neu ail gartrefi yn Sir Gaerfyrddin. Mae Cyfrifiad 2011 yn cyfrifo cyfradd eiddo gwag o 6.3%1 yn Sir Gaerfyrddin, fodd bynnag mae ystadegau mwy diweddar gan Lywodraeth Cymru a data'r dreth gyngor yn nodi cyfradd eiddo gwag is yn Sir Gaerfyrddin o 3.4%, sef y gyfradd a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn.

4.1.10 Mae'r senarios cyflogaeth yn cynnwys y ffactorau hyn ond ceir ymgais i gysylltu newidiadau poblogaeth â thwf cyflogaeth. I wneud hyn, maent hefyd yn ystyried cyfraddau gweithgarwch economaidd, cyflogaeth a'r cydbwysedd rhwng maint gweithlu preswyl a chyflogaeth leol (cyfradd gymudo).

4.1.11 Ceir crynodeb o'r amcanestyniadau yn sgil y gwaith hwn yn Nhabl 5.

4.1.12 Dylid cymharu'r dewisiadau twf â senario "gweithredu yn ôl yr arfer" sef y llinell sylfaen. Mewn CDLl diwygiedig, bydd gweithredu yn ôl yr arfer yn golygu parhau â chynllun neu raglen bresennol, yn lle paratoi un newydd. Mae'r CDLl presennol yn darparu ar gyfer cyflawni 1,013 o anheddau bob blwyddyn, ar sail lefelau rhagamcanu Llywodraeth Cymru 2008.

4.1.13 Profwyd effaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a chynaliadwyedd cyffredinol pob dewis trwy ddefnyddio fframwaith yr AC. Dangosir crynodeb o hyn yn Ffigur 4. Trafodir sylwadau ynghylch prif effeithiau pob dewis yn Nhabl 6.

## Tabl 5 Amcanestyniadau Senario Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

| **Dewis 1: Ar sail Llywodraeth Cymru 2014** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar dybiaethau mudo mewn cyfnod o bum mlynedd rhwng 2009/10 a 2013/14, a gofnododd gyfradd mudo net nodedig is i Sir Gaerfyrddin. | | | |
| **Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033)** | | **Anheddau sydd eu Hangen** | |
| **Poblogaeth (%)** | **Aelwydydd (%)** | **Yn flynyddol** | **Dros gyfnod y cynllun** |
| 1.7% | 4.0% | 224 | 3,367 |

| **Dewis 2: Llywodraeth Cymru (ar sail data mudo cyfartalog dros 10 mlynedd)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn yn efelychu amcanestyniad 10 mlynedd Llywodraeth Cymru yn 2014 o boblogaeth sy'n amrywio yn ôl mudo. Mae tybiaethau mudo wedi'u seilio ar y deng mlynedd cyn 2014 (h.y. 2004/05–2013/14). | | | |
| **Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033)** | | **Anheddau sydd eu Hangen** | |
| **Poblogaeth (%)** | **Aelwydydd (%)** | **Yn flynyddol** | **Dros gyfnod y cynllun** |
| 5.8% | 7.7% | 436 | 6,542 |

| **Dewis 3: Tymor Byr (ar sail 6 blynedd o ddata mudo)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar gyfraddau mudo mewnol a llif mudo rhyngwladol ar sail cyfnod hanesyddol o chwe mlynedd (2011/12 – 2016/17). Mae hyn yn gyfnod tebyg i hwnnw yn Newis 1, fodd bynnag mae'n cynnwys data y tair blynedd diweddaraf. Mae'r dewis hwn yn arwain at y newid lleiaf yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y cynllun, o ganlyniad i'r llifau mudo net is a welir yn 2011/12-2013/14. | | | |
| **Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033)** | | **Anheddau sydd eu Hangen** | |
| **Poblogaeth (%)** | **Aelwydydd (%)** | **Yn flynyddol** | **Dros gyfnod y cynllun** |
| 5.7 % | 8.4 % | 470 | 7,044 |

| **Dewis 4: Tymor Canolig (ar sail 10 mlynedd o ddata mudo)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar gyfraddau mudo a llif mudo rhyngwladol ar sail cyfnod hanesyddol o ddeng mlynedd rhwng 2007/08 a 2016/17. | | | |
| **Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033)** | | **Anheddau sydd eu Hangen** | |
| **Poblogaeth (%)** | **Aelwydydd (%)** | **Yn flynyddol** | **Dros gyfnod y cynllun** |
| 6.3% | 8.6% | 482 | 7,236 |

| **Dewis 5: Tymor Hir (ar sail 16 mlynedd o ddata mudo)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar gyfraddau mudo mewnol a llif mudo rhyngwladol ar sail cyfnod hanesyddol o un mlynedd ar bymtheg (2001/02 – 2016/17). Mae hyn yn 'llyfnhau' rhywfaint ar yr uchafbwyntiau ac isafbwyntiau. Yn y scenario hwn, amcangyfrifir llifau mudo net uwch, gan arwain at fwy o newid yn y boblogaeth a mwy o dwf anheddau dilynol. | | | |
| **Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033)** | | **Anheddau sydd eu Hangen** | |
| **Poblogaeth (%)** | **Aelwydydd (%)** | **Yn flynyddol** | **Dros gyfnod y cynllun** |
| 9.4 % | 11.7 % | 659 | 9,887 |

| Dewis 6: Cyn y Dirwasgiad (ar sail data cyn 2008) | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar gyfraddau mudo mewnol ac mae tybiaethau llif mudo rhyngwladol wedi'u seilio ar y cyfnod cyn dirwasgiad 2008 (2001/02 – 2007/08), pan gofnodwyd llif mudo mewnol uwch i Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad i hyn, mae amcangyfrifon o fudo net yn y dyfodol yn uwch yn y dewis hwn. | | | |
| **Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033)** | | **Anheddau sydd eu Hangen** | |
| **Poblogaeth (%)** | **Aelwydydd (%)** | **Yn flynyddol** | **Dros gyfnod y cynllun** |
| 14.2% | 16.6 % | 939 | 14,090 |

| Dewis 7: Cyfradd Cymudo yn Gostwng | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn yn tybio y bydd gostyngiad yn y gymhareb gymudo o 1.09 i 1.06 erbyn diwedd cyfnod y cynllun | | | |
| **Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033)** | | **Anheddau sydd eu Hangen** | |
| **Poblogaeth (%)** | **Aelwydydd (%)** | **Yn flynyddol** | **Dros gyfnod y cynllun** |
| 19.3% | 20.5% | 1,160 | 17,396 |

| Dewis 8: Cyfradd Gymudo Sefydlog | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn yn berthnasol i'r gymhareb gymudo o 1.09 yng Nghyfrifiad 2011, yn sefydlog drwy gydol y cynllun. | | | |
| **Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033)** | | **Anheddau sydd eu Hangen** | |
| **Poblogaeth (%)** | **Aelwydydd (%)** | **Yn flynyddol** | **Dros gyfnod y cynllun** |
| 22.2% | 23.2% | 1,313 | 19,690 |

## Ffigwr 3 Profi Dewisiadau Twf Strategol yn ôl y fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd

| Dewis Twf | AC1 Datblygu Cynaliadwy | AC2 Bioamrywiaeth | AC3 Ansawdd Aer | AC4 Ffactorau Hinsoddol | AC5 Dŵr | AC6 Asedau Materol | AC7 Pridd | AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | AC9 Tirwedd | AC10 Poblogaeth | AC11 Y Gymraeg | AC12 Iechyd a Llesiant | AC13 Addysg a Sgiliau | AC14 Yr Economi | AC15 Gwead Cymdeithas |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dewis 1**<br>**224 o anheddau y flwyddyn** | - | +/- | +/- | +/- | + | | + | I | I | -- | - | -- | ? | -- | -- |
| **Dewis 2**<br>**436 o anheddau y flwyddyn** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Dewis 3**<br>**470 o anheddau y flwyddyn** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Dewis 4**<br>**482 o anheddau y flwyddyn** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Dewis 5**<br>**659 o anheddau y flwyddyn** | + | +/- | +/-- | +/- | + | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| **Dewis 6**<br>**939 o anheddau y flwyddyn** | + | +/- | +/- | +/- | - | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| **Dewis 7**<br>**1,160 o anheddau y flwyddyn** | - | - | - | - | - | | - | I | I | + | +/- | + | ? | ++ | + |
| **Dewis 8**<br>**1,313 o anheddau y flwyddyn** | - | - | - | - | -- | | - | I | I | + | +/- | + | ? | ++ | + |

## Tabl 6 Sylwadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer y Dewisiadau Twf Strategol

**Dewis 1 – Ar sail data 2014 Llywodraeth Cymru**

Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar dybiaethau mudo mewn cyfnod o bum mlynedd rhwng 2009/10 a 2013/14, a gofnododd gyfradd mudo net nodedig is i Sir Gaerfyrddin.

**Newid yn y Boblogaeth**

- Mae'r dewis hwn yn arwain at all-lif net o -282 o bobl yn y grŵp oedran 15-19 oed allan o'r Sir bob blwyddyn, yn ystod cyfnod y cynllun. Mae hyn yn gysylltiedig ag allfudo allan ar gyfer cyfleoedd addysg uwch.
- Bydd y dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn y grwpiau oedran 0-15 ac 16-64 oed o -4% a -7% yn y drefn honno yn ystod cyfnod y cynllun.
- Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd o 28% yn y grŵp oedran 65+ oed a chynnydd o 66% yn y grŵp oedran 80+ oed yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae'r dewis hwn yn arwain at symudiad at boblogaeth hŷn ar gydbwysedd, wrth i nifer y bobl 65+ oed gyfrif am gyfwerth â 56% o'r gweithlu llafur (16-64 oed) erbyn 2033. Mae hwn yn gynnydd o 40% yn 2018.

**Twf Cyflogaeth**

- Byddai'r dewis hwn yn cefnogi twf cyflogaeth o +198 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn sylweddol llai na'r twf cyflogaeth blynyddol a ragamcanir o +1,182 yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gerfyrddin. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad yn y gweithlu llafur a ragamcanir dros gyfnod y cynllun, yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio a chyfraddau mewnfudo is.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | - | Mae'r dewis hwn yn annhebygol o gyfrannu at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Bydd y dewis o safle a sut y caiff ei ddatblygu yn dylanwadu ar effaith y dewis twf hwn ar AC2. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd eu hangen o'r 1,013 yn y CDLl presennol i 231 y flwyddyn, a fyddai'n gostwng yn sylweddol yr angen i ddatblygu ar safleoedd maes glas a'r pwysau dilynol ar asedau bioamrywiaeth yn y sir. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly gall liniaru rhywfaint o'r pwysau ar ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad presennol ac felly gall arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. |

| | | |
|---|---|---|
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 4.0%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | + | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly caiff llai o briddoedd o ansawdd uchel a safleoedd maes glas eu disodli gan arwynebau solet. |
| AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | -- | Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc yn y Sir, gyda gostyngiad o 1,373 yn y grŵp oedran 0-15 a 7,735 yn y grŵp oedran 16-64 yn ystod cyfnod y cynllun. |
| AC11 Y Gymraeg | - | Bydd y dewis hwn yn arwain at ostyngiad dramatig yn nifer y bobl ifanc yn y Sir yn ystod cyfnod y cynllun, sy'n debygol o arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a gaiff eu haddysgu yn y Gymraeg trwy'r system addysg. |
| AC12 Iechyd a Llesiant | -- | Mae'r dewis hwn yn arwain at gynnydd yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur a allai arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. |
| AC13 Addysg a Sgiliau | ? | Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn y boblogaeth o oedran ysgol, a all leddfu'r pwysau ar y system addysg mewn ardaloedd sydd bron yn llawn. Fodd bynnag, gall llai o alw am leoedd mewn ysgolion arwain at gau rhai o'r sefydliadau addysg oherwydd bod nifer y disgyblion yn gostwng. |
| AC14 – Yr Economi | -- | Mae'r dewis hwn yn arwain at gwymp mewn twf cyflogaeth, o ganlyniad i'r gostyngiad a ragamcanir yn y gweithlu llafur o dan y dewis hwn. Bydd twf ar lefel isel yn arwain at effaith sylweddol ar fasnach adeiladu lleol. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf uchel yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a all arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. Gallai hyn effeithio ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais. Bydd twf isel hefyd yn lleihau cyfraniad y CDLl at dai fforddiadwy. |

**Dewis 2: Llywodraeth Cymru (ar sail data mudo cyfartalog dros 10 mlynedd)**

Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar dybiaethau mudo dros gyfnod o ddeng mlynedd cyn 2014 (2011/12 – 2016/17)

**Newid yn y Boblogaeth**

- Mae'r dewis hwn yn arwain at all-lif net o -282 o bobl yn y grŵp oedran 15-19 oed allan o'r Sir bob blwyddyn, yn ystod cyfnod y cynllun. Mae hyn yn gysylltiedig ag allfudo allan ar gyfer cyfleoedd addysg uwch.
- Bydd y dewis hwn yn arwain at gynnydd o 1% yn y grŵp oedran 0-15 a gostyngiad o -2% yn y grŵp oedran 16-64 oed.
- Bydd y dewis hwn yn arwain at gynnydd o 29% yn y grŵp oedran 65+ oed a chynnydd o 67% yn y grŵp oedran 80+ oed yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae'r dewis hwn yn arwain at symudiad at boblogaeth hŷn at ei gilydd, wrth i nifer y bobl 65+ oed gyfrif am gyfwerth â 53% o'r gweithlu llafur (16-64 oed) erbyn 2033. Mae hwn yn gynnydd o 40% yn 2018.

**Twf Cyflogaeth**

- Byddai'r dewis hwn yn cefnogi twf cyflogaeth o +198 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn sylweddol llai na'r twf cyflogaeth blynyddol a ragamcanir o +1,182 yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gerfyrddin.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | - | Mae'r dewis hwn yn annhebygol o gyfrannu at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Bydd y dewis o safle a sut y caiff ei ddatblygu yn dylanwadu ar effaith y dewis twf hwn ar AC2. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd eu hangen o'r 1,013 yn y CDLl presennol i 436 y flwyddyn, a fyddai'n gostwng yn sylweddol yr angen i ddatblygu ar safleoedd maes glas a'r pwysau dilynol ar asedau bioamrywiaeth yn y sir. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly gall liniaru rhywfaint o'r pwysau ar ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol |

| | | |
|---|---|---|
| | | is na'r gofyniad presennol ac felly gall arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 7.7%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | +/- | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly caiff llai o briddoedd o ansawdd uchel a safleoedd maes glas eu disodli gan arwynebau solet. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn ystod cyfnod y cynllun, ac mae hyn ynghyd â chynnydd sylweddol yn y grŵp oedran 65+ yn arwain at ddemograffeg anghytbwys o'r boblogaeth. |
| AC11 - Y Gymraeg | - | Bydd y dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn y Sir yn ystod cyfnod y cynllun, sy'n debygol o arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc, sef y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir ar hyn o bryd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf mawr yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur a allai arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn y boblogaeth o oedran ysgol, a all leddfu'r pwysau ar y system addysg mewn ardaloedd sydd bron yn llawn. Fodd bynnag, gall llai o alw am leoedd mewn ysgolion arwain at gau rhai o'r sefydliadau addysg oherwydd bod nifer y disgyblion yn gostwng. |
| AC14 – Yr Economi | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn twf cyflogaeth, fodd bynnag, rhagamcanir gostyngiad yn y gweithlu llafur o dan y dewis hwn. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf uchel yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a all arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a |

| | | |
|---|---|---|
| | | gofal cymdeithasol drwy'r Sir. Gallai hyn effeithio ar hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais. Bydd twf isel hefyd yn lleihau cyfraniad y CDLl at dai fforddiadwy. |

**Dewis 3 – Twf Poblogaeth Tymor Byr**

Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar gyfraddau mudo mewnol a llif mudo rhyngwladol ar sail cyfnod hanesyddol o chwe mlynedd (2011/12 – 2016/17). Mae hyn yn gyfnod tebyg i hwnnw yn Newis 1, fodd bynnag mae'n cynnwys data y tair blynedd diweddaraf. Mae'r dewis hwn yn arwain at y newid lleiaf yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y cynllun, o ganlyniad i'r llifau mudo net is a welir yn 2011/12-2013/14.

**Newid yn y Boblogaeth**

- Mae'r dewis hwn yn arwain at all-lif net o -358 o bobl yn y grŵp oedran 15-19 oed allan o'r Sir bob blwyddyn, yn ystod cyfnod y cynllun. Mae hyn yn gysylltiedig ag allfudo allan ar gyfer cyfleoedd addysg uwch.
- Bydd y dewis hwn yn arwain at ostyngiad o -2% a -4% yn y drefn honno yn y grwpiau oedran 0-15 ac 16-64 yn ystod cyfnod y cynllun.
- Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd o 35% yn y grŵp oedran 65+ a chynnydd o 71% yn y grŵp oedran 80+ yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae'r dewis hwn yn arwain at symudiad at boblogaeth hŷn ar gydbwysedd, wrth i nifer y bobl 65+ oed gyfrif am gyfwerth â 56% o'r gweithlu llafur (16-64 oed) erbyn 2033. Mae hwn yn gynnydd o 40% yn 2018.

**Twf Cyflogaeth**

- Byddai'r dewis hwn yn cefnogi twf cyflogaeth o +126 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn sylweddol llai na'r twf cyflogaeth blynyddol a ragamcanir o +1,182 yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gerfyrddin.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | - | Mae'r dewis hwn yn annhebygol o gyfrannu at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Bydd y dewis o safle a sut y caiff ei ddatblygu yn dylanwadu ar effaith y dewis twf hwn ar AC2. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd eu hangen o'r 1,013 yn y CDLl presennol i 484 y flwyddyn, a fyddai'n gostwng yn sylweddol yr angen i ddatblygu ar safleoedd maes glas a'r pwysau dilynol ar asedau bioamrywiaeth yn y sir. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly gall liniaru rhywfaint o'r pwysau ar ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael. |

| | | |
|---|---|---|
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad presennol ac felly gall arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 8.4%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | +/- | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly caiff llai o briddoedd o ansawdd uchel a safleoedd maes glas eu disodli gan arwynebau solet. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn y Sir, a gostyngiad o 533 yn y grŵp oedran 0-15 a 4,126 yn y grŵp oedran 16-64 yn ystod cyfnod y cynllun. |
| AC11 - Y Gymraeg | - | Bydd y dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn y Sir yn ystod cyfnod y cynllun, sy'n debygol o arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc, sef y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir ar hyn o bryd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf mawr yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur a allai arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn y boblogaeth o oedran ysgol, a all leddfu'r pwysau ar y system addysg mewn ardaloedd sydd bron yn llawn. Fodd bynnag, gall llai o alw am leoedd mewn ysgolion arwain at gau rhai o'r sefydliadau addysg oherwydd bod nifer y disgyblion yn gostwng. |
| AC14 – Yr Economi | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn twf cyflogaeth, fodd bynnag, rhagamcanir gostyngiad yn y gweithlu llafur o dan y dewis hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| AC15 – Gwead Cymdeithas | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf uchel yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a all arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. Gallai hyn effeithio ar hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais. Bydd twf isel hefyd yn lleihau cyfraniad y CDLl at dai fforddiadwy. |

**Dewis 4 – Twf Poblogaeth Tymor Canolig**

Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar gyfraddau mudo a llif mudo rhyngwladol ar sail cyfnod hanesyddol o ddeng mlynedd rhwng 2007/08 a 2016/17.

**Newid yn y Boblogaeth**

- Mae'r dewis hwn yn arwain at all-lif net o -330 o bobl yn y grŵp oedran 15-19 oed allan o'r Sir bob blwyddyn, yn ystod cyfnod y cynllun. Mae hyn yn gysylltiedig ag allfudo allan ar gyfer cyfleoedd addysg uwch.
- Bydd y dewis yn arwain at gynnydd o 1% yn y grŵp oedran 0-15 oed ond gostyngiad o -3% yn y grŵp oedran 16-64 yn ystod cyfnod y cynllun.
- Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd o 33% yn y grŵp oedran 65+ a chynnydd o 72% yn y grŵp oedran 80+ yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae'r dewis hwn yn arwain at symudiad at boblogaeth hŷn ar gydbwysedd, wrth i nifer y bobl 65+ oed gyfrif am gyfwerth â 55% o'r gweithlu llafur (16-64 oed) erbyn 2033. Mae hwn yn gynnydd o 40% yn 2018.

**Twf Cyflogaeth**

- Byddai'r dewis hwn yn cefnogi twf cyflogaeth o +178 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn sylweddol llai na'r twf cyflogaeth blynyddol a ragamcanir o +1,182 yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gerfyrddin.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | - | Mae'r dewis hwn yn annhebygol o gyfrannu at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Bydd y dewis o safle a sut y caiff ei ddatblygu yn dylanwadu ar effaith y dewis twf hwn ar AC2. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd eu hangen o'r 1,013 yn y CDLl presennol i 497 y flwyddyn, a fyddai'n gostwng yn sylweddol yr angen i ddatblygu ar safleoedd maes glas a'r pwysau dilynol ar asedau bioamrywiaeth yn y sir. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly |

| | | |
|---|---|---|
| | | gall liniaru rhywfaint o'r pwysau ar ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad presennol ac felly gall arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 8.6%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | +/- | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly caiff llai o briddoedd o ansawdd uchel a safleoedd maes glas eu disodli gan arwynebau solet |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn ystod cyfnod y cynllun, ac mae hyn ynghyd â chynnydd sylweddol yn y grŵp oedran 65+ yn arwain at ddemograffeg anghytbwys o'r boblogaeth. |
| AC11 - Y Gymraeg | - | Bydd y dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn y Sir yn ystod cyfnod y cynllun, sy'n debygol o arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc, sef y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir ar hyn o bryd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf mawr yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur a allai arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn y boblogaeth o oedran ysgol, a all leddfu'r pwysau ar y system addysg mewn ardaloedd sydd bron yn llawn. Fodd bynnag, gall llai o alw am leoedd mewn ysgolion arwain at gau rhai o'r sefydliadau addysg oherwydd bod nifer y disgyblion yn gostwng. |
| AC14 – Yr Economi | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn twf cyflogaeth, fodd bynnag, rhagamcanir |

| | | |
|---|---|---|
| | | gostyngiad yn y gweithlu llafur o dan y dewis hwn. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | - | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf uchel yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a all arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. Gallai hyn effeithio ar hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais. Bydd twf isel hefyd yn lleihau cyfraniad y CDLl at dai fforddiadwy. |

**Dewis 5 – Twf Poblogaeth Tymor Hir**

Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar gyfraddau mudo mewnol a llif mudo rhyngwladol ar sail cyfnod hanesyddol o un mlynedd ar bymtheg (2001/02 – 2016/17). Mae hyn yn 'llyfnhau' rhywfaint ar yr uchafbwyntiau ac isafbwyntiau. Yn y scenario hwn, amcangyfrifir llifau mudo net uwch, gan arwain at fwy o newid yn y boblogaeth a mwy o dwf anheddau dilynol.

**Newid yn y Boblogaeth**

- Bydd y dewis hwn yn arwain at gynnydd yn y grwpiau oedran 0-15 ac 16-64 o +3% a +1% yn y drefn honno yn ystod cyfnod y cynllun.
- Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd o 36% yn y grŵp oedran 65+ a chynnydd o 75% yn y grŵp oedran 80+ yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae'r dewis hwn yn arwain at symudiad at boblogaeth hŷn ar gydbwysedd, wrth i nifer y bobl 65+ oed gyfrif am gyfwerth â 54% o'r gweithlu llafur (16-64 oed) erbyn 2033. Mae hwn yn gynnydd o 40% yn 2018.

**Twf Cyflogaeth**

- Byddai'r dewis hwn yn cefnogi twf cyflogaeth o +353 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn llai na'r twf cyflogaeth blynyddol a ragamcanir o +1,182 yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gerfyrddin.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r dewis hwn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Bydd y dewis o safle a sut y caiff ei ddatblygu yn dylanwadu ar effaith y dewis twf hwn ar AC2. Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd eu hangen o'r 1,013 yn y CDLl presennol i 680 y flwyddyn, a all liniaru rhywfaint o'r pwysau ar asedau bioamrywiaeth yn y sir. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly gall liniaru rhywfaint o'r pwysau ar ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael. |

| | | |
|---|---|---|
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na’r gofyniad presennol ac felly gall arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae’r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 11.7%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | +/- | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na’r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly caiff llai o briddoedd o ansawdd uchel a safleoedd maes glas eu disodli gan arwynebau solet. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae’r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae’r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae’r dewis hwn yn ymdrin rhywfaint â chydbwysedd y boblogaeth, trwy ragamcanu cynnydd yn y grwpiau oedran 0-15 ac 16-64. |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Bydd nifer cynyddol o bobl ifanc yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar y Gymraeg wrth i fwy o bobl ifanc gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Sir. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | ? | Mae’r dewis hwn yn arwain at dwf mawr yn y garfan 65+ oed, ynghyd â gostyngiad yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur a allai arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy’r Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Mae’r dewis hwn yn arwain at ragamcan o gynnydd yn y boblogaeth o oedran ysgol, a all gynyddu’r pwysau ar wasanaethau addysg mewn ardaloedd sydd bron yn llawn. Fodd bynnag, gall cynnydd yn y galw am leoedd ysgol arwain at gadw rhai o’r sefydliadau ar agor os bydd nifer y disgyblion yn cynyddu. |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae’r dewis hwn yn methu â chyrraedd y targed twf a nodir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae’r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn oedrannau gweithlu llafur, sy’n dechrau cydbwyso’r cynnydd yn y grŵp oedran 65+. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae’r dewis hwn yn arwain at dwf uchel yn y garfan 65+ oed, ynghyd â chynnydd yng |

| | | |
|---|---|---|
| | | ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a fyddai'n ymdrin rhywfaint â chydbwyso'r boblogaeth yn y Sir. Bydd lefelau twf uwch hefyd yn cefnogi cyfraniad y CDLl at dai fforddiadwy. |

**Dewis 6 – Twf Poblogaeth Cyn y Dirwasgiad**

Mae'r dewis hwn wedi'i seilio ar gyfraddau mudo mewnol ac mae tybiaethau llif mudo rhyngwladol wedi'u seilio ar y cyfnod cyn dirwasgiad 2008 (2001/02 – 2007/08), pan gofnodwyd llif mudo mewnol uwch i Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad i hyn, mae amcangyfrifon o fudo net yn y dyfodol yn uwch yn y dewis hwn.

**Newid yn y Boblogaeth**

- Bydd y dewis hwn yn arwain at gynnydd yn y grwpiau oedran 0-15 ac 16-64 o +8% a +6% yn y drefn honno yn ystod cyfnod y cynllun.
- Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd o 40% yn y grŵp oedran 65+ a chynnydd o 82% yn y grŵp oedran 80+ yn ystod cyfnod y cynllun.
- Mae'r dewis hwn yn arwain at symudiad at boblogaeth hŷn at ei gilydd, wrth i nifer y bobl 65+ oed gyfrif am gyfwerth â 53% o'r gweithlu llafur (16-64 oed) erbyn 2033. Mae hwn yn gynnydd o 40% yn 2018.

**Twf Cyflogaeth**

- Byddai'r dewis hwn yn cefnogi twf cyflogaeth o +632 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn llai na'r twf cyflogaeth blynyddol a ragamcanir o +1,182 yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gaerfyrddin.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r dewis hwn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at economi gynaliadwy neu gyfrannu at gymdeithas iach a chytbwys. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Bydd y dewis o safle a sut y caiff ei ddatblygu yn dylanwadu ar effaith y dewis twf hwn ar AC2. Mae'r dewis hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd eu hangen o'r 1,013 yn y CDLl presennol i 969 y flwyddyn, a all liniaru rhywfaint o'r pwysau ar asedau bioamrywiaeth yn y sir. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly gall liniaru rhywfaint o'r pwysau ar ardaloedd lle ceir ansawdd aer gwael. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad presennol ac felly gall arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. |

| | | |
|---|---|---|
| AC5 – Dŵr | - | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 16.6%, sy'n uwch na'r capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | +/- | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn sylweddol is na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly caiff llai o briddoedd o ansawdd uchel a safleoedd maes glas eu disodli gan arwynebau solet. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae'r dewis hwn yn ymdrin rhywfaint â chydbwysedd y boblogaeth, trwy ragamcanu cynnydd yn y grwpiau oedran 0-15 ac 16-64. |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Bydd nifer cynyddol o bobl ifanc yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar y Gymraeg wrth i fwy o bobl ifanc gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Sir. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | ? | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf mawr yn y garfan 65+ oed, ynghyd â thwf isel yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur a allai arwain at heriau sylweddol i drefniadau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Mae'r dewis hwn yn arwain at ragamcan o gynnydd yn y boblogaeth o oedran ysgol, a all gynyddu'r pwysau ar wasanaethau addysg mewn ardaloedd sydd bron yn llawn. Fodd bynnag, gall cynnydd yn y galw am leoedd ysgol arwain at gadw rhai o'r sefydliadau ar agor os bydd nifer y disgyblion yn cynyddu. |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae'r dewis hwn yn methu â chyrraedd y targed twf a nodir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn oedrannau gweithlu llafur, sy'n dechrau cydbwyso'r cynnydd yn y grŵp oedran 65+. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf uchel yn y garfan 65+ oed, ynghyd â chynnydd yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a fyddai'n ymdrin rhywfaint â chydbwyso'r boblogaeth yn Sir. Bydd lefelau twf uwch hefyd yn cefnogi cyfraniad y CDLl at dai fforddiadwy. |

| Dewis 7 – Cymhareb Gymudo yn Gostwng | | |
|---|---|---|
| Mae'r dewis hwn yn ystyried goblygiadau poblogaeth a thai yr Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gaerfyrddin, sy'n amcangyfrif twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +1,182 y flwyddyn. Mae'r dewis hwn yn berthnasol i gymhareb gymudo Cyfrifiad 2011, ond yn tybio y bydd gostyngiad o 1.09 i 1.06 erbyn diwedd cyfnod y cynllun.<br><br>**Newid yn y Boblogaeth**<br><br>• Bydd y dewis hwn yn arwain at gynnydd o 19.3% yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y cynllun.<br>• Byddai'r dewis hwn yn arwain at fewnfudo net o 2,483 y flwyddyn.<br>• Byddai hyn yn arwain at ofyniad o 1,196 o anheddau y flwyddyn drwy gydol cyfnod y cynllun, er mwyn cefnogi'r 1,182 o swyddi y flwyddyn a amcangyfrifir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gaerfyrddin. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | - | Mae'r dewis hwn yn annhebygol o arwain at lefel gynaliadwy o ddatblygiad yn y Sir. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Bydd y dewis o safle a sut y caiff ei ddatblygu yn dylanwadu ar effaith y dewis twf hwn ar AC2. Mae'r dewis hwn yn arwain at gynnydd yn nifer yr anheddau sydd eu hangen o'r 1,013 yn y CDLl presennol i 1,196 y flwyddyn, a all ychwanegu at y pwysau ar asedau bioamrywiaeth yn y sir. |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn uwch na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly mae'n debygol o gynyddu'r pwysau ar ansawdd aer. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn uwch na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly mae'n debygol o gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr. |
| AC5 – Dŵr | - | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 20.5%, sy'n uwch na'r capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | - | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn uwch na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly gall mwy o briddoedd o ansawdd uchel a safleoedd maes glas gael eu disodli gan arwynebau solet. |

| | | |
|---|---|---|
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Byddai'r dewis hwn yn arwain at ofyniad am nifer mawr o anheddau i fodloni'r twf cyflogaeth uchel. Mae hyn yn debygol o ddarparu marchnad dai a chyflogaeth ddeniadol i bobl ifanc yn y Sir. |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Byddai'r dewis hwn yn arwain at gyfradd dai a thwf cyflogaeth uchel, sy'n debygol o greu marchnad ddeniadol i gadw pobl ifanc yn y Sir. Gall cyfradd uwch o fewnfudo wanhau'r Gymraeg. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Byddai'r dewis hwn yn arwain at ofyniad am nifer mawr o anheddau i fodloni'r twf cyflogaeth uchel. Mae hyn yn debygol o helpu i gadw a chynyddu'r grwpiau oedran gweithlu llafur a gall ymdrin â heriau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Mae'r dewis hwn yn arwain at ragamcan o gynnydd yn y boblogaeth o oedran ysgol, a all gynyddu'r pwysau ar wasanaethau addysg mewn ardaloedd sydd bron yn llawn. Fodd bynnag, gall cynnydd yn y galw am leoedd ysgol arwain at gadw rhai o'r sefydliadau ar agor os bydd nifer y disgyblion yn cynyddu. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'r dewis hwn yn cyd-fynd â'r targed a nodir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gaerfyrddin, sy'n cefnogi'r lefel o dwf cyflogaeth a ragamcanir ar gyfer y Sir yn ystod cyfnod y cynllun. Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn oedrannau gweithlu llafur sy'n dechrau cydbwyso'r cynnydd mewn grwpiau oedran 65+. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf uchel yn y garfan 65+ oed, ynghyd â chynnydd yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a fyddai'n ymdrin rhywfaint â chydbwyso'r boblogaeth yn Sir. Bydd lefelau twf uwch hefyd yn cefnogi cyfraniad y CDLl at dai fforddiadwy. |

**Dewis 8 – Cymhareb Gymudo Sefydlog**

Mae'r dewis hwn yn ystyried goblygiadau poblogaeth a thai yr Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gaerfyrddin, sy'n amcangyfrif twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +1,182 y flwyddyn. Mae'r dewis hwn yn berthnasol i gymhareb gymudo Cyfrifiad 2011, sy'n sefydlog drwy gydol cyfnod y cynllun.

**Newid yn y Boblogaeth**

- Bydd y dewis hwn yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth o 22.2% yn ystod cyfnod y cynllun.
- Byddai'r dewis hwn yn arwain at fewnfudo net o 2,814 y flwyddyn.
- Byddai hyn yn arwain at ofyniad o 1,354 o anheddau y flwyddyn drwy gydol cyfnod y cynllun, er mwyn cefnogi'r 1,182 o swyddi y flwyddyn a amcangyfrifir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gerfyrddin.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | - | Mae'r dewis hwn yn annhebygol o arwain at lefel gynaliadwy o ddatblygiad yn y Sir. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Bydd y dewis o safle a sut y caiff ei ddatblygu yn dylanwadu ar effaith y dewis twf hwn ar AC2. Mae'r dewis hwn yn arwain at gynnydd yn nifer yr anheddau sydd eu hangen o'r 1,013 yn y CDLl presennol i 1,354 y flwyddyn, a all ychwanegu at y pwysau ar asedau bioamrywiaeth yn y sir. |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn uwch na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly mae'n debygol o gynyddu'r pwysau ar ansawdd aer. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Mae unrhyw lefel o dwf yn awgrymu cynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd ac allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn uwch na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly mae'n debygol o gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr. |
| AC5 – Dŵr | -- | Mae'r dewis twf hwn yn rhagamcanu twf aelwydydd o 23.2%, sy'n uwch na'r capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | | Dim cysylltiad uniongyrchol |
| AC7 – Pridd | - | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, mae nifer yr anheddau sydd eu hangen o dan y dewis hwn yn uwch na'r gofyniad yn y CDLl presennol ac felly gall mwy o briddoedd o ansawdd uchel a safleoedd maes glas gael eu disodli gan arwynebau solet. |

| | | |
|---|---|---|
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Byddai'r dewis hwn yn arwain at ofyniad am nifer mawr o anheddau i fodloni'r twf cyflogaeth uchel. Mae hyn yn debygol o ddarparu marchnad dai a chyflogeth ddeniadol i bobl ifanc yn y Sir. |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Byddai'r dewis hwn yn arwain at gyfradd dai a thwf cyflogaeth uchel, sy'n debygol o greu marchnad ddeniadol i gadw pobl ifanc yn y Sir. Gall cyfradd uwch o fewnfudo wanhau'r Gymraeg. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Byddai'r dewis hwn yn arwain at ofyniad am nifer mawr o anheddau i fodloni'r twf cyflogaeth uchel. Mae hyn yn debygol o helpu i gadw a chynyddu'r grwpiau oedran gweithlu llafur a gall ymdrin â heriau cyllido a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Sir. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Mae'r dewis hwn yn arwain at ragamcan o gynnydd yn y boblogaeth o oedran ysgol, a all gynyddu'r pwysau ar wasanaethau addysg mewn ardaloedd sydd bron yn llawn. Fodd bynnag, gall cynnydd yn y galw am leoedd ysgol arwain at gadw rhai o'r sefydliadau ar agor os bydd nifer y disgyblion yn cynyddu. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'r dewis hwn yn cyd-fynd â'r targed a nodir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth Sir Gaerfyrddin, sy'n cefnogi'r lefel o dwf cyflogaeth a ragamcanir ar gyfer y Sir yn ystod cyfnod y cynllun. Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn oedrannau gweithlu llafur sy'n dechrau cydbwyso'r cynnydd mewn grwpiau oedran 65+. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r dewis hwn yn arwain at dwf uchel yn y garfan 65+ oed, ynghyd â chynnydd yng ngrwpiau oedran y gweithlu llafur, a fyddai'n ymdrin rhywfaint â chydbwyso'r boblogaeth yn Sir. Bydd lefelau twf uwch hefyd yn cefnogi cyfraniad y CDLl at dai fforddiadwy. |

## 4.2 AC o Ddewisiadau Twf – Crynodeb

### 4.2.1 I grynhoi, mae'r Dewisiadau Twf yn cyflwyno'r materion a'r cyfleoedd canlynol:

- Mae **Dewisiadau Twf 1 a 2** yn perfformio'n well o ran cadw adnoddau amgylcheddol naturiol y Sir. Fodd bynnag nid yw'r un o'r dewisiadau yn ymdrin yn ddigonol â'r materion economaidd-gymdeithasol yn y Sir, gan gynnwys yr angen am dai fforddiadwy, mynediad rhwydd i gyfleusterau cymunedol ac iechyd, a chadw pobl ifanc. Mae'r ddau ddewis hefyd yn darparu twf cyflogaeth sylweddol is na hwnnw a amcanestynnir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth y Sir, ac ni fyddai'n darparu digon o gyfleoedd cyflogaeth. Mae lefel y twf o dan Ddewisiadau 4 a 5 yn fwy tebygol o gyflawni'r buddion cymdeithasol ac economaidd hyn.
- **Dewisiadau 4 a 5** sydd fwyaf tebygol o arwain at effeithiau amgylcheddol negyddol, o'u cymharu â dewisiadau eraill. Gellid lliniaru'r effeithiau hyn trwy ddewis safleoedd cynaliadwy a gweithredu cynlluniau mewn modd ystyrlon, gan ystyried tirwedd gwledig iawn Sir Gaerfyrddin a'r cynefinoedd o werth biolegol uchel.
- Mae gan yr holl ddewisiadau y potensial i effeithio'n negyddol ar ansawdd aer y Sir o ganlyniad i gynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Unwaith eto, gellir lliniaru'r effeithiau hyn trwy ddefnyddio safleoedd cynaliadwy â digon o fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn bwysig ystyried Seilwaith Gwyrdd a'i ddiogelu pan fo hynny'n bosibl, oherwydd gall asedau seilwaith gwyrdd weithredu i buro'r aer.
- Mae pob dewis yn cefnogi twf yn y boblogaeth ac felly'n debygol o gyfrannu at gynnydd mewn defnydd, gwastraff a gweithgareddau eraill fel trafnidiaeth. Gellid ymdrin â hyn trwy gynllun cynaliadwy, sy'n integreiddio atebion gwastraff cynaliadwy a thrafnidiaeth yn y datblygiad newydd. Mae diogelu seilwaith gwyrdd hefyd yn bwysig i liniaru effeithiau twf ar draws y Sir, gan ddarparu swyddogaeth dalfa garbon bwysig yn ogystal â darparu effeithiau draenio tir ac oeri.
- Mae gan bob dewis y potensial i effeithio'n negyddol ar asedau hanesyddol a diwylliannol a thirwedd, yn dibynnu ar y safle a ddewisir a sut y gweithredir y datblygiad. Gellid lliniaru'r effeithiau hyn gan sicrhau bod cynllun datblygiadau newydd yn ystyriol o gymeriad ac unigrywedd lleol, ac y diogelir asedau diwylliannol a hanesyddol.

## 4.3 Arfarniad Cynaliadwyedd y Dewisiadau Gofodol

4.3.1 Mae'r Cyngor wedi nodi a datblygu amrywiaeth o ddewisiadau gofodol strategol sy'n dangos gwahanol ffyrdd o gyflawni'r amcanion strategol, ac sy'n adlewyrchu anghenion a chyfyngiadau datblygu yn y ffordd orau, ac sydd hefyd yn cefnogi nodau strategaethau, cynlluniau a pholisïau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol eraill.

4.3.2 Mae tystiolaeth sylfaenol wedi helpu i lywio datbygiad y dewisiadau hyn, yn ogystal â barn rhanddeiliaid a'r amcanion integredig. Mae'r dewisiadau hyn wedi'u seilio ar ddealltwriaeth o botensial datblygu'r Sir a'r angen i fodloni gofynion twf yn y dyfodol. Wrth ddatblgu'r opsiynau ystyriwyd hefyd Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r amcanion llesiant a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin a'r Bwrdd Iechyd Cyhoeddus.

4.3.3 Mae'r dewisiadau a nodir yn rhagdybio bod datblygiadau tai heb gyfleoedd gwaith yn yr un lleoliad eang, ac fel arall, yn llai cynaliadwy ac y dylid eu hosgoi. Yn yr un modd, mae angen i welliannau seilwaith gyd-fynd â datblygiadau newydd, gan gynnwys gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth, cyfleustodau, seilwaith gwyrdd, iechyd, addysg a chyfleusterau cymdeithasol. O ganlyniad, caiff y term 'datblygu' ei ddefnyddio yn y Dewisiadau Gofodol ar gyfer Twf i gyfeirio at y cydbwysedd rhwng tai, cyfleoedd gwaith a'r seilwaith ategol.


4.3.4 Mae proses yr AC yn helpu i lywio dewis y strategaeth ofodol a gaiff ei chynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir ac yn darparu dull o ystyried dewisiadau amgen rhesymol. Cydnabyddir ei bod yn bosibl na fydd un dewis unigol yn 'ffafriol' yn dilyn AC, a bod lle a hyblygrwydd i addasu dewisiadau a llunio dewis newydd a all fod yn gyfuniad o'r dewisiadau presennol.

4.3.5 Mae'r dewisiadau gofodol wedi'u hasesu gan ddefnyddio'r amcanion cynaliadwyedd a cheir sylwadau manwl arnynt yn yr is-adrannau isod. Mae Ffigur 5 yn crynhoi canlyniadau'r arfarniad ond dylid nodi nad yw'n ystyried effeithiau lliniaru presennol neu bosibl. Gan nad oes sicrwydd y caiff camau lliniaru eu cymryd ac yn llwyddo, defnyddiwyd dull rhagofalus o arfarnu. Ceir sylwadau manwl ar dudalennau 41 – 63. Trafodir awgrymiadau o gamau lliniaru i leihau effeithiau negyddol yn Adran 7 o'r adroddiad hwn.

## Ffigwr 4 Crynodeb o Arfarniad Cynaliadwyedd y Dewisiadau Gofodol

| Amcan AC | Dewis 1 | Dewis 2 | Dewis 3 | Dewis 4 | Dewis 5 | Dewis 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AC1 Datblygu Cynaliadwy | + | - | - | + | ? | ? |
| AC2 Bioamrywiaeth | I | + | I | I | + | I |
| AC3 Ansawdd Aer | - | - | - | - | - | - |
| AC4 Ffactorau Hinsoddol | +/- | +/- | +/- | +/- | - | - |
| AC5 Dŵr | +/- | + | - | + | - | - |
| AC6 Asedau Materol | + | - | - | + | - | - |
| AC7 Pridd | I | + | - | I | + | + |
| AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol | I | I | I | I | I | I |
| AC9 Tirwedd | I | I | - | I | I | I |
| AC10 Poblogaeth | ++ | - | - | ++ | +/- | +/- |
| AC11 Y Gymraeg | + | - | - | + | +/- | - |
| AC12 Iechyd a Llesiant | + | - | - | ++ | +/- | +/- |
| AC13 Addysg a Sgiliau | + | - | - | + | ++ | ? |
| AC14 Yr Economi | + | - | - | + | ++ | ? |
| AC15 Gwead Cymdeithas | + | - | - | ++ | - | - |

33)




Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio twf mewn modd cymesur ar draws hierarchaeth a gaiff ei thanategu gan egwyddorion cynaliadwyedd. Wrth wneud hynny, mae'r dewis hwn:

- Yn rhoi anogaeth i wasgaru cyflogaeth, tai a mathau eraill o ddatblygiad rhwng aneddiadau a nodwyd a grwpiau neu glystyrau pentrefi mewn modd sy'n adlewyrchu eu graddfa bresennol, eu poblogaeth a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yno.
- Yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir ac yn dosrannu twf yn briodol i ardaloedd trefol a gwledig.
- Yn sicrhau bod y rhan fwyaf o dwf cyflogaeth yn digwydd mewn trefi a phentrefi mwy o faint.

| Amcan AC | Terfyn Amser | 1. Datblygu Cynaliadwy | 2. Bioamrywiaeth | 3. Ansawdd Aer | 4. Ffactorau Hinsoddol | 5. Dŵr | 6. Asedau Materol | 7. Pridd | 8. Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd | 9. Tirwedd | 10. Poblogaeth | 11. Y Gymraeg | 12. Iechyd a Llesiant | 13. Addysg a Sgiliau | 14. Economi | 15. Gwead Cymdeithas | Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AS1** | **TB** | + | + | + | + | - | + | - | + | + | + | +/- | + | + | + | + | + |
| | **TC** | + | I | - | + | +/- | + | I | I | I | ++ | + | + | + | + | + | + |
| | **TH** | + | I | - | +/- | +/- | ++ | I | I | I | ++ | + | + | + | + | + | + |

**Dewis Gofodol 1 – Sylwadau Cynaliadwyedd**

**AC1 Datblygu Cynaliadwy**

Mae'r dewis hwn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni economi gynaliadwy a diwallu anghenion lleol ledled y Sir.

**AC2 Bioamrywiaeth**

Mae'n cyfyngu ar y potensial ar gyfer datblygu gwledig helaeth a darnio cynefinoedd oherwydd bod gwaith datblygu wedi'i grynhoi o fewn canol trefi a chlystyrau gwledig. Mae rhai ardaloedd o dwf trefol fel Llanelli a Chaerfyrddin yn agos iawn at safleoedd dynodedig a bydd gwaith datblygu crynodedig yn yr ardaloedd hyn yn cynyddu'r potensial am effeithiau negyddol. Bydd angen rhywfaint o ddatblygu gwledig a cheir ansicrwydd ynghylch sut y byddai hyn yn effeithio ar fioamrywiaeth yn y tymor canolig a'r tymor hir. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys o ran bioamrywiaeth.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC3 Ansawdd Aer**

Trwy grynhoi gwaith datblygu mewn canol trefi a chlystyrau gwledig ar sail anghenion, gellir darparu gwasanaethau yn lleol, gan leihau'r pellteroedd y mae angen i bobl eu teithio a chynyddu'r defnydd o wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus. Gall gwaith datblygu crynodedig mewn ardaloedd o dwf trefol waethygu materion ansawdd aer yn sgil cynyddu tagfeydd traffig, yn arbennig yn yr ardaloedd rheoli ansawdd aer sefydledig yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo. Rhagfynegir y byddai'n arwain at effaith negyddol yn y tymor canolig a'r tymor hir pe na chymerir camau lliniaru.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC4 Ffactorau Hinsoddol**

Trwy grynhoi gwaith datblygu mewn canol trefi a chlystyrau gwledig ar sail anghenion, caiff gwasanaethau eu darparu a'u cadw'n lleol, gan leihau'r pellteroedd y mae angen i bobl eu teithio a chynyddu'r defnydd o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, trwy gyfeirio twf at ardaloedd twf trefol, ceir potensial i gynyddu gwaith datblygu mewn ardaloedd arfordiro fel Llanelli, Porth Tywyn a Phen-bre, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardaloedd C1 a C2 lle ceir risg uwch o lifogydd yn y tymor canolig a'r tymor hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC5 Dŵr**

Mae'n cyfyngu'r potensial i ddatblygu y tu allan i ardaloedd a ddatblygwyd yn flaenorol, ac felly'n lleihau'r risg i gyrff dŵr a'r risg o lygredd gwasgaredig. Trwy gynyddu crynodiad gwaith datblygu mewn canol trefi presennol a chlystyrau gwledig, ceir potensial i gynyddu'r pwysau ar adnoddau dŵr, mewn ardaloedd lle cafwyd lefelau uchel o dwf yn y gorffennol.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC6 Asedau Materol**

Mae'r dewis gofodol hwn yn cynyddu'r potensial i annog trefniadau i ddiwallu anghenion yn lleol. Byddai hefyd yn cefnogi defnydd o'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a defnyddio dulliau eraill o deithio.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC7 Pridd**

Mae cynyddu gwaith datblygu y tu allan i ardaloedd twf trefol yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddefnyddio safleoedd maes glas ar gyfer gwaith datblygu yn hytrach nag ailddatblygu safleoedd tir llwyd.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol**

Byddai'r dewis hwn yn lleihau'r effeithiau posibl ar ardaloedd lle ceir llai o waith datblygu a mwy o asedau diwylliannol a threfluniau. Gall crynhoi gwaith datblygu mewn canol trefi a chlystyrau gwledig arwain at bwysau ar drefluniau presennol a buddiannau treftadaeth archaeolegol. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys treftadaeth ddiwylliannol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC9 Tirwedd**

Mae gwaith datblygu o fewn aneddiadau presennol yn lleihau'r tebygolrwydd o amharu ar nodweddion o bwys o ran tirwedd a thirweddau naturiol. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i osgoi ardaloedd sensitif, a fyddai'n dibynnu ar y dewis o safle datblygu a sut y gwneir y gwaith.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC10 Poblogaeth**

Byddai gwaith datblygu wedi'i ddosbarthu mewn canol trefi a chlystyrau gwledig a nodir ar sail angen yn cefnogi hyfywedd aneddiadau presennol ac yn darparu datblygiad gan gynnwys cyfleusterau addysg a chyflogaeth pan fo'u hangen. Byddai'r dewis hwn hefyd yn cyflawni'r hyfywedd mwyaf o'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol ac yn hybu mynediad ar sail dosbarthiad gwasanaethau lleol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ++ | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC11 Y Gymraeg**

Byddai lleoli gwaith datblygu mewn canol trefi a chlystyrau gwledig ar sail angen yn cefnogi hyfywedd a thwf aneddiadau presennol, ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ac addysg i siaradwyr Cymraeg yn y Sir, ac yn helpu i gadw siaradwyr Cymraeg.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC12 Iechyd a Llesiant**

Byddai'r dewis hwn yn annog defnydd lleol o wasanaethau iechyd ac yn sicrhau y cefnogir gwasanaethau gan y boblogaeth leol a bod modd eu cyrraedd trwy ddulliau eraill o deithio yn lle ceir preifat.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC13 Addysg a Sgiliau**

Byddai'r dewis hwn yn annog defnydd lleol o wasanaethau addysg ac yn sicrhau'r defnydd mwyaf o rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC14 Yr Economi**


Byddai gwaith datblygu mewn canol trefi a chlystyrau gwledig presennol yn cefnogi datblygiad economaidd presennol yn ogystal â chefnogi buddsoddiad mewnol trwy greu canolfannau economaidd hyfyw wedi'u cefnogi gan weithlu a marchnad leol. Gall crynhoi gwaith datblygu mewn ardaloedd lle mae gwaith datblygu wedi'i grynhoi yn flaenorol arwain at ddiffyg twf economaidd mewn cymunedau gwledig llai.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC15 Gwead Cymdeithas**

Byddai'r dewis hwn yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau y mae'r boblogaeth leol eu hangen. Byddai defnydd gwasanaethau yn cynyddu, ac mae'n debygol y caiff hyfywedd ei wella yn y dyfodol, gan fod lleoliad cyfleusterau wedi'i lywio gan anghenion a nodir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|




Mae'r dewis hwn yn edrych ar y seilwaith cyfleustodau a'r rhwydwaith priffyrdd a ddarperir ar hyd o bryd ledled y Sir a'i nod yw sicrhau bod y rhan fwyaf o'r twf yn digwydd mewn ardaloedd sydd â'r capasiti i dyfu. Mae'r dewis hwn yn ceisio annog twf mewn ardaloedd lle gellir darparu ar ei gyfer yn fwyaf ymarferol trwy:

- Annog twf ar hyd llwybrau trafnidiaeth allweddol a chyffyrdd yr M4, yr A40, yr A48, yr A484, yr A474 a'r A485 a hefyd mewn mannau sy'n hygyrch i ddulliau trafnidiaeth eraill gan gynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd, y rhwydwaith beicio a chysylltiadau cerddwyr.
- Annog twf mewn ardaloedd lle ceir naill ai gapasiti ar hyn o bryd i gyflenwi a thrin dŵr a dŵr gwastraff neu gynlluniau ar gyfer gwneud hyn.
- Annog twf mewn ardaloedd lle ceir digon o wasanaethau a chyfleusterau i gynnal cymunedau.

| Amcan AC | Terfyn Amser | 1. Datblygu Cynaliadwy | 2. Bioamrywiaeth | 3. Ansawdd Aer | 4. Ffactorau Hinsoddol | 5. Dŵr | 6. Asedau Materol | 7. Pridd | 8. Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd | 9. Tirwedd | 10. Poblogaeth | 11. Y Gymraeg | 12. Iechyd a Llesiant | 13. Addysg a Sgiliau | 14. Economi | 15.Gwead Cymdeithas | Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AS2 | TB | + | + | + | + | + | + | + | + | + | - | +/- | + | + | + | - | + |
| | TC | - | + | - | +/- | + | - | + | \| | \| | - | - | - | - | - | - | - |
| | TH | - | - | -- | - | - | - | \| | \| | \| | -- | - | - | - | - | - | - |

**Dewis Gofodol 2 – Sylwadau Cynaliadwyedd**

**AC1 Datblygu Cynaliadwy**

Byddai'r dewis hwn yn diwallu anghenion yn lleol yn y tymor byr, fodd bynnag ni fyddai gwaith datblygu yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd byddai'n arwain at anghydraddoldeb rhwng economïau trefol a gwledig ac ni fyddai'n diwallu anghenion cymunedau gwledig.

**AC2 Bioamrywiaeth**

Yn y tymor byr, mae'n debygol y bydd y dewis hwn yn arwain at effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth ar y cyfan gan ei fod yn osgoi datblygu mewn ardaloedd gwledig yn y llain las. Fodd bynnag, gall crynhoi twf ar hyd coridorau trafnidiaeth ennill tir ar fannau gwyrdd a chynefinoedd, a chyfeirio twf at ardaloedd lle cafwyd lefelau uchel o drefoli yn y gorffennol ar draul bioamrywiaeth.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | - |

**AC3 Ansawdd Aer**

Mae lleoli twf mewn lleoliadau sy'n hygyrch ar gyfer dulliau eraill o deithio yn lleihau'r angen i ddefnyddio ceir preifat, ac felly llygryddion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Fodd bynnag, mae datblygu ar hyd coridorau trafnidiaeth yn debygol o grynhoi allyriadau a llygryddion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth i ardaloedd lle ceir risg uchel eisoes o darfu ar amcanion ansawdd aer. Mae risg arbennig o hyn yn y tair ardal rheoli ansawdd aer bresennol yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | -- |

**AC4 Ffactorau Hinsoddol**

Gall defnyddio dulliau eraill o deithio a thwf mewn ardaloedd lle ceir digon o wasanaethau a chyfleusterau leihau'r angen i ddefnyddio ceir preifat, gan arwain at ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, mae rhai o'r prif lwybrau trafnidiaeth (e.e. A40) yn dilyn llwybrau afonydd ac mae gwaith datblygu crynodedig mewn ardaloedd o'r fath yn debygol o fod yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Gall crynhoi gwaith datblygu mewn canol trefi gynyddu datblygiad mewn ardaloedd arfordirol fel Llanelli, Porth Tywyn a Phen-bre, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardaloedd C1 a C2, a allai arwain at lifogydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y tymor hir.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | +/- | TH | - |

**AC5 Dŵr**

Mae crynhoi twf mewn ardaloedd lle ceir capasiti i gyflenwi a thrin dŵr a dŵr gwastraff yn barod lle mae hyn wedi'i gynllunio, yn lleihau'r tebygolrwydd o effeithiau negyddol ar adnoddau dŵr. Fodd bynnag, bydd cynyddu prosesau trefoli mewn ardaloedd yn golygu cynnydd mewn arwynebau solet a fydd yn arwain at lefelau uchel o ddŵr wyneb ffo a materion llygredd cysylltiedig.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | - |

**AC6 Asedau Materol**

Mae crynhoi gwaith datblygu ar hyd coridorau trafnidiaeth yn annhebygol o annog trefniadau diwallu anghenion yn lleol, a gallai hyn arwain at gynnydd yn yr angen i deithio, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, byddai crynhoi gwaith datblygu ar hyd y prif ffyrdd trafnidiaeth yn cynyddu mynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sefydledig a llwybrau beicio, ac felly'n hybu integreiddiad gwahanol ddulliau o deithio.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

### AC7 Pridd

Mae'n bosibl na fydd datblygu ar hyd coridorau trafnidiaeth yn ffafrio ailddatblygu safleoedd tir llwyd neu dir halogedig. Mae rhai o'r prif lwybrau teithio (e.e. A40) yn dilyn llwybrau afonydd a gall gwaith datblygu crynodedig mewn ardaloedd o'r fath effeithio ar dir sydd â gwerth amaethyddol uchel. Fodd bynnag, bydd y dewis hwn yn osgoi gwaith datblygu gwledig i raddau helaeth ac felly mae'n llai tebygol o effeithio ar safleoedd maes glas.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

### AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol

Byddai gwaith datblygu crynodedig ar hyd coridorau trafnidiaeth yn osgoi effeithio ar ardaloedd mwy gwledig sy'n cynnwys asedau diwylliannol threfluniau o ansawdd uchel. Mae'r dewis hwn yn cyfyngu darpariaeth i ddatblygu ar safleoedd i ffwrdd o leoliadau o bwys treftadaeth ddiwylliannol ac yn rhoi pwysau cynyddol ar ardaloedd lle cafwyd y mwyaf o waith datblygu yn y gorffennol. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys treftadaeth ddiwylliannol yn y tymor canolig i hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

### AC9 Tirwedd

Byddai datblygu crynodedig ar hyd coridorau trafnidiaeth yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd i ystyried lleoliadau tirwedd sensitif wrth leoli datblygiadau, fodd bynnag, byddai'r dewis hwn yn lleihau'r tebygolrwydd o effeithiau ar dirweddau gwledig a naturiol trwy leoli twf mewn ardaloedd trefol yn bennaf.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

### AC10 Poblogaeth

Mae datblygu ar hyd coridorau trafnidiaeth yn annhebygol o ddiwallu anghenion presennol y gymuned a gallai gynyddu amddifadedd cymharol ardaloedd sy'n destun allgáu cymdeithasol ar hyn o bryd.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | -- |
|---|---|---|---|---|---|---|

### AC11 Y Gymraeg

Byddai'r dewis hwn yn cyfeirio datblygiad i ardaloedd lle cafwyd lefelau uchel o ddatblygiad yn y gorffennol. Efallai na fydd yn bosibl i'r ardaloedd hyn amsugno newidiadau i gymeriad ac felly gellid effeithio'n andwyol ar y Gymraeg.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

### AC12 Iechyd a Llesiant

Bydd lleoli twf mewn ardaloedd lle ceir mynediad at rwydweithiau beicio a llwybrau cyswllt i gerddwyr yn annog cerdded a beicio fel dulliau eraill o deithio. Fodd bynnag, mae datblygu ar hyd coridorau trafnidiaeth yn annhebygol o ddiwallu anghenion presennol y gymuned a all arwain at gynnydd yn y defnydd o geir preifat yn y tymor hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC13 Addysg a Sgiliau**

Mae datblygu ar hyd coridorau trafnidiaeth yn annhebygol o arwain at fynediad cyfartal at wasanaethau addysg rhwng ardaloedd gwledig a threfol, ac ni fydd yn diwallu anghenion gwledig yn y tymor canolig i hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC14 Yr Economi**


Byddai'r dewis hwn yn lleoli twf mewn ardaloedd lle cafwyd twf poblogaeth a thwf cyflogaeth eisoes ac felly mae'n cyd-fynd â thwf presennol y farchnad yn y tymor byr. Nid yw'n ymdrin â materion economaidd mewn ardaloedd mwy gwledig y sir yn y tymor hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC15 Gwead Cymdeithas**

Mae datblygu ar hyd coridorau trafnidiaeth yn annhebygol o arwain at fynediad cyfartal at wasanaethau a chyfleusterau rhwng ardaloedd gwledig a threfol ac ni fydd yn diwallu anghenion gwledig. Ni fyddai'n parchu'r patrwm datblygu presennol a fydd yn cynyddu rhwystrau at ryngweithio cydmeithasol cadarnhaol.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|




Mae'r dewis hwn yn dosbarthu tai, cyflogaeth a mathau eraill o ddatblygiadau mewn modd eang rhwng aneddiadau'r Sir, gan gynnwys aneddiadau trefol a gwledig fel ei gilydd. Mae'n caniatáu i aneddiadau dyfu'n raddol heb o reidrwydd ystyried y gwasanaethau neu'r cyfleusterau sydd ar gael nac ychwaith yr effaith y gallai twf ei chael ar y cymunedau presennol a'u gallu i ddarparu ar gyfer twf a'i dderbyn.

Byddai'r dewis hwn yn arwain at gyfeirio cyfran uwch o dwf y Sir i'r ardaloedd gwledig a chyfran is i'r ardaloedd trefol presennol.

| Amcan AC | Terfyn Amser | 1. Datblygu Cynaliadwy | 2. Bioamrywiaeth | 3. Ansawdd Aer | 4. Ffactorau Hinsoddol | 5. Dŵr | 6. Asedau Materol | 7. Pridd | 8. Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd | 9. Tirwedd | 10. Poblogaeth | 11. Y Gymraeg | 12. Iechyd a Llesiant | 13. Addysg a Sgiliau | 14. Economi | 15. Gwead Cymdeithas | Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AS3** | **TB** | - | I | - | +/- | +/- | - | I | + | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **TC** | - | I | - | +/- | - | - | - | I | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **TH** | + | - | + | +/- | - | + | - | I | - | + | - | + | + | - | + | + |

**Dewis Gofodol 3 – Sylwadau Cynaliadwyedd**

**AC1 Datblygu Cynaliadwy**

Nid yw gwasgaru twf yn ystyried seilwaith cynhaliol ac felly mae'n anghynaliadwy ar y cyfan yn y tymor byr a chanolig. Yn y tymor hir, gellir sefydlu cyfleusterau a gwasanaethau o amgylch ardaloedd twf a gall hyn arwain at glystyrau o gymunedau cynaliadwy.

**AC2 Bioamrywiaeth**

Mae gwasgaru gwaith datblygu yn debygol o arwain at ddim gwahaniaethu twf rhwng ardaloedd tefol a gwledig, gan gynyddu'r potensial i ddatblygu ardaloedd sensitif o ran bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd ar hyn o bryd yn tymor byr, canolig a hir. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys o ran bioamrywiaeth.

| Effeithiau Darogan: | TB | I | TC | I | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC3 Ansawdd Aer**

Byddai gwasgaru twf yn arwain at ddiffyg mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus ac ni fyddai'n diwallu'r angen presennol am wasanaethau oherwydd byddent yn cael eu darparu ar wasgar. Byddai'r ddwy ffactor hyn yn atgyfnerthu'r angen i drigolion ddibynnu at gar preifat fel dull teithio yn y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, yn y tymor hir, mae'n bosibl y bydd aneddiadau gwledig sefydledig yn gallu cadw gwasanaethau a chyfleusterau yn well, ac felly byddant ar gael yn fwy hwylus yn lleol.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC4 Ffactorau Hinsoddol**

Byddai'r dewis hwn yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd twf trefol, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion yn y tymor byr er bod cynyddu datblygiad mewn ardaloedd gwledig heb ystyried gwasanaethau presennol yn debygol o leihau mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chynyddu'r ddibyniaeth ar gar preifat. Fodd bynnag, yn y tymor hir, mae gwasgaru twf yn debygol o gynyddu datblygiad ar safleoedd maes glas a all leihau ardaloedd storio llifogydd ar yr ucheldir, ond gallai gynyddu mynediad at wasanaethau wrth iddynt sefydlu'n fwy o amgylch ardaloedd twf ac felly byddai'n lleihau'r defnydd o gar preifat.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC5 Dŵr**

Byddai'r dewis hwn yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd twf trefol, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn llawer o achosion, ond mae gwasgaru twf yn debygol o gynyddu datblygiad safleoedd maes glas a all leihau ardaloedd storio llifogydd ar yr ucheldir a lleoli datblygiad y tu allan i ardaloedd a ddatblygwyd yn flaenorol sy'n cynyddu'r risg i gyrff dŵr a'r risg o lygredd gwasgaredig. Ni fydd gwaith datblygu wedi'i leoli mewn ardaloedd lle ceir digon o wasanaethau trin dŵr ac felly byddai'n effeithio'n andwyol ar ansawdd dŵr.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC6 Asedau Materol**

Nid yw'r dewis hwn yn ystyried mynediad at rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus na lleoliad gwasanaethau a chyfleusterau. Mae'n debygol felly o gyfrannu at orddibyniaeth ar geir preifat. Fodd

bynnag, gall gwasanaethau a chyfleusterau ddatblygu a chael eu cadw mewn ardaloedd gwledig, a all arwain at ostyngiad mewn defnydd ceir preifat yn y tymor hir.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | + |

**AC7 Pridd**

Mae gwasgaru datblygiad mewn aneddiadau ledled y sir yn lleihau'r potensial i ailddatblygu tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol ac yn cynyddu'r potensial i golli ardaloedd nas datblygwyd a phriddoedd.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | I | TC | - | TH | - |

**AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol**

Yn y tymor byr, byddai gwasgaru aneddiadau newydd ledled y sir yn lleddfu'r pwysau datblygu ar drefluniau trefol presennol a buddiannau archaeolegol neu dreftadaeth adeiledig lle cafwyd y mwyaf o waith datblygu yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn y tymor canolig a hir, gall mwy o ddatblygu mewn aneddiadau gwledig effeithio ar leoliad nifer mwy o asedau diwylliannol a threfluniau ledled y sir.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |

**AC9 Tirwedd**

Byddai gwasgaru aneddiadau newydd ledled y sir yn cynyddu'r tebygolrwydd o effeithio ar safleoedd a ddynodwyd yn ardaloedd tirwedd arbennig sy'n wledig ar y cyfan. Byddai'r dewis hwn hefyd yn cyfyngu'r gallu i annog defnydd tir diffaith yn y dyfodol.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | I | TC | I | TH | - |

**AC10 Poblogaeth**

Nid yw'r dewis hwn yn gwahaniaethu rhwng twf mewn ardaloedd gwledig a threfol ac felly gall gynyddu mynediad at wasanaethau ledled y Sir, fodd bynnag, nid yw twf yn ymatebol i anghenion lleol yn benodol, felly mae'n annhebygol y caiff effaith gadarnhaol yn y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, gall gwasanaethau a chyfleusterau gael eu datblygu a'u cadw mewn ardaloedd gwledig a fydd yn arwain at leihau'r defnydd o gar preifat yn y tymor hir.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | + |

**AC11 Y Gymraeg**

Bydd y dewis hwn yn arwain at dwf uchel mewn ardaloedd gwledig ar lefel sy'n annhebygol o gael ei amsugno heb effeithiau negyddol.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | - |

**AC12 Iechyd a Llesiant**

Nid yw'r dewis hwn yn gwahaniaethu rhwng twf mewn ardaloedd gwledig a threfol ac felly gall arwain at fynediad ehangach at wasanaethau ledled y Sir, drwy siawns yn y tymor hwy. Fodd bynnag, nid yw'r twf yn ymateb i anghenion lleol penodol ac felly mae'n annhebygol y bydd yn arwain at effaith gadarnhaol yn y tymor byr a chanolig. Nid yw'r dewis hwn yn ystyried mynediad at seilwaith na thrafnidiaeth gyhoeddus.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | + |

**AC13 Addysg a Sgiliau**

Nid yw'r dewis hwn yn ystyried mynediad at wasanaethau gan gynnwys cyfleusterau addysg ac felly mae'n annhebygol o arwain at effaith gadarnhaol ar fynediad at wasanaethau a chyfleusterau addysg a sgiliau.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC14 Yr Economi**


Nid yw'r dewis hwn yn ystyried angen lleol, y farchnad na'r seilwaith cynhaliol, felly mae'n annhebygol y bydd yn creu ardaloedd deniadol ar gyfer buddsoddi a thwf economaidd.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC15 Gwead Cymdeithas**

Nid yw'r dewis hwn yn ystyried mynediad at wasanaethau wrth leoli twf ac felly mae'n annhebygol y bydd yn gwella hygyrchedd cyffredinol yn y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, gan nad yw'r dewis hwn yn gwahaniaethu rhwng twf mewn ardaloedd trefol a gwledig, gellir gwella mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn y tymor hwy.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | - | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|




Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar rôl aneddiadau yn eu hardal a'u cymuned ehangach, gan gydnabod y berthynas a'r gyd-ddibyniaeth rhwng aneddiadau ac yn ystyried sut mae'r cymunedau lleol yn gweithio ac yn byw.

Bydd y dewis hwn yn annog twf mewn ardaloedd sy’n chwarae rhan bwysig yn y gymuned ehangach; trwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sy’n ceisio adlewyrchu anghenion cymunedau, gan gynnwys eu galw am dai.

Dylai'r dewis hwn adlewyrchu dealltwriaeth o gymunedau lleol a sicrhau bod twf yn digwydd mewn ardaloedd lle mae ei angen, er mwyn cefnogi cymunedau a'u dyheadau ar gyfer twf yn y dyfodol a materion parhaus yn ymwneud â chynaliadwyedd cyfleusterau a gwasanaethau.  Mae hyn yn debygol o arwain at ddyrannu safleoedd llai a chyfeirio cyfran uwch o dwf i aneddiadau llai.

| Amcan AC | Terfyn Amser | 1. Datblygu Cynaliadwy | 2. Bioamrywiaeth | 3. Ansawdd Aer | 4. Ffactorau Hinsoddol | 5. Dŵr | 6. Asedau Materol | 7. Pridd | 8. Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd | 9. Tirwedd | 10. Poblogaeth | 11. Y Gymraeg | 12. Iechyd a Llesiant | 13. Addysg a Sgiliau | 14. Economi | 15.Gwead Cymdeithas | Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AS4 | TB | ? | - | - | +/- | + | - | - | + | - | + | + | + | + | + | + | ? |
| | TC | + | I | - | +/- | + | + | I | I | I | ++ | + | ++ | + | + | ++ | + |
| | TH | + | I | + | +/- | + | ++ | I | I | I | ++ | + | ++ | + | ++ | ++ | ++ |

**Dewis Gofodol 4 – Sylwadau Cynaliadwyedd**

**AC1 Datblygu Cynaliadwy**

Mae'r dewis hwn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni economi gynaliadwy a diwallu anghenion lleol ledled y Sir.

**AC2 Bioamrywiaeth**

Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn gwaith datblygu mewn ardaloedd gwledig ac felly gall effeithio'n negyddol ar ardaloedd sensitif o ran bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd ar hyn o bryd. byddai effeithiau yn y tymor canolig a hir yn dibynnu ar y safleoedd datblygu a ddewisir a sut y gwneir y gwaith.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC3 Ansawdd Aer**

Yn y tymor byr, mae annog twf y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at gynnydd mewn defnydd ceir preifat ac allyriadau cysylltiedig. Fodd bynnag, yn y tymor canolig a hir, mae'n debygol y bydd cyfleusterau, gwasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu sefydlu'n fwy a'u cadw mewn ardaloedd gwledig yn dilyn twf ac felly mae'n debygol y bydd llai o angen am gar preifat.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | +/- | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC4 Ffactorau Hinsoddol**

Yn y tymor byr, byddai'r dewis hwn yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd twf trefol, a rhai ohonynt sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae twf y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at gynnydd mewn defnydd ceir preifat ac allyriadau cysylltiedig yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae twf mewn ardaloedd gwledig yn debygol o gynyddu datblygiad safleoedd maes glas a all leihau ardaloedd storio llifogydd ar yr ucheldir. Fodd bynnag, mae gwasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o gael eu sefydlu'n fwy a'u cadw mewn ardaloedd gwledig yn dilyn twf ac felly bydd llai o angen am geir preifat.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC5 Dŵr**

Yn y tymor byr, byddai'r dewis hwn yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd twf trefol, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Mae'r dewis hwn hefyd yn ystyried y seilwaith presennol wrth ddyrannu twf i aneddiadau gwledig er bod angen mynd i'r afael â hyn mewn rhai ardaloedd yn y tymor byr. Yn y tymor canolig a hir, mae'n debygol y bydd seilwaith digonol a materion dŵr wedi'u datrys yn cael eu sefydlu mewn ardaloedd twf ac felly rhagwelir effeithiau cadarnhaol.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC6 Asedau Materol**

Yn y tymor byr, mae twf y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at yr angen am gar preifat i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau, o ganlyniad i ddiffyg gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd neu ddiffyg cyfleusterau digonol i gefnogi twf. Fodd bynnag, yn y tymor canolig a hir, mae'n debygol y bydd cyfleusterau, gwasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu sefydlu'n fwy ac felly bydd anghenion yn fwy tebygol o gael eu diwallu'n lleol neu eu cyrraedd trwy ddulliau trafnidiaeth eraill.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | + | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC7 Pridd**

Mae cynyddu datblygiad y tu allan i ardaloedd twf trefol yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddefnyddio tir y llain las ar gyfer datblygu yn hytrach nag ailddatblygu safleoedd tir llwyd. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion pridd.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol**

Yn y tymor byr, byddai'r dewis hwn yn lleddfu'r pwysau datblygu ar drefluniau trefol presennol a buddiannau archaeolegol neu dreftadaeth adeiledig lle cafwyd y datblygiad mwyaf yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn y tymor canolig a hir, gall mwy o ddatblygu mewn aneddiadau gwledig effeithio ar leoliad nifer mwy o asedau diwylliannol a threfluniau ledled y sir. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys treftadaeth ddiwylliannol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC9 Tirwedd**

Mae gan y dewis hwn y potensial i gynyddu effeithiau ar safleoedd dynodedig fel ardaloedd tirwedd arbennig sy'n wledig ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i osgoi ardaloedd sensitif, a fyddai'n dibynnu ar y safleoedd datblygu a ddewisir a sut y gwneir y gwaith.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC10 Poblogaeth**

Mae gan y dewis hwn y potensial i gefnogi aneddiadau presennol o ran gwasanaethau a chyfleusterau sydd, yn ei dro, yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar gadw pobl ifanc yn y sir. Mae ganddo ddigon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol a bydd yn ymdrin rhywfaint ag anghenion gwledig.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ++ | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC11 Y Gymraeg**

Mae'r dewis hwn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ar y cyfan, gan fod twf wedi'i gyfeirio at ardaloedd mwy gwledig a fydd yn helpu i sicrhau y bydd siaradwyr Cymraeg, yn arbennig pobl ifanc, yn gallu fforddio tŷ ac yn gallu cael swyddi mewn ardaloedd gwledig, a'u cadw yn yr ardaloedd hyn.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC12 Iechyd a Llesiant**

Mae'r dewis hwn yn annog twf mewn ardaloedd gwledig a threfol ac felly gall arwain at fynediad ehangach at wasanaethau ledled y Sir, ac mae'n cynnig digon o hyblygrwydd i sicrhau y gall twf ddiwallu anghenion lleol penodol. Mae hyn yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol cryf yn y tymor canolig a hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ++ | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC13 Addysg a Sgiliau**

Byddai'r dewis hwn yn annog defnydd lleol o wasanaethau addysg, yn arbennig yn y tymor canolig a hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC14 Yr Economi**


Byddai datblygiad cytbwys mewn ardaloedd gwledig a threfol yn cefnogi datblygiad economaidd presennol yn ogystal â chefnogi'r economi wledig trwy greu canolfannau economaidd hyfyw wedi'u cefnogi gan weithlu a marchnadoedd lleol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC15 Gwead Cymdeithas**

Mae'r dewis hwn yn rhoi cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol, a fydd yn gwella mynediad at wasanaethau, yn arbennig i garfannau difreintiedig y gymdeithas, mewn ardaloedd gwledig a threfol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ++ | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|




Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r buddsoddiad a gynllunnir fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn sianelu twf i gyd-fynd â'r ardaloedd daearyddol hyn. Y prosiectau a gynigir ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw:

Y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, Llanelli. Pentref yw hwn a fydd yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau i hyrwyddo a gwella llesiant. Bwriedir iddo fod yn gyfleuster amlochrog sy'n cyfuno datblygiad busnesau, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cymorth llesiant ac ymchwil mewn gwyddorau bywyd mewn un lleoliad; ac

Yr Egin, Caerfyrddin. Byddai'r cyfleuster hwn yn ganolfan greadigol, ddigidol a chyfryngau newydd i'w lleoli ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae’n debygol y bydd mwyafrif y twf yn y dewis hwn wedi’i grynhoi yng Nghaerfyrddin a Llanelli ac ardaloedd cyfagos. Bydd hyn yn arwain at rywfaint o dwf wedi’i grynhoi yn yr ardaloedd rhwng y ddwy ardal hyn, fodd bynnag, prin fydd y twf mewn aneddiadau sy’n bellach o Gaerfyrddin a Llanelli, serch hynny gallai elwa ar y buddsoddiad mewnol.

| Amcan AC | Terfyn Amser | 1. Datblygu Cynaliadwy | 2. Bioamrywiaeth | 3. Ansawdd Aer | 4. Ffactorau Hinsoddol | 5. Dŵr | 6. Asedau Materol | 7. Pridd | 8. Treftadaeth Ddiwylliann | 9. Tirwedd | 10. Poblogaeth | 11. Y Gymraeg | 12. Iechyd a Llesiant | 13. Addysg a Sgiliau | 14. Economi | 15.Gwead Cymdeithas | Cyffredinol (Canolrif) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AS5** | **S** | + | + | +/- | + | + | + | + | + | + | +/- | +/- | +/- | ++ | ++ | + | + |
| | **M** | - | + | - | - | - | - | + | \| | \| | +/- | +/- | +/- | ++ | ++ | - | - |
| | **L** | - | \| | -- | - | - | - | \| | \| | \| | +/- | +/- | +/- | ++ | - | - | - |

**Dewis Gofodol 5 – Sylwadau Cynaliadwyedd**

**AC1 Datblygu Cynaliadwy**

Byddai'r dewis hwn yn diwallu anghenion yn lleol yn y tymor byr, fodd bynnag yn y tymor hir ni fyddai gwaith datblygu yn gynaliadwy gan y byddai'n arwain at anghydraddoldeb rhwng economïau gwledig a threfol ac ni fyddai'n diwallu anghenion cymunedau gwledig.

**AC2 Bioamrywiaeth**

Mae'n cyfyngu ar y potensial ar gyfer datblygu gwledig helaeth a darnio cynefinoedd oherwydd bod gwaith datblygu wedi'i grynhoi o fewn ardaloedd trefol Caerfyrddin/Llanelli. Fodd bynnag, mae Llanelli a Chaerfyrddin yn agos iawn at safleoedd dynodedig a bydd gwaith datblygu crynodedig yn yr ardaloedd hyn yn cynyddu'r potensial am effeithiau negyddol. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys o ran Bioamrywiaeth yn y tymor hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC3 Ansawdd Aer**

Trwy grynhoi gwaith datblygu yn ardaloedd Llanelli/Caerfyrddin, caiff gwasanaethau twf newydd eu darparu'n lleol, gan leihau'r pellteroedd y mae'n rhaid i bobl eu teithio a chynyddu defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n methu â mynd i'r afael ag anghenion gwledig mewn unrhyw ffordd ac felly mae'n debygol y bydd yn rhaid i bobl mewn ardaloedd gwledig barhau i ddibynnu'n fawr ar gar preifat. Gall crynhoi gwaith datblygu yn Llanelli/Caerfyrddin waethygu'r problemau ansawdd aer presennol yn yr ardaloedd hyn, yn arbennig yn yr ardaloedd rheoli ansawdd aer sefydledig yng Nghaerfyrddin a Llanelli.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | - | TH | -- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC4 Ffactorau Hinsoddol**

Trwy grynhoi gwaith datblygu yn ardaloedd Llanelli/Caerfyrddin, gellir darparu gwasanaethau ar gyfer twf newydd yn lleol, gan leihau'r pellteroedd y mae'n rhaid i bobl eu teithio a chynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n methu â diwallu anghenion lleol o gwbl, felly mae'n debygol y bydd yn rhaid i bobl mewn ardaloedd gwledig barhau i ddibynnu'n fawr ar gar preifat. Gall cynyddu'r datblygiad yn Llanelli a'r ardaloedd cyfagos fel Porth Tywyn a Phen-bre gyflwyno risg uwch o lifogydd mewn datblygiadau newydd gan fod yr ardaloedd hyn yn rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardaloedd C1 a C2.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC5 Dŵr**

Mae'r dewis hwn yn cyfyngu'r potensial i ddatblygu y tu allan i ardaloedd a ddatblygwyd yn flaenorol, gan leihau'r risg i gyrff dŵr a'r risg o lygredd gwasgaredig. Fodd bynnag, bydd crynhoi gwaith datblygu yn Llanelli yn debygol o gynyddu dŵr wyneb ffo a materion llygredd cysylltiedig, a all arwain at oblygiadau ar AGA Cilfach Tywyn/ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin pe na chymerir camau lliniaru.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC6 Asedau Materol**

Trwy grynhoi gwaith datblygu yn ardaloedd Llanelli/Caerfyrddin, gellir darparu gwasanaethau ar gyfer twf newydd yn lleol, gan leihau'r pellteroedd y mae'n rhaid i bobl eu teithio a chynyddu mynediad at

drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n methu â diwallu anghenion lleol o gwbl, felly mae'n debygol y bydd yn rhaid i bobl mewn ardaloedd gwledig barhau i ddibynnu'n fawr ar gar preifat.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC7 Pridd**

Mae'n cynnig potensial i sicrhau y caiff safleoedd tir llwyd eu hailddatblygu, ac yn lleihau datblygiad safleoedd maes glas a llwybrau afonydd lle ceir priddoedd o werth amaethyddol uchel. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar bridd.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol**

Byddai'r dewis hwn yn lleihau effeithiau posibl ar ardaloedd gwledig lle ceir llawer o asedau a threfluniau diwylliannol. Gall crynhoi gwaith datblygu mewn canol trefi a chlystyrau gwledig arwain at bwysau ar drefluniau a buddiannau treftadaeth archaeolegol presennol. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys o ran treftadaeth ddiwylliannol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC9 Tirwedd**

Mae datblygu o fewn aneddiadau presennol yn lleihau'r tebygolrwydd o darfu ar ragor o nodweddion o bwys o ran tirwedd a thirweddau naturiol, a byddai'n cynyddu'r tebygolrwydd o ailddefnyddio tir diffaith presennol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC10 Poblogaeth**

Mae crynhoi gwaith datblygu yn Llanelli/Caerfyrddin yn sicrhau y bydd modd cyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau mewn ardaloedd twf newydd ac yn cyflawni'r hyfywedd mwyaf o ran trafnidiaeth gyhoeddus presennol. Bydd hefyd yn cyfochri datblygiadau preswyl â chyfleoedd cyflogaeth medrus sylweddol sy'n debygol o annog pobl ifanc i aros yn y sir. Fodd bynnag, ni fyddai'r dewis hwn yn gwella mynediad gwledig at wasanaethau a chyfleusterau, ac felly bydd y cymunedau hyn dan anfantais.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC11 Y Gymraeg**

Trwy grynhoi twf o amgylch datblygiadau dinas-ranbarth Bae Abertawe yn Llanelli a Chaerfyrddin, ceir potensial i greu amgylchedd bywiog lle y gellir annog siaradwyr Cymraeg i aros yn y sir. Fodd bynnag, byddai'r dewis hwn yn cyfeirio datblygiad i ardaloedd lle cafwyd lefelau uchel o ddatblygu yn y gorffennol. Mae'n bosib na fydd gan yr ardaloedd hyn y potensial i amsugno newidiadau i gymeriad, ac felly gellid effeithio'n andwyol ar y Gymraeg.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC12 Iechyd a Llesiant**

Mae crynhoi datblygiad yn Llanelli/Caerfyrddin yn sicrhau y bydd digon o fynediad yn y twf newydd at wasanaethau a chyfleusterau iechyd a hamdden a rhwydweithiau teithio llesol. Fodd bynnag, ni fyddai'r

dewis yn gwella mynediad gwledig at wasanaethau a chyfleusterau iechyd a hamdden, felly byddai'r cymunedau hyn dan anfantais.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC13 Addysg a Sgiliau**

Mae crynhoi twf o amgylch datblygiadau dinas-ranbarth Bae Abertawe yn Llanelli a Chaerfyrddin yn debygol o gynyddu mynediad at y cyfleusterau addysg a sgiliau o ansawdd uchel a ddarperir gan y datblygiadau. Ni fydd y dewis hwn yn gwella mynediad gwledig at wasanaethau, fodd bynnag mae'n bosibl y byddant hefyd yn elwa ar fewnlif o sgiliau yn y tymor hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | ++ | TC | ++ | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC14 Yr Economi**


Mae'r dewis hwn yn debygol o gefnogi twf economaidd uchel, gan gynnwys creu llawer o swyddi yn Llanelli, Caerfyrddin a'u hardaloedd cyfagos, yn dilyn buddsoddiad mewnol trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Gall aneddiadau y tu allan i'r ardaloedd hyn elwa ar y buddsoddiad mewnol yn yr ardaloedd hyn, fodd bynnag ceir risg yn y tymor hir y gallai greu mwy o anghydraddoldeb rhwng sefyllfa economaidd y rhan ogleddol a'r rhan ddeheuol o'r sir.

| Effeithiau Darogan: | TB | ++ | TC | ++ | TH | ? |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC15 Gwead Cymdeithas**

Mae crynhoi gwaith datblygu yn Llanelli/Caerfyrddin yn sicrhau y bydd gan ardaloedd twf newydd fynediad at wasanaethau a chyfleusterau ac yn sicrhau'r hyfywedd mwyaf o ran trafnidiaeth gyhoeddus bresennol. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn annhebygol o wella mynediad gwledig at wasanaethau a chyfleusterau, yn arbennig ar gyfer aelodau difreintiedig y gymdeithas, ac mae'n annhebygol o gyfrannu at ddileu rhwystrau cymdeithasol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|




Bydd y dewis hwn yn ceisio bodloni dyheadau a gofynion y diwydiant datblygu trwy nodi safleoedd ac ardaloedd sydd fwyaf deniadol yn economaidd i'w datblygu. Mae'r dewis hwn yn edrych ar lwyddiant marchnad aneddiadau'r sir ers 2008 ac yn dosrannu twf yn unol â chyfraddau cyflawni'r gorffennol.

Mae cyfraddau cyflawni'r gorffennol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r twf wedi digwydd yn ardaloedd Llanelli a'r Hendy, gyda chryn dipyn o ddatblygu hefyd yn digwydd yn ardal dwf Caerfyrddin ac ardaloedd twf Rhydaman/Cross Hands.

Gellid dehongli'r dull hwn fel 'cynllunio ar sail niferoedd'. Byddai'n ceisio cyfeirio twf yn unol â'r cyfraddau cyflenwi uchaf yn y gorffennol a lle byddai datblygwyr yn adeiladu.

| Amcan AC | Terfyn Amser | 1. Datblygu Cynaliadwy | 2. Bioamrywiaeth | 3. Ansawdd Aer | 4. Ffactorau Hinsoddol | 5. Dŵr | 6. Asedau Materol | 7. Pridd | 8. Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd | 9. Tirwedd | 10. Poblogaeth | 11. Y Gymraeg | 12. Iechyd a Llesiant | 13. Addysg a Sgiliau | 14. Economi | 15. Gwead Cymdeithas | Cyffredinol (Canolrif) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AS6 | S | + | +/- | +/- | + | + | + | + | + | + | +/- | +/- | +/- | +/- | + | + | + |
| | M | - | \| | - | - | - | - | + | \| | \| | +/- | - | +/- | ? | ? | - | - |
| | L | - | \| | -- | - | - | - | \| | \| | \| | +/- | - | +/- | ? | - | - | - |

**Dewis Gofodol 6 – Sylwadau Cynaliadwyedd**

**AC1 Datblygu Cynaliadwy**

Byddai'r dewis hwn yn diwallu anghenion yn lleol yn y tymor byr, fodd bynnag ni fyddai datblygiad tymor hir yn gynaliadwy gan y byddai'n arwain at anghydraddoldeb rhwng economïau gwledig a threfol ac ni fyddai'n diwallu anghenion cymunedau gwledig.

**AC2 Bioamrywiaeth**

Mae'n cyfyngu ar y potensial ar gyfer datblygu gwledig helaeth a darnio cynefinoedd oherwydd bod gwaith datblygu wedi'i grynhoi o fewn ardaloedd twf presennol. Fodd bynnag, mae ardaloedd fel Llanelli, Caerfyrddin a Cross Hands, lle bu lefelau uchel o waith datblygu, yn agos iawn at safleoedd dynodedig a bydd parhau i ddatblygu yn yr ardaloedd hyn yn cynyddu'r potensial am effeithiau negyddol.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC3 Ansawdd Aer**

Trwy grynhoi gwaith datblygu mewn ardaloedd twf presennol, bydd gwasanaethau a chyfleusterau ar gael yn barod, ac yn lleihau'r pellteroedd y mae'n rhaid i bobl eu teithio ac yn cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn methu ag ymdrin ag anghenion gwledig o gwbl ac felly bydd pobl mewn ardaloedd gwledig yn debygol o barhau i ddibynnu'n fawr ar ddefnyddio ceir preifat. Gall crynhoi gwaith datblygu yn Llanelli/Caerfyrddin waethygu'r problemau ansawdd aer presennol yn yr ardaloedd hyn, yn arbennig yn yr ardaloedd rheoli ansawdd aer sefydledig yng Nghaerfyrddin a Llanelli.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | - | TH | -- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC4 Ffactorau Hinsoddol**

Trwy grynhoi gwaith datblygu mewn ardaloedd twf presennol, gellir darparu gwasanaethau ar gyfer gwaith datblygu newydd yn lleol, gan leihau'r pellteroedd y mae'n rhaid i bobl eu teithio a chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn methu â diwallu anghenion gwledig o gwbl, felly mae'n debygol y bydd pobl mewn ardaloedd gwledig yn parhau i ddibynnu'n fawr ar ddefnyddio ceir preifat. Trwy gynyddu gwaith datblygu yn Llanelli ac ardaloedd cyfagos fel Porth Tywyn a Phen-bre, ceir potensial y bydd risg uwch o lifogydd i ddatblygiad newydd, oherwydd bod yr ardaloedd hyn yn rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardaloedd C1 a C2.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC5 Dŵr**

Mae'r dewis hwn yn cyfyngu'r potensial i ddatblygu y tu allan i ardaloedd a ddatblygwyd yn flaenorol, gan leihau'r risg i gyrff dŵr a'r risg o lygredd gwasgaredig. Fodd bynnag, bydd crynhoi gwaith datblygu mewn ardaloedd twf, yn enwedig yn Llanelli, yn debygol o gynyddu dŵr wyneb ffo a materion llygredd cysylltiedig, a all arwain at oblygiadau negyddol ar AGA Cilfach Tywyn/ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin pe na chymerir camau lliniaru.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC6 Asedau Materol**

Trwy grynhoi gwaith datblygu mewn ardaloedd twf presennol, gellir darparu gwasanaethau ar gyfer gwaith datblygu newydd yn lleol, gan leihau'r pellteroedd y mae'n rhaid i bobl eu teithio a chynyddu'r

defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn methu â diwallu anghenion gwledig o gwbl, felly mae'n debygol y bydd pobl mewn ardaloedd gwledig yn parhau i ddibynnu'n fawr ar ddefnyddio ceir preifat.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC7 Pridd**

Mae'n cynnig potensial i sicrhau y caiff safleoedd tir llwyd eu hailddatblygu, ac yn lleihau datblygiad safleoedd maes glas a llwybrau afonydd lle ceir priddoedd o werth amaethyddol uchel. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar bridd.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol**

Byddai'r dewis hwn yn lleihau effeithiau posibl ar ardaloedd gwledig lle ceir llawer o asedau a threfluniau diwylliannol. Gall crynhoi gwaith datblygu mewn canol trefi a chlystyrau gwledig arwain at bwysau ar drefluniau a buddiannau treftadaeth archaeolegol presennol. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys o ran treftadaeth ddiwylliannol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC9 Tirwedd**

Mae datblygu o fewn aneddiadau presennol yn lleihau'r tebygolrwydd o darfu ar ragor o nodweddion o bwys o ran tirwedd a thirweddau naturiol. Mae hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o ailddefnyddio tir diffaith ar gyfer gwaith datblygu.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC10 Poblogaeth**

Mae crynhoi gwaith datblygu mewn ardaloedd twf presennol yn sicrhau y bydd modd cyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau ac yn cyflawni'r hyfywedd mwyaf o drafnidiaeth gyhoeddus presennol. Fodd bynnag, ni fyddai'r dewis hwn yn gwella mynediad gwledig at wasanaethau a chyfleusterau, ac felly bydd y cymunedau hyn dan anfantais, a bydd allgáu cymdeithasol yr ardaloedd hyn yn gwaethygu.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC11 Y Gymraeg**

Byddai'r dewis hwn yn cyfeirio datblygiad i ardaloedd lle cafwyd lefelau uchel o ddatblygu yn y gorffennol. Mae'n bosib na fydd gan yr ardaloedd hyn y potensial i amsugno newidiadau i gymeriad, ac felly gellid effeithio'n andwyol ar y Gymraeg.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC12 Iechyd a Llesiant**

Mae crynhoi datblygiad mewn ardaloedd twf presennol yn sicrhau y bydd digon o fynediad yn y datgblygiad newydd at wasanaethau a chyfleusterau iechyd a hamdden a rhwydweithiau teithio llesol. Fodd bynnag, ni fyddai'r dewis yn gwella mynediad gwledig at wasanaethau a chyfleusterau iechyd a hamdden, felly byddai'r cymunedau hyn dan anfantais.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | +/- | TH | +/- |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC13 Addysg a Sgiliau**

Trwy grynhoi twf mewn ardaloedd lle cafwyd twf mawr yn y gorffennol, bydd cyfleusterau addysg a hyfforddi ar gael yn haws yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn debygol o roi pwysau ar yr adnoddau hyn yn y tymor canolig a'r tymor hir ac mae'n bosib na fydd yn gynaliadwy. Ni fyddai'r dewis yn gwella mynediad at gyfleusterau addysg a hyfforddiant ar gyfer cymunedau gwledig, ac felly bydd y cymunedau hyn dan anfantais.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | ? | TH | ? |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC14 Yr Economi**

Mae cyflawni datblygiad ar sail y farchnad yn debygol o hwyluso hwb economaidd yn y tymor byr a'r tymor canolig, ond unwaith sy'n sensitif i gylchoedd neu newidiadau yng ngalw'r farchnad. Mae hyn yn annhebygol o gyfrannu at economi gynaliadwy yn y tymor hir, a byddai'n debygol o gyfrannu at fwy o anghydraddoldeb o ran sefyllfa economaidd y rhan ogleddol a'r rhan ddeheuol o'r sir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ? | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC15 Gwead Cymdeithas**

Mae crynhoi gwaith datblygu mewn ardaloedd twf presennol yn sicrhau y bydd datblygiad newydd yn cynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a bydd yn cyflawni'r hyfywedd mwyaf o ran trafnidiaeth gyhoeddus bresennol. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn annhebygol o wella mynediad gwledig at wasanaethau a chyfleusterau, yn arbennig ar gyfer aelodau difreintiedig y gymdeithas, ac mae'n annhebygol o gyfrannu at ddileu rhwystrau cymdeithasol.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | - | TH | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

## 4.4 Crynodeb o Arfarniad Cynaliadwyedd Dewisiadau Gofodol

4.4.1 Yn benodol, amlygodd yr arfarniad cynaliadwyedd y materion a'r cyfleoedd canlynol:

- Mae **Dewisiadau 1 a 4** ill dau yn perfformio'n dda ar y cyfan mewn cysylltiad â'r fframwaith cynaliadwyedd, yn arbennig o ran yr economi, gwella gwead cymdeithas a diwallu anghenion ardaloedd gwledig a threfol. Mae hyn mewn cyferbyniad â **Dewisiadau 2 a 3.** Nid yw'r rhain yn ymdrin yn benodol â'r economi wledig nac angen gwledig, ac nid ydynt yn perfformio'n ffafriol o ran gwella cydraddoldeb cymdeithasol ledled y sir. Rhagfynegir y bydd **Dewis 5** yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar addysg, sgiliau a'r economi yn sgil traweffaith buddsoddiad mewnol a gwybodaeth a sgiliau i'r sir. Mae hefyd yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol ar strwythur y boblogaeth, trwy gyfateb datblygiadau preswyl â chyfleoedd cyflogaeth fedrus sylweddol, gan greu ardaloedd deniadol i bobl ifanc.

- Er y byddai **Dewisiadau 2, 5 a 6** yn lleihau defnydd ceir preifat yn y tymor byr trwy gyfeirio twf i ardaloedd lle ceir gwasanaethau a chyfleusterau digonol eisoes. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn y traffig, mewn tagfeydd ac allyriadau cysylltiedig yn y tymor canolig a hir mewn ardaloedd sydd eisoes yn mynd yn groes i Amcanion Ansawdd Aer y DU. Mewn cyferbyniad â hyn, mae **Dewisiadau 1, 4 a 3** yn cyfeirio twf uwch i ardaloedd gwledig lle ceir diffyg mynediad at wasanaethau o bosibl ac felly a fyddai'n cynyddu defnydd ceir preifat. Fodd bynnag, yn y tymor hir, mae'n debygol y bydd canolfannau gwasanaethau yn cael eu sefydlu a'u cadw o amgylch aneddiadau gwledig ac y caiff cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus eu gwella, gan arwain at ostyngiad yn y defnydd o geir preifat a'r materion ansawdd aer cysylltiedig.

- Ceir effeithiau cadarnhaol a negyddol yn sgil **Dewisiadau 1, 3 a 4** o ran ffactorau hinsoddol. Bydd cyfeirio twf i ardaloedd gwledig yn lleihau'r pwysau ar ardaloedd trefol yn y tymor byr, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae twf y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at gynnydd mewn defnydd ceir preifat ac allyriadau cysylltiedig yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae twf mewn ardaloedd gwledig yn debygol o gynyddu datblygiad safleoedd maes gwyrdd a all leihau ardaloedd storio llifogydd ar yr ucheldir. Fodd bynnag, mae gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o gael eu sefydlu'n fwy a'u cadw mewn ardaloedd gwledig yn dilyn twf, felly mae'n debygol y bydd yr angen am geir preifat yn lleihau. Byddai **Dewis 2** yn arwain at gynnydd yn y defnydd o ddulliau eraill o deithio a thwf mewn ardaloedd lle ceir gwasanaethau a chyfleusterau digonol, gan leihau'r angen am geir preifat. Fodd bynnag, mae rhai o'r prif lwybrau teithio (e.e. A40) yn dilyn llwybrau afonydd ac mae crynhoi datblygiad mewn ardaloedd o'r fath yn debygol o fod rhywfaint o fewn parthau llifogydd C1 a C2. Gallai cyfeirio twf i ardaloedd trefol fel Llanelli, Pen-bre a Phorth Tywyn, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardaloedd C1 a C2 arwain at risg i ddatblygiad newydd o lifogydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y tymor hir. Oherwydd hyn, ac oherwydd na chaiff anghenion gwledig eu diwallu, rhagwelir y caiff **Dewisiadau 5 a 6** effeithiau negyddol ar yr amcan hwn.

- Mae perfformiad o ran amcanion cynaliadwyedd fel treftadaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a thirwedd yn dibynnu'n fawr ar y safle a ddewisir a gweithredu oherwydd natur leol y nodweddion hyn, felly mae'n anodd arfarnu effaith ar y lefel strategol hon. Fodd bynnag, mae **Dewisiadau 2 a 5** yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol bras

ar fioamrywiaeth gan eu bod yn cyfeirio twf i ardaloedd lle cafwyd gwaith datblygu yn y gorffennol, yn hytrach nag ardaloedd sy'n fwy tebygol o arwain at ddatblygu tir y llain las.

- Mae **Dewisiadau 2 a 6** sy'n cyfeirio twf i ardaloedd lle cafwyd lefelau uchel o dwf yn hanesyddol, ac felly newidiadau demograffig, yn llai tebygol o allu amsugno rhagor o newidiadau i gymeriad ac felly byddai'n arwain at effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Mae **Dewisiadau 1 a 4** yn ceisio dosbarthu twf yn fwy cymesur rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a bydd hefyd yn cefnogi cymunedau bywiog a'r economi, sy'n debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, yn arbennig trwy gadw pobl ifanc. Byddai **Dewis 3** yn arwain at ddarpariaeth dwf anghynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, a gall hyn wanhau cymunedau Cymraeg eu hiaith yn yr ardaloedd hyn. Mae Dewis 5 yn arwain at yr un effeithiau negyddol â Dewisiadau 2 a 6 ond mae hefyd yn arwain at effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i greu swyddi a sgiliau mewn cysylltiad â Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (yn arbennig Yr Egin, sy'n gartref i swyddfeydd S4C) a fydd yn helpu i gadw pobl ifanc yn y Sir.

### 4.5 Dewis Hybrid – Cymuned Gytbwys a Thwf Cynaliadwy

4.5.1 O ganlyniad i'r Arfarniad Cynaliadwyedd hwn, ac ymgysylltiad dilynol â rhanddeiliaid, argymhellir y dylid ystyried dewis hybrid fel y dewis a ffefrir, sy'n adlewyrchu nifer o nodweddion y dewisiadau uchod. Mae'r dewis hybrid hwn yn ceisio ychwanegu at y dull a amlygir trwy Ddewis Strategol 4 – Dan Arweiniad y Gymuned, ac yn ceisio darparu cyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwledig a sicrhau y cydnabyddir amrywiaeth y Sir a chymunedau, ond yn dileu'r dull rhagnodol o bennu ardaloedd nodweddiadol yn y Sir. Mae'r Dewis yn ceisio cadw dull sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau ac a fydd yn ceisio ymateb i sut y mae'n pennu twf i ardaloedd trefol a gwledig y Sir.


4.5.2 Bydd y dewis hybrid yn ymgorffori elfennau o Ddewis 5, gan gydnabod ac adlewyrchu buddsoddiad a buddion economaidd i'r Sir a'i chymunedau trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a chyfleoedd economaidd eraill. Yn unol â'r prif bwyslais yn Newis 2, mae hefyd yn cydnabod bod angen amrywiaeth o seilwaith priodol i gefnogi twf cynaliadwy. Yn unol â Dewis 6, bydd yn cydnabod y dylid gallu cyflawni twf a'i gyfeirio at anghenion cymuned a galw'r farchnad.

4.5.3 Mae'r dewis hybrid wedi'i asesu o ran yr Amcanion Cynaliadwyedd a chyflwynir sylwadau manwl isod. Mae Ffigur 6 yn crynhoi canlyniadau'r arfarniad o'u cymharu â'r chwe dewis gofodol gwreiddiol.

**Ffigwr 5 Crynodeb o Arfarniad Cynaliadwyedd Dewisiadau Gofodol, gan gynnwys Dewis Hybrid**

| Amcan AC | Dewis 1 | Dewis 2 | Dewis 3 | Dewis 4 | Dewis 5 | Dewis 6 | Hybrid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AC1 Datblygu Cynaliadwy | + | - | - | + | ? | ? | + |
| AC2 Bioamrywiaeth | I | + | I | I | + | I | I |
| AC3 Ansawdd Aer | - | - | - | - | - | - | + |
| AC4 Ffactorau Hinsoddol | +/- | +/- | +/- | +/- | - | - | +/- |
| AC5 Dŵr | - | + | - | + | - | - | + |
| AC6 Asedau Materol | + | - | - | + | - | - | + |
| AC7 Pridd | I | + | - | I | + | + | I |
| AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol | I | I | I | I | I | I | I |
| AC9 Tirwedd | I | I | - | I | I | I | I |
| AC10 Poblogaeth | ++ | - | - | ++ | +/- | +/- | ++ |
| AC11 Y Gymraeg | + | - | - | + | +/- | - | + |
| AC12 Iechyd a Llesiant | + | - | - | ++ | +/- | +/- | ++ |
| AC13 Addysg a Sgiliau | + | - | - | + | ++ | ? | ++ |
| AC14 Yr Economi | + | - | - | + | ++ | ? | ++ |
| AC15 Gwead Cymdeithas | + | - | - | ++ | - | - | ++ |

## Dewis Hybrid - Cymuned Gytbwys a Thwf Cynaliadwy




| SA Objective | Terfyn Amser | 1. Datblygu Cynaliadwy | 2. Bioamrywiaeth | 3. Ansawdd Aer | 4. Ffactorau Hinsoddol | 5. Dŵr | 6. Asedau Materol | 7. Pridd | 8. Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd | 9. Tirwedd | 10. Poblogaeth | 11. Y Gymraeg | 12. Iechyd a Llesiant | 13. Addysg a Sgiliau | 14. Economi | 15. Gwead Cymdeithas | Cyffredinol (Canolrif) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AS7** | **S** | | - | +/- | +/- | +/- | - | - | + | - | + | + | + | ++ | + | + | + |
| | **M** | | I | + | +/- | + | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | + |
| | **L** | | I | + | + | + | ++ | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | + |

**Dewis Gofodol 7 – Sylwadau Cynaliadwyedd**

**AC1 Datblygu Cynaliadwy**

Mae'r dewis hwn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni economi gynaliadwy a diwallu anghenion ledled y Sir.

**AC2 Bioamrywiaeth**

Byddai'r dewis hwn yn arwain at gynnydd mewn datblygiad mewn ardaloedd gwledig ac felly gall arwain at effaith negyddol yn y tymor byr ar ardaloedd sensitif o ran bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd ar hyn o bryd. Byddai effeithiau yn y tymor canolig a hir yn dibynnu ar y safleoedd datblygu a ddewisir a sut y gwneir y gwaith.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC3 Ansawdd Aer**

Yn y tymor byr, mae annog twf y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at gynnydd mewn defnydd ceir preifat a'r allyriadau cysylltiedig. Fodd bynnag, yn y tymor canolig a hir, mae cyfleusterau, gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o gael eu sefydlu'n fwy a'u cadw mewn ardaloedd gwledig yn dilyn twf ac felly mae'n bosibl y bydd yr angen am geir preifat yn lleihau.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC4 Ffactorau Hinsoddol**

Byddai'r dewis hwn yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd twf trefol yn y tymor byr, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae twf y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at gynnydd mewn defnydd ceir preifat a'r allyriadau cysylltiedig yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae twf mewn ardaloedd gwledig yn debygol o gynyddu datblygiad safleoedd maes glas a all leihau ardaloedd storio llifogydd ar yr ucheldir. Fodd bynnag, mae gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o gael eu sefydlu'n fwy a'u cadw mewn ardaloedd gwledig yn dilyn twf ac felly mae'n debygol y bydd yr angen am geir preifat yn lleihau.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | +/- | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC5 Dŵr**

Byddai'r dewis hwn yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd twf trefol yn y tymor byr, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Mae'r dewis hwn hefyd yn ystyried y seilwaith presennol wrth ddyrannu twf i aneddiadau gwledig, er ei bod yn bosibl y bydd angen mynd i'r afael â hyn yn y tymor byr. Yn y tymor canolig a hir, mae'n debygol y bydd seilwaith digonol a materion dŵr wedi'u datrys yn cael eu sefydlu mewn ardaloedd twf ac felly rhagwelir effeithiau cadarnhaol.

| Effeithiau Darogan: | TB | +/- | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC6 Asedau Materol**

Yn y tymor byr, mae cyfeirio twf i ardaloedd y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at yr angen i ddefnyddio ceir preifat i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau, oherwydd diffyg mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd neu ddiffyg cyfleusterau digonol mewn ardaloedd ar y dechrau i gefnogi twf. Fodd bynnag, yn y tymor canolig, mae cyfleusterau, gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o gael eu sefydlu'n fwy yn yr ardaloedd hyn ac felly mae'n fwy tebygol y caiff anghenion eu diwallu'n lleol neu trwy ddulliau teithio eraill.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC7 Pridd**

Mae cynyddu datblygiad y tu allan i ardaloedd twf trefol yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddefnyddio tir y llain las ar gyfer gwaith datblygu yn hytrach nag ailddatblygu safleoedd tir llwyd. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion pridd.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol**

Yn y tymor byr, byddai'r dewis hwn yn lleddfu'r pwysau datblygu ar drefluniau trefol presennol a buddiannau archaeolegol neu dreftadaeth adeiledig lle cafwyd y mwyaf o waith datblygu yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn y tymor canolig a hir, gall mwy o waith datblygu mewn aneddiadau gwledig effeithio ar leoliad nifer mwy o asedau diwylliannol a threfluniau ledled y sir. Byddai'r safleoedd datblygu a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar nodweddion o bwys o ran treftadaeth.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC9 Tirwedd**

Mae gan y dewis hwn y potensial i gynyddu effeithiau ar safleoedd dynoededig fel ardaloedd tirwedd arbennig sy'n rhai gwledig ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i osgoi ardaloedd sensitif, a fyddai'n dibynnu ar y safleoedd datblygu a ddewisir a sut y gwneir y gwaith.

| Effeithiau Darogan: | TB | - | TC | I | TH | I |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC10 Poblogaeth**

Mae gan y dewis hwn y potensial i gefnogi aneddiadau presennol o ran gwasanaethau a chyfleusterau sydd yn ei dro yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar gadw pobl ifanc yn y sir. Mae'n cynnwys digon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol a bydd yn diwallu anghenion gwledig rhywfaint. Bydd hefyd yn cyfochri datblygiadau preswyl â chyfleoedd cyflogaeth medrus sylweddol o ganlyniad i Fargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n debygol o annog pobl ifanc i aros yn y sir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ++ | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC11 Y Gymraeg**

Mae gan y dewis hwn y potensial i gefnogi aneddiadau presennol o ran gwasanaethau a chyfleusterau a fydd yn ei dro yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir. Bydd hefyd yn cyfochri datblygiadau preswyl â chyfleoedd cyflogaeth medrus sylweddol o ganlyniad i Fargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n debygol o annog siaradwyr Cymraeg ifanc i aros yn y sir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | + | TH | + |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC12 Iechyd a Llesiant**

Mae'r dewis hwn yn annog twf mewn ardaloedd gwledig a threfol ac felly gall arwain at fynediad ehangach at wasanaethau ledled y Sir ac mae'n caniatáu digon o hyblygrwydd i sicrhau y gall twf ddiwallu anghenion lleol penodol. Mae hyn yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol yn y tymor canolig a hir.

| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ++ | TH | ++ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**AC13 Addysg a Sgiliau**

Byddai'r dewis hwn yn annog defnydd lleol o wasanaethau addysg, yn arbennig yn tymor canolig a hir. Mae crynhoi rhywfaint o'r twf o amgylch datblygiadau Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn Llanelli a Chaerfyrddin hefyd yn debygol o gynyddu mynediad at y cyfleusterau addysg a sgiliau o ansawdd uchel a ddarperir trwy'r datblygiadau.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | ++ | TC | ++ | TH | ++ |

**AC14 Yr Economi**

Mae'r dewis hwn yn debygol o gefnogi twf economaidd uchel, gan gynnwys creu nifer sylweddol o swyddi, yn Llanelli, Caerfyrddin a'u hardaloedd cyfagos, yn dilyn buddsoddiad mewnol trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Bydd aneddiadau y tu allan i'r ardaloedd hyn yn arwain at fuddion o fuddsoddiad mewnol yn yr ardaloedd hyn hefyd. Byddai datblygiad cytbwys rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn cefnogi datblygiad economaidd presennol ac yn cefnogi'r economi wledig trwy greu canolfannau economaidd hyfyw wedi'u cefnogi gan weithlu a marchnadoedd lleol.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ++ | TH | ++ |

**AC15 Gwead Cymdeithas**

Mae'r dewis hwn yn rhoi'r cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol, a bydd hyn yn gwella mynediad at wasanaethau, yn arbennig i aelodau difreintiedig y gymdeithas mewn ardaloedd gwledig a threfol.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Darogan: | TB | + | TC | ++ | TH | ++ |

## 5. Arfarnu Polisïau Strategol

5.1.1. Mae Polisïau Strategol y CDLl yn bolisïau lefel uchel a'u bwriad yw cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl. Maent yn strategol eu natur a chant eu hategu gan bolisïau a chynigion manylach ar gam Cynllun Adnau y CDLl.

5.1.2 Mae proses yr AC yn helpu i lywio'r broses o ddrafftio polisïau ac yn darparu cyfle i graffu'n fwy ar effeithiau cynaliadwyedd polisïau a'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni. Mae'r Polisïau Strategol wedi'u dosbarthu i bedair thema sy'n cyd-fynd yn union â themâu craidd Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin.

5.1.3 Nodir y Polisïau Strategol drafft isod (heb gynnwys testun ategol), a cheir crynodeb o'u perfformiad o ran fframwaith yr AC yn Ffigur 7. Ceir sylwadau manwl ar dudalennau 73 - 99.

**Ymyrraeth Gynnar - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt**

- PS1 Twf Strategol
- PS2 Manwerthu a Chanol Trefi

**Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd**

- PS3 Darparu Cartrefi Newydd
- PS4 Tai Fforddiadwy
- PS5 Safleoedd Strategol
- PS6 Gwaith a'r Economi
- PS7 Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru
- PS8 Isadeiledd
- PS9 Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
- PS10 Yr Economi Ymwelwyr
- PS11 Creu Ymdeimlad o Le, Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da

**Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd**

- PS12 Datblygu Gwledig
- PS13 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
- PS14 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

**Cysylltiadau Cryf - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid**

- PS15 Newid yn yr Hinsawdd
- PS16 Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau
- PS17 Trafnidiaeth a Hygyrchedd
- PS18 Adnoddau Mwynol
- PS19 Rheoli Gwastraff

## Ffigwr 6 Profi Polisïau Strategol y CDLl Diwygiedig o'u cymharu â fframwaith yr Amcanion Cynaliadwyedd

| Polisi Strategol | AC1 | AC2 | AC3 | AC4 | AC5 | AC6 | AC7 | AC8 | AC9 | AC10 | AC11 | AC12 | AC13 | AC14 | AC15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PS1 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| PS2 | + | I | +/- | +/- | I | | I | I | + | + | | | | ++ | |
| PS3 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| PS4 | + | | | | | | | | | ++ | + | + | + | + | ++ |
| PS5 | + | - | +/- | +/- | ? | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| PS6 | + | - | +/- | + | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | | + | ++ | + |
| PS7 | + | | | | | | | + | | + | ++ | | + | + | ++ |
| PS8 | ++ | +/- | + | + | + | + | - | - | - | ++ | | + | + | + | ++ |
| PS9 | + | I | | | ? | | I | I | I | + | | | | | + |
| PS10 | + | I | +/- | +/- | I | + | I | I | I | + | +/- | ++ | + | ++ | + |
| PS11 | ++ | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | | + | | + | + |
| PS12 | + | - | + | + | - | + | - | I | - | + | +/- | + | + | ++ | ++ |
| PS13 | + | ++ | + | + | + | | + | | + | | | + | | + | |
| PS14 | + | | | | | | | ++ | + | | | + | | + | |
| PS15 | ++ | + | + | ++ | + | + | | | | | | + | ? | | |
| PS16 | ++ | - | + | + | ? | ++ | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | ++ |
| PS17 | ++ | + | ++ | + | | ++ | | | | + | | + | + | | I+ |
| PS18 | I | - | - | - | | ? | - | I | - | | | | | + | |
| PS19 | I | - | I | I | | + | - | I | - | | | I | | + | |

| PS 1: Twf Strategol | | |
|---|---|---|
| Bydd y CDLl yn darparu ar gyfer twf yr economi yn y dyfodol a'r gofyniad tai trwy ddarparu'r canlynol:<br><br>a) 10,480 o gartrefi newydd i fodloni'r gofyniad tai o 9,887.<br>b) Lleiafswm o 5,295 o swyddi newydd<br><br>Mae'r pwyslais ar adfywio a thwf yn adlewyrchu uchelgeisiau strategol craidd y Cyngor wrth i ddatblygiadau gael eu dosbarthu mewn modd cynaliadwy sy'n gyson â'r strategaeth ofodol a'r fframwaith aneddiadau. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy ac yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae twf mewn ardaloedd gwledig penodol yn debygol o effeithio ar safleoedd maes glas ac ardaloedd bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd. |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Mae'r polisi hwn yn cefnogi poblogaeth a thwf economaidd, sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth (domestig ac economaidd) a llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Mae'r polisi hwn yn cefnogi poblogaeth a thwf economaidd, sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth (domestig ac economaidd) a'r allyriadau carbon cysylltiedig. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r polisi hwn yn darparu ar gyfer canran twf tai o 11.7%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau, gan arwain at ddiwallu anghenion yn lleol. |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. |
| AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae hyn yn cefnogi lefel twf a fydd yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. Hefyd, bydd creu swyddi newydd yn debygol o helpu i gadw pobl ifanc yn y sir. |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf a mewnfudo wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau hamdden a gofal iechyd hawdd eu cyrraedd newydd. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau addysg a hyfforddiant hawdd eu cyrraedd newydd. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Yn cefnogi twf ar lefel a fydd yn creu lleiafswm o 5,295 o swyddi yn ystod cyfnod y cynllun, yn unol ag uchelgeisiau craidd y Cyngor. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae hyn yn cefnogi lefel o dwf a fydd yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| **Awgrym o newid i'r polisi:**<br>Bydd y CDLl yn darparu ar gyfer twf economi **<u>gynaliadwy</u>** yn y dyfodol a gofynion tai trwy ddarparu'r canlynol: | | |

| **PS 2: Manwerthu a Chanol Trefi** | | |
|---|---|---|
| Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu eu hystyried yn unol â'r fframwaith manwerthu ganlynol.<br>Bydd cynigion hefyd yn cael eu caniatáu pan fyddant yn cynnal ac yn gwella bywyd, hyfywedd ac atyniad ein canolfannau manwerthu. Dylent warchod a hybu bywyd a hyfywedd y canolfannau manwerthu diffiniedig a chefnogi cyflenwad priodol o ddarpariaeth fanwerthu (cymharu a chyfleustra), hamdden, adloniant, cyfleusterau swyddfa a diwylliannol.<br>Caiff cynigion ar gyfer cyfleusterau siopa cyfleus lleol bach mewn ardaloedd gwledig a threfol eu cefnogi pan fyddant yn cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu'r potensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Byddai'r safleoedd a ddewisir a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar fioamrywiaeth. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae'r polisi hwn yn annog atyniad canol trefi a all gynyddu mynediad trwy gar preifat, yn arbennig mewn trefi fel Caerfyrddin, Llanelli a Llandeilo sy'n ardaloedd rheoli ansawdd aer ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ceir gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus da i ganol trefi ac felly |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae modd eu cyrraedd trwy rwydweithiau teithio eraill. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae'r polisi hwn yn annog atyniad canol trefi a all gynyddu mynediad trwy gar preifat a'r allyriadau carbon cysylltiedig. Fodd bynnag, ceir gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus da i ganol trefi ac felly mae modd eu cyrraedd trwy rwydweithiau teithio eraill. |
| AC5 – Dŵr | I | Mae effeithiau ar ansawdd a chyflenwad dŵr yn dibynnu'n fawr ar y safleoedd a ddewisir a sut y cânt eu datblygu. |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | + | Mae'r polisi hwn yn cefnogi trefniadau gwarchod a gwella treflun iau presennol. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae gwarchod a gwella bywyd, hyfywedd ac atyniad ein canolfannau manwerthu yn debygol o gyfrannu at gadw pobl ifanc yn y Sir. |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Bydd gwarchod a gwella bywyd, hyfywedd ac atyniad ein canolfannau manwerthu yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar economi'r Sir. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| **Awgrym o newid i'r polisi:**<br>Caiff cynigion ar gyfer cyfleusterau siopa cyfleus lleol bach mewn ardaloedd gwledig a threfol eu cefnogi pan fyddant yn cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau ac **egwyddorion cynaliadwyedd**. | | |

| **PS 3: Darparu Cartrefi Newydd** | | |
|---|---|---|
| Er mwyn sicrhau bod y gofyniad cyffredinol ar gyfer taqi o 9,887 o gartrefi dros gyfnod y cynllun (2018-2033) yn cael ei fodloni, gwneir darpariaeth ar gyfer 10,480 o gartrefi o gartrefi newydd yn unol â'r fframwaith aneddiadau | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy ac yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae darpariaeth dai, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, yn debygol o effeithio ar safleoedd maes glas ac ardaloedd bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd. |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Mae'r polisi hwn yn cefnogi darpariaeth cartrefi newydd, sy'n debygol o arwain at |

| | | |
|---|---|---|
| | | gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth (domestig ac economaidd) a llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffic. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Mae'r polisi hwn yn cefnogi darpariaeth cartrefi newydd, sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth (domestig ac economaidd) ac allyriadau carbon cysylltiedig. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r polisi hwn yn darparu ar gyfer canran twf tai o 11.7%, sydd o fewn y capasiti o 14.6% a ddarperir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau, gan arwain at ddiwallu anghenion yn lleol. |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae hyn yn cefnogi lefel twf a fydd yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. Hefyd, bydd creu swyddi newydd yn debygol o helpu i gadw pobl ifanc yn y sir. |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf a mewnfudo wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau hamdden a gofal iechyd hawdd eu cyrraedd newydd. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Gall twf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau addysg a hyfforddiant hawdd eu cyrraedd newydd. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'n cefnogi twf ar lefel a fydd yn creu lleiafswm o 5,295 o swyddi yn ystod cyfnod y cynllun, yn unol ag uchelgeisiau craidd y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae hyn yn cefnogi lefel o dwf a fydd yn darparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| **Awgrym o newid i'r polisi:**<br>gwneir darpariaeth ar gyfer 10,480 o gartrefi o gartrefi newydd yn unol â'r fframwaith aneddiadau ac **egwyddorion cynaliadwyedd**. | | |

| **PS 4: Cartrefi Fforddiadwy** | | |
|---|---|---|
| Bydd y Cynllun yn darparu'r nifer uchaf o dai fforddiadwy hyd at 2033 trwy ddarparu XXXX o gartrefi fforddiadwy.[9] | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod gwaith datblygu yn gynaliadwy yn gymdeithasol, trwy ymdrin â llesiant pob aelod o'r gymdeithas a dileu rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | 0 | |
| AC3 – Ansawdd Aer | 0 | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | 0 | |
| AC5 – Dŵr | 0 | |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | |
| AC7 – Pridd | 0 | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | 0 | |
| AC9 – Tirwedd | 0 | |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Gall trigolion na allant fforddio byw a gweithio yn y Sir fel arall gael gafael ar dai fforddiadwy ac aros yn y Sir. Yn benodol, mae'r polisi hwn yn cefnogi grwpiau difreintiedig y gymdeithas yn ogystal â phobl ifanc. |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a bydd y polisi hwn yn cefnogi trigolion na fyddant yn gallu fforddio byw a gweithio yn y Sir fel arall i gael gafael ar dai fforddiadwy ac aros yn y Sir. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | |
| AC14 – Yr Economi | + | Gall trigolion na allant fforddio byw a gweithio yn y Sir fel arall gael gafael ar dai fforddiadwy ac aros yn y Sir. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Mae'r polisi yn hwyluso darpariaeth tai fforddiadwy, sydd yn ei dro yn dileu rhwystrau ac yn creu cyfleoedd ar gyfer aelodau difreintiedig y gymdeithas. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |

[9] Bydd y lefel o gartrefi fforddiadwy a ddarperir yn cael ei llenwi fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo.

| |
|---|
| Dim awgrymiadau |

| **PS 5: Safleoedd Strategol** | | |
|---|---|---|
| Wrth fyfyrio ar eu cyfraniad at ofynion twf yn y dyfodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac fel elfennau allweddol o'r fargen Ddinesig Bae Abertawe, nodwyd bod y 2 Safle Strategol allweddol yn gwneud cyfraniad pwysig at y ddarpariaeth dwf gyffredinol yn ystod cyfnod y Cynllun:<br>• Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli<br>• Yr Egin – Clwstwr Digidol Creadigol, Caerfyrddin | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy ac yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu'r potensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Caiff y rhain eu hasesu ar y cam arfarnu safle. Dylid nodi bod pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli union gyfagos i Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae'r ddau safle y tu allan i'r ardaloedd rheoli ansawdd aer sydd wedi'u sefydlu yng Nghaerfyrddin a Llanelli, fodd bynnag ceir potensial i gynyddu'r traffig a'r llygredd aer cysylltiedig. Mae'r ddau safle yn strategol ac maent wedi'u gwasanaethu'n dda gan rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae potensial yn y ddau safle i gynyddu traffig a'r llygredd aer cysylltiedig. Mae'r ddau safle yn strategol ac maent wedi'u gwasanaethu'n dda gan rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus. |
| AC5 – Dŵr | ? | Mae angen gwybodaeth o Adolygiad o Ganiatadau Dŵr Cymru am gapasiti penodol safleoedd ar gyfer twf o ran tynnu dŵr a thrin dŵr gwastraff. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r ddau safle wedi'u gwasanaethu'n dda ac yn cynnwys mynediad at gyfleusterau, gan ganiatáu i anghenion gael eu diwallu'n lleol. Ceir hefyd gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus da. |
| AC7 – Pridd | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. Fodd bynnag, anodd yw rhagweld effeithiau ar lefel strategol. Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |

| | | |
|---|---|---|
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at gyfochri gwaith datblygu â chyfleoedd cyflogaeth medrus sylweddol sy'n debygol o annog pobl ifanc i aros yn y sir. Mae pentref Gwyddorau Bywyd a Llesiant Llanelli hefyd yn ardal lle ceir amddifadedd uchel, felly mae'n debygol o greu cyfleoedd ar gyfer cymunedau difreintiedig. |
| AC11 - Y Gymraeg | + | Yr Egin yw canolfan ddarlledu Cymraeg S4C a hwn yw'r man datblygu newydd ar gyfer cwmnïau creadigol a digidol sydd â hybu'r Gymraeg wrth wraidd datblygiad. Mae'r nifer sylweddol o swyddi a grëir yn sgil y ddau safle strategol yn debygol o greu cyfleoedd i bobl ifanc yn y sir, ac mae cyfran uchel o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd o hyd ynglŷn ag effeithiau siaradwyr digymraeg yn mewnfudo i'r sir o ganlyniad i'r datblygiadau hyn. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | ++ | Bydd pentref Gwyddorau Bywyd a Llesiant Llanelli yn ganolfan iechyd lle bydd sawl gwasanaeth ar gael mewn un lleoliad. Bydd cyfochri datblygiad â hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ++ | Mae'r ddau gyfleuster yn creu cyfleoedd i ddysgu ar y cyd, buddsoddiad mewnol a mewnlif o sgiliau i'r sir, a rhagwelir y bydd hyn oll yn arwain at effeithiau cadarnhaol cryf. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'r ddau gyfleuster yn rhan o fuddsoddiad mewnol sylweddol i'r sir a cheir potensial i greu miloedd o swyddi o ansawdd uchel. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Byddai'r polisi hwn yn cyfrannu at alinio gwaith datblygu cyflogaeth medrus sylweddol ac yn achos Llanelli, mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd ac felly mae'n debygol o greu cyfleoedd i'r rhai difreintiedig. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Dylid cyfeirio yn y polisi at y ffaith y bydd unrhyw ddatblygiad safle strategol yn destun caniatâd cynllunio a dylid ei seilio ar egwyddorion cynaliadwyedd. | | |

| **PS 6: Gwaith a'r Economi** | | |
|---|---|---|
| Caiff tir digonol a phriodol ei ddyrannu ar gyfer darparu cyflogaeth yng nghyfnod y cynllun o 2018 hyd 2033 (ffigwr i'w feintioli) yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun/ Fframwaith Aneddiadau. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae dyrannu tir cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn ogystal â chefnogi |

| | | |
|---|---|---|
| | | bargen Ddinesig Bae Abertawe yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth niferus o ansawdd uchel a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi gynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu'r potensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Caiff y rhain eu hasesu ar y cam arfarnu safle. Mae'n debygol y caiff tir cyflogaeth ei ddyrannu mewn ardaloedd gwledig sy'n debygol o effeithio ar safleoedd maes glas. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae dyrannu tir cyflogaeth yn unol â strategaeth ofodol/fframwaith aneddiadau y cynllun yn debygol o leihau'r angen i deithio, ac felly'r allyriadau sy'n gysylltiedig â cheir. Fodd bynnag, bydd tir cyflogaeth yn anorfod yn cynyddu nifer ac amlder cerbydau nwyddau trwm sy'n debygol o gyfrannu at y problemau ansawdd aer presennol. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Mae dyrannu tir cyflogaeth yn unol â strategaeth ofodol/fframwaith aneddiadau y cynllun yn debygol o leihau'r angen i deithio. |
| AC5 – Dŵr | ? | Bydd gwaith datblygu yn cynyddu lefel y galw am gyflenwad dŵr a gollyngiadau carthffosiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Caiff y rhain eu hasesu ar y cam arfarnu safle a byddant yn ystyried adolygiad Dŵr Cymru o ganiatadau i bennu capasiti. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae dyrannu tir cyflogaeth yn unol â strategaeth ofodol/fframwaith aneddiadau y cynllun yn debygol o leihau'r angen i deithio. |
| AC7 – Pridd | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu y caiff pridd/arwynebau hydraidd eu disodli gan arwynebau solet. However, it is difficult to predict impacts at a strategic level. Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. |
| AC8 -Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae dyrannu tir cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn ogystal â chefnogi bargen Ddinesig Bae Abertawe yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth niferus o ansawdd uchel a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gadw pobl ifanc a chynhwysiant cymdeithasol. |

| | | |
|---|---|---|
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf economaidd a'r mewnfudo cysylltiedig wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae creu amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth yn cynyddu potensial a'r gallu i ddefnyddio cyfleusterau addysg a sgiliau. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae dyrannu tir cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn ogystal â chefnogi bargen Ddinesig Bae Abertawe yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth niferus o ansawdd uchel a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi gynaliadwy. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Bydd cynyddu tir cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig yn cyfrannu'n gadarnhaol at hybu cadw pobl ifanc a chynhwysiant cymdeithasol. |

**Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC**

**Awgrym o newid i'r polisi:**
Caiff tir digonol a phriodol ei ddyrannu ar gyfer darparu cyflogaeth yng nghyfnod y cynllun o 2018 hyd 2033 (ffigwr i'w feintioli) yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun/ Fframwaith Aneddiadau, **ac egwyddorion cynaliadwyedd**.

**PS 7: Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru**

Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu ac yn hyrwyddo iaith a diwylliant Cymraeg yn y Sir. Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n effeithio'n andwyol ar fywyd a hyfywedd iaith a diwylliant Cymraeg oni bai y gellir lliniaru'r effaith.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod a gwella gwead cymdeithas cymunedau'r Sir. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | 0 | |
| AC3 – Ansawdd Aer | 0 | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | 0 | |
| AC5 – Dŵr | 0 | |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | |
| AC7 – Pridd | 0 | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio diogelu arwahanrwydd diwylliannol lleol rhag effeithiau negyddol posibl o ganlyniad i waith datblygu. |
| AC9 – Tirwedd | 0 | |
| AC10 – Poblogaeth | + | Bydd hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau digon o gyfleoedd cyflogaeth a thai yn debygol o helpu i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y Sir. |
| AC11 - Y Gymraeg | ++ | Mae'r Polisi hwn yn cyd-fynd yn union ag AC11. |

| | | |
|---|---|---|
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae gwarchod a gwella Iaith a Diwylliant Cymraeg yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar lythrennedd Cymraeg. |
| AC14 – Yr Economi | + | Bydd hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau digon o gyfleoedd cyflogaeth a thai yn debygol o helpu i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y Sir. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod a gwella gwead cymdeithas cymunedau'r Sir. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Dim awgrymiadau | | |

| **PS 8: Isadeiledd** | | |
|---|---|---|
| Bydd angen cyfeirio datblygiad i leoliadau lle mae'r isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol ar gael i gyflawni a chefnogi'r cynnig datblygu.<br>Bydd angen i gynigion datblygu ddangos bod digon o gapasiti yn yr isadeiledd presennol i gyflawni a chefnogi'r datblygiad arfaethedig. Pan na ellir cyflawni hyn, bydd angen i gynigion ddangos bod trefniadau addas ar waith i ddarparu'r capasiti isadeiledd angenrheidiol i gyflawni a chefnogi'r datblygiad.<br>Mae'n bosibl y caiff ymrwymiadau cynllunio eu ceisio i sicrhau y cyflawnir yr isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol i gyflawni a chefnogi'r datblygiad. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae'r polisi hwn yn sylfaen i'r gallu i ddatblygu mewn modd cynaliadwy, gan sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a chreu canolfannau economaidd cynaliadwy. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | +/- | Gall lleoli datblygiadau mewn ardaloedd â chapasiti isadeiledd digonol fod yn andwyol i fioamrywiaeth. Fodd bynnag, bydd annog trefniadau lleol i ddiwallu anghenion yn lleihau'r defnydd o geir preifat a'r llygredd aer cysylltiedig sy'n effeithio ar hyn o bryd ar rai o safleoedd dynodedig Ewropeaidd Sir Gaerfyrddin. |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. |
| AC5 – Dŵr | + | Cyfeirio datblygiad i ardaloedd â digon o gapasiti neu botensial ar gyfer twf yn sicrhau y diogelir adnoddau dŵr. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn annog trefniadau i ddiwallu anghenion yn lleol. |
| AC7 – Pridd | - | Gall cyfeirio datblygiadau i leoliadau ag isadeiledd digonol leihau'r hyblygrwydd i hyrwyddo adfywiad y tir. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | - | Gall cyfeirio datblygiadau i leoliadau ag isadeiledd digonol leihau'r hyblygrwydd i osgoi nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol. |
| AC9 – Tirwedd | - | Gall cyfeirio datblygiadau i leoliadau ag isadeiledd digonol leihau'r hyblygrwydd i osgoi ardaloedd sensitif o ran tirwedd. |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn cyflwyno'r cyfleoedd mwyaf i ddefnyddio'r rhain, yn arbennig ar gyfer aelodau difreintiedig yn y gymdeithas. |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |
| AC12 -Iechyd a Llesiant | + | Bydd y polisi hwn yn cynyddu'r gallu i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau iechyd a hamdden. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Bydd y polisi hwn yn cynyddu'r gallu i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau addysg a sgiliau. |
| AC14 – Yr Economi | + | Bydd cyfeirio gwaith datblygu i leoliadau lle ceir isadeiledd digonol yn debygol o greu canolfannau economaidd hyfyw wedi'u cefnogi gan weithlu a marchnad leol. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Bydd y polisi hwn yn cyfeirio gwaith datblygu i ardaloedd lle ceir capasiti ar gyfer twf gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn cyflwyno'r cyfleoedd mwyaf i ddefnyddio'r rhain, yn arbennig ar gyfer yr aelodau difreintiedig yn y gymdeithas. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| **Awgrym o newid i'r polisi:** Bydd angen cyfeirio datblygiad i leoliadau **<u>cynaliadwy</u>** lle mae'r isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol ar gael i gyflawni a chefnogi'r cynnig datblygu. | | |

| **PS 9: Sipsiwn a Theithwyr** | | |
|---|---|---|
| Bydd tir yn cael ddyrannu i ddiwallu'r angen a nodwyd ar gyfer llety sipsiwn a theithwyr ac i ganiatáu ar gyfer ehangiad posibl o gartrefi sipsiwn a theithwyr yn y dyfodol. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 -Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cynhwysiant y gymuned Sipsiwn a Theithwyr trwy ddyrannu tir i ddiwallu'n benodol eu hangen am dai. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC2. |

| | | |
|---|---|---|
| AC3 – Ansawdd Aer | 0 | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | 0 | |
| AC5 – Dŵr | ? | Mae angen gwybodaeth o Adolygiad o Ganiatadau Dŵr Cymru o ran capasiti safle penodol ar gyfer twf o ran tynnu dŵr a thrin dŵr gwastraff. |
| AC6 – Asedau Materol | 0 | |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cynhwysiant y gymuned Sipsiwn a Theithwyr trwy ddyrannu tir i ddiwallu'n benodol eu hangen am dai. |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | |
| AC14 – Yr Economi | 0 | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo cynhwysiant y gymuned Sipsiwn a Theithwyr trwy ddyrannu tir i ddiwallu'n benodol eu hangen am dai. |
| Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC | | |
| **Awgrym o newid i'r polisi:**<br>Caiff tir ei ddyrannu mewn lleoliad cynaliadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac i ganiatáu am yr estyniad posibl i Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol. | | |

| **PS 10: Yr Economi Ymwelwyr** | | |
|---|---|---|
| Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth eu cefnogi pan fyddant:<br><br>(a) yn ychwanegu at werth ein heconomi ymwelwyr; ac<br>(b) yn cynnal ein gwead cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; ac<br>(c) wedi'u lleoli'n gynaliadwy. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal economi gynaliadwy yn y Sir ac yn hyrwyddo iechyd a llesiant. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | I | Mae unrhyw waith datblygu yn awgrymu'r potensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ond ar lefel strategol, anodd yw pennu effeithiau mwy penodol. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar fioamrywiaeth. |
| AC3 – Ansawdd Aer | +/- | Mae'n bosibl y bydd cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r sir sy'n gysylltiedig â thwristiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn cynyddu'r defnydd o geir preifat. Fodd bynnag, mae'r polisi yn nodi y bydd gwaith datblygu sy'n gysylltiedig â thwristiaeth wedi'i leoli mewn ardaloedd y gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau ei fod wedi'i leoli'n gynaliadwy. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | +/- | Mae'n bosibl y bydd cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r sir sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cynyddu'r defnydd o geir preifat. Fodd bynnag, mae'r polisi yn nodi y bydd gwaith datblygu sy'n gysylltiedig â thwristiaeth wedi'i leoli mewn ardaloedd y gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau ei fod wedi'i leoli'n gynaliadwy. |
| AC5 – Dŵr | I | Ceir potensial i weithgareddau twristiaeth ymestyn i amgylcheddau afonol ac arfordirol, a all arwain at sgileffeithiau ar ansawdd dŵr. Fodd bynnag mae'r polisi'n datgan yn glir na ddylai datblygiadau arwain at unrhyw effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd naturiol. Byddai'r dewis o safleoedd datblygu a sut y cânt eu datblygu yn pennu'r effaith ar ddŵr. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae sicrhau datblygiad twristiaeth yn adlewyrchu fframwaith aneddiadau'r Cynllun ac yn cefnogi'r bwriad i ddiwallu anghenion yn lleol a lleihau'r angen i deithio. |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'n bosibl y bydd gwaith datblygu yn effeithio ar nodweddion tirwedd o bwys. Fodd bynnag mae'r polisi yn datgan yn glir na ddylai datblygiadau arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol ar y dirwedd. Bydd effeithiau yn dibynnu ar weithrediad y polisi. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae twristiaeth yn elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin ac yn un o'r prif ffynonellau cyflogaeth. Mae cynyddu swyddi twristiaeth yn debygol o gyfrannu at gadw pobl ifanc yn y sir. |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf economaidd a'r mewnfudo cysylltiedig wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | ++ | Gall cyfleusterau twristiaeth sy'n cyd-fynd â pholisïau corfforaethol fel dyheadau beicio y Sir, annog pobl i gerdded/beicio, mynediad at dreftadaeth naturiol a diwylliannol a mynediad at gyfleusterau iechyd a hamdden. |

| | | |
|---|---|---|
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae darpariaeth ar gyfer mentrau twristiaeth drwy'r flwyddyn yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyflogaeth a chyfleoedd addysg, sgiliau a hyfforddiant cysylltiedig. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'r polisi hwn yn ceisio hwyluso datblygiadau twristiaeth sy'n elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin ac yn ffynhonnell gyflogaeth fawr. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae twristiaeth yn elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin ac yn un o'r prif ffynonellau cyflogaeth. Mae cynyddu swyddi twristiaeth yn debygol o gyfrannu at gadw pobl ifanc yn y sir. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Dim awgrymiadau | | |

**PS 11: Creu Ymdeimlad o Le, Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da**

Er mwyn hwyluso datblygiad cynaliadwy, dylai datblygiadau newydd gydnabod arwahanrwydd lleol ac ymdeimlad o le, a chael eu dylunio i safonau uchel a all addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn cyflawni hyn, dylai pob datblygiad:

- Gyfrannu at greu lleoedd a mannau cyhoeddus deniadol a diogel sy'n gwella llesiant cymunedau, gan gynnwys diogelu amwynder, tirweddu, y parth cyhoeddus a darpariaeth mannau agored a hamdden;
- Cadw a, lle bo'n briodol, ymgorffori seilwaith gwyrdd newydd sy'n annog cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol;
- Gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd a defnyddio deunyddiau ac adnoddau sy'n briodol i'r ardal y mae wedi'i leoli;
- Arddangos dealltwriaeth glir o'r treftadaeth naturiol ac adeiledig presennol, cymeriad lleol ac ymdeimlad o le;
- Bod yn hawdd ei gyrraedd ac wedi'i integreiddio er mwyn caniatáu am hydreiddedd a symud yn rhwydd;
- Ystyried materion cynhyrchu, trin a chael gwared ar wastraff;
- Rheoli dŵr mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys ymgorffori systemau draenio trefol cynaliadwy mewn cynigion datblygu pan fo hynny'n ymarferol.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygiad cynaliadwy ac yn cynnwys ystyriaeth o lesiant ac integreiddiad cymunedau. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | + | Mae cadw a chreu seilwaith gwyrdd yn creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol. |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd cadw a chreu seilwaith gwyrdd yn cyfrannu at hidlo a dileu llygryddion o'r aer. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | ++ | Gall cadw a chreu seilwaith gwyrdd liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy ailgylchu $CO_2$ a darparu effeithiau oeri ac amsugno dŵr glaw a all leihau'r risg o lifogydd. Mae'r polisi hwn yn annog datblygiadau i allu addasu i'r newid yn yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | hinsawdd ac yn annog ystyriaeth o ymgorffori systemau draenio trefol cynaliadwy mewn datblygiadau pan fo hynny'n ymarferol. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae annog ymgorfforiad systemau draenio trefol cynaliadwy mewn datblygiadau yn y dyfodol yn ogystal â chadw a chreu seilwaith gwyrdd yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC5. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r polisi hwn yn annog datblygiadau newydd i ystyried materion cynhyrchu, trin a chael gwared ar wastraff. |
| AC7 – Pridd | + | Mae cadw a chreu seilwaith gwyrdd yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag osgoi disodli priddoedd ag arwynebau solet. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio'n ymarferol i hybu cynllun o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu cymeriad ac arwahanrwydd lleol. |
| AC9 – Tirwedd | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio'n ymarferol i hybu cynllun o ansawdd uchel sy'n cydweddu â'r dirwedd gyfagos. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae'r polisi hwn yn annog amgylcheddau diogel, deniadol a hawdd eu cyrraedd sydd, yn eu tro, yn creu mannau deniadol i bob aelod o'r gymdeithas, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau difreintiedig. |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae'r polisi hwn yn annog datblygiadau newydd i ystyried Llesiant, ac, yn arbennig, i gynnwys mynediad at fannau agored a chyfleoedd hamdden. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae creu cymunedau bywiog, diogel a chynaliadwy yn debygol o annog pobl i aros a llifo i mewn i Sir Gaerfyrddin, a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r polisi hwn yn annog amgylcheddau diogel, deniadol a hawdd eu cyrraedd sydd, yn eu tro, yn creu mannau deniadol i bob aelod o'r gymdeithas, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau difreintiedig. |

**Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC**

- Awgrymir cyfeirio'n benodol at gynllun effeithlon o ran ynni.

**Awgrym o newid i'r polisi:**
Gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd, **hybu effeithlonrwydd ynni** a defnyddio deunyddiau ac adnoddau sy'n briodol i'r ardal y mae wedi'i leoli;

- Awgrymir cyfeirio'n benodol at ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy?

**Awgrym o newid i'r polisi:**
Gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd a defnyddio deunyddiau ac adnoddau sy'n briodol i'r ardal y mae wedi'i leoli, **ac sy'n gynaliadwy, pan fo hynny'n ymarferol.**

- Awgrymir cyfeirio at ailgylchu gwastraff

| |
|---|
| **Awgrym o newid i'r polisi:**<br>Ystyried materion cynhyrchu, trin, **ailgylchu** a chael gwared ar wastraff<br><br>• Cryfhau'r geiriau ar gyfer bioamrywiaeth<br><br>**Awgrym o newid i'r polisi:**<br>Cadw a, lle bo'n briodol, ymgorffori seilwaith gwyrdd newydd sy'n annog (creu?) cyfleoedd i **ddiogelu a** gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol |

| **PS 12: Datblygu Gwledig** | | |
|---|---|---|
| Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu a fydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau gwledig y Sir. Dylai cynigion datblygu mewn ardaloedd gwledig ddangos eu bod yn gymesur o ran graddfa a'u bod yn cefnogi swyddogaeth aneddiadau gwledig yn y fframwaith aneddiadau i ddiwallu anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol cymunedau gwledig Sir Gaerfyrddin. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae'r polisi hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal economi gynaliadwy yn y Sir ac yn hybu iechyd, llesiant a chynhwysiant cymdeithasol. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae'r polisi hwn yn cefnogi gwaith datblygu cynyddol mewn ardaloedd gwledig, sy'n debygol o gynyddu gwaith datblygu ar safleoedd maes glas ac effeithio'n negyddol ar ardaloedd sensitif o ran bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd ar hyn o bryd. |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd hybu gwaith datblygu mewn ardaloedd gwledig yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd gwledig sy'n agos at fynd yn groes, neu sydd yn mynd yn groes, i amcanion Ansawdd Aer y DU. Bydd cadw cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau'r defnydd o geir preifat. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Bydd cadw cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau'r defnydd o geir preifat ac felly'n lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. |
| AC5 – Dŵr | - | Mae datblygiadau gwledig yn debygol o arwain at ddisodli safleoedd maes glas hydraidd ag arwyneb solet, a all gynyddu'r risg o lifogydd a dŵr wyneb. Mae'r polisi hwn yn datgan yn benodol bod yn rhaid i ddatblygiad ystyried effeithiau ar seilwaith lleol, a fyddai'n cynnwys cyflenwad dŵr a gollyngiadau carthffosiaeth. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r polisi hwn yn cefnogi cyfleusterau a gwasanaethau i gael eu cadw mewn aneddiadau gwledig ac felly'n cynorthwyo'r elfen o ddiwallu anghenion yn lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| AC7 – Pridd | - | Mae datblygiadau gwledig yn debygol o arwain at ddisodli safleoedd maes glas hydraidd ag arwyneb solet. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | - | Mae datblygiadau gwledig yn annhebygol o arwain at ailddefnyddio tir diffaith. Mae gan y sir nifer o Ardaloedd Tirwedd Arbennig sy'n rhai gwledig yn bennaf a all arwain at effaith negyddol. |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae cadw a gwella cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth gwledig yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar gadw pobl ifanc a chynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol y gymdeithas. |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf economaidd a mewnfudo cysylltiedig wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Byddai datblygiadau gwledig yn cynyddu mynediad at fannau gwyrdd a threftadaeth naturiol a diwylliannol y Sir. Bydd cadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau gwledig hefyd yn sicrhau y diogelir mynediad at wasanaethau iechyd a hamdden lleol. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae'r polisi hwn yn hwyluso trefniadau cadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau gwledig sy'n debygol o sicrhau y diogelir mynediad at gyfleusterau addysg gwledig. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae'r polisi hwn yn ceisio ymdrin â'r anghydraddoldeb economaidd rhwng gogledd a de y sir, trwy ddarparu cyflogaeth leol wedi'i chefnogi gan weithlu lleol mewn ardal wledig. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Mae cadw a gwella cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth gwledig yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar gadw pobl ifanc a chynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol y gymdeithas. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Cyfeirio at ganllawiau cynllunio atodol ar gyfer creu lle a chynllunio i leihau'r effeithiau ar dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol ac annog cynllun o safon uchel. Ystyriaeth o ardaloedd tirwedd arbennig sy'n rhai gwledig yn bennaf. | | |

| **PS 13: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol** |
|---|
| Bydd disgwyl i gynigion datblygu gwarchod a gwella amgylchedd naturiol y Sir.<br><br>Mae'n rhaid i'r cynnig adlewyrchu swyddogaeth amgylchedd sydd wedi'i gysylltu'n ecolegol wrth warchod a gwella bioamrywiaeth, diffinio'r dirwedd, creu ymdeimlad o le a chyfrannu at ymdeimlad o lesiant. |

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | |
| AC2 – Bioamrywiaeth | ++ | Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag AC2 i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol. |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol yn cyfrannu at hidlo a dileu llygryddion o'r aer. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Gall gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy ailgylchu $CO_2$ a darparu effeithiau oeri ac amsugno dŵr glaw a all leihau risg llifogydd. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae'r polisi hwn yn cynnwys gwarchod a gwella cyrff dŵr. |
| AC6 – Asedau Materol | | |
| AC7 – Pridd | + | Mae'r polisi hwn yn cynnwys gwarchod a gwella adnoddau pridd. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | | |
| AC9 – Tirwedd | + | Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at warchod a gwella tirwedd Sir Gaerfyrddin. |
| AC10 – Poblogaeth | | |
| AC11 - Y Gymraeg | | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Bydd gwarchod a gwella asedau naturiol y Sir yn cefnogi'n uniongyrchol trefniadau hybu mynediad at dreftadaeth naturiol Sir Gaerfyrddin. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae gwarchod asedau naturiol Sir Gaerfyrddin yn cadw bioamrywiaeth ac amgylchedd naturiol unigryw y Sir, sy'n gwella twristiaeth a'r economi ymwelwyr. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Dim awgrymiadau | | |

| **PS 14: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol.** | | |
|---|---|---|
| Dylai cynigion datblygu warchod neu wella amgylchedd adeiledig a hanesyddol y sir, ei hasedau diwylliannol, trefweddol a thirweddol, a, lle bo'n briodol, eu lleoliad.<br><br>Disgwylir i gynigion hybu dyluniad o ansawdd da sy'n atgyfnerthu cymeriad lleol ac yn parchu a gwella'r priodweddau diwylliannol a hanesyddol ardal y cynllun. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | + | Mae gwarchod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion datblygiad cynaliadwy a llesiant. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | 0 | |
| AC3 – Ansawdd Aer | 0 | |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | 0 | |
| AC5 – Dŵr | 0 | |

| | | |
|---|---|---|
| AC6 – Asedau Materol | 0 | |
| AC7 – Pridd | 0 | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | ++ | Mae'r polisi hwn yn cefnogi'n uniongyrchol trefniadau gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a chynllun o ansawdd uchel Sir Gaerfyrddin. |
| AC9 – Tirwedd | + | Mae'r polisi hwn yn cefnogi'n uniongyrchol trefniadau gwarchod trefluniau a thirweddau'r Sir. |
| AC10 – Poblogaeth | 0 | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae gwarchod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn cynnal mynediad at dreftadaeth ddiwylliannol at ddibenion Llesiant. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae gwarchod asedau diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn cadw amrywiaeth a threftadaeth gyfoethog y Sir, sy'n gwella twristiaeth a'r economi ymwelwyr. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Dim awgrymiadau | | |

## PS 15: Newid yn yr Hinsawdd

Pan fo cynigion datblygu yn ymateb i, yn gwrthsefyll, yn addasu i ac yn lleihau achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, cânt eu cefnogi. Yn arbennig, caiff cynigion eu cefnogi pan fyddant yn:

a. Adlewyrchu egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn ceir modur preifat;
b. Osgoi, neu pan fo'n briodol, lleihau risg llifogydd, gan gynnwys ymgorffori mesurau fel systemau draenio trefol cynaliadwy a chynllun sy'n gwrthsefyll llifogydd;
c. Hyrwyddo fframwaith ynni trwy leihau'r galw am ynni, hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chynyddu cyflenwad ynni adnewyddadwy;
ch. Ymgorffori atebion cynllun ymateb priodol i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfeiriad, cynllun, dwysedd ac atebion carbon isel (gan gynnwys dulliau cynllunio ac adeiladu) a defnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy pan fo hynny'n ymarferol.

Caiff cynigion datblygu sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir risg llifogydd eu gwrthod oni bai eu bod cyd-fynd â darpariaethau Polisi cynllunio Cymru TAN 15.

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae'r polisi yn cefnogi'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd mewn datblygiadau yn y dyfodol ac yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Sir Gaerfyrddin. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | + | Bydd annog trafnidiaeth gynaliadwy yn arwain yn ei dro at effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer, sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig penodol yn y Sir ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Bydd annog trafnidiaeth gynaliadwy yn arwain yn ei dro at effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer trwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â cheir. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | ++ | Mae'r polisi hwn yn cefnogi prosesau lleihau allyriadau carbon yn ogystal â diogelu datblygiadau newydd ar gyfer risg llifogydd yn y dyfodol, gan gynnwys cyfeirio at TAN 15. Mae hefyd yn annog pob datblygiad newydd i fod yn effeithlon o ran ynni ac i ymgorffori cynllun sy'n gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. |
| AC5 – Dŵr | + | Mae annog ymgorfforiad systemau draenio trefol cynaliadwy mewn gwaith datblygu yn y dyfodol, yn ogystal â chynllun a all wrthsefyll llifogydd yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag AC5. |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r polisi hwn yn sicrhau y caiff trafnidiaeth gynaliadwy ei hystyried mewn datblygiadau newydd. |
| AC7 – Pridd | 0 | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | 0 | |
| AC9 – Tirwedd | 0 | |
| AC10 – Poblogaeth | 0 | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae lleihau'r angen i deithio yn cefnogi teithio llesol. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | ? | Ceir potensial i feithrin datblygiad sgiliau sy'n gysylltiedig â chynllun arloesol sy'n ymateb i'r hinsawdd. |
| AC14 – Yr Economi | 0 | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Awgrymir cyfeirio'n benodol at leihau allyriadau carbon yn y polisi.<br><br>**Awgrym o newid i'r polisi:**<br>**<u>Cyfrannu at leihau allyriadau carbon</u>** trwy adlewyrchu egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn ceir modur preifat | | |

| **PS 16: Dosbarthu Cynaliadwy – Hierarchaeth Aneddiadau** |
|---|
| **Caiff darpariaeth twf a datblygiad wedi'i chyfeirio'n uniongyrchol i leoliadau cynaliadwy yn unol â'r fframwaith gofodol canlynol.**<br><br>**Clwstwr 1**<br>Haen 1: Caerfyrddin<br>Haen 2: Pont-iets/Meinciau/Pont-henri, Cydweli, Glanyfferi<br><br>**Clwstwr 2:**<br>Haen 1: Llanelli<br>Haen 2: Porth Tywyn, Pen-bre, Fforest/Yr Hendy, Llangennech, Trimsaran/Carwe, Cydweli, Glanyfferi |

**Clwstwr 3**
Haen 1: Rhydaman/Cross Hands
Haen 2: Brynaman, Glanaman/Y Garnant, Pontyberem/Bancffosfelen

**Clwstwr 4**
Haen 1: Ddim yn berthnasol
Haen 2: Castellnewydd Emlyn, Llanybydder, Pencader

**Clwstwr 5**
Haen 1: Ddim yn berthnasol
Haen 2: Llanymddyfri, Llandeilo, Llangadog

**Clwstwr 6**
Haen 1: Ddim yn berthnasol
Haen 2: Sanclêr/Pwll-trap, Hendy-gwyn ar Daf, Talacharn

**Mae Haenau 3/4 ar gyfer pob clwstwr wedi'u rhestru'n llawn yn Atodiad 4.**

| Amcan AC | Arfarniad | Sylwadau |
|---|---|---|
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae rhannu'r fframwaith aneddiadau yn glystyrau yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy, ac yn caniatáu am ddiwallu anghenion yn lleol a chefnogi economi gynaliadwy yn ardaloedd trefol a gwledig y Sir. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae darparu twf a datblygiad mewn ardaloedd gwledig yn debygol o arwain at effaith ar safleoedd maes glas ac ardaloedd bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd. |
| AC3 – Ansawdd Aer | + | Mae cyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy â digon o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o leihau'r defnydd o geir preifat a'r llygredd aer cysylltiedig. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Mae cyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy â digon o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o leihau'r defnydd o geir preifat a'r allyriadau carbon cysylltiedig. |
| AC5 – Dŵr | ? | Mae angen gwybodaeth o Adolygiad o Ganiatadau Dŵr Cymru am gapasiti safleoedd penodol ar gyfer twf o ran tynnu dŵr a thrin dŵr gwastraff. |
| AC6 – Asedau Materol | ++ | Mae cyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy â digon o fynediad at wasanaethau a chyfleusterau yn debygol o ganiatáu i anghenion gael eu diwallu'n lleol. Mae hefyd yn debygol o arwain at y defnydd mwyaf o drafnidiaeth gyhoeddus. |
| AC7 – Pridd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC7. |

| | | |
|---|---|---|
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC9. |
| AC10 – Poblogaeth | ++ | Mae dosbarthu datblygiadau i leoliadau cynaliadwy mewn aneddiadau trefol a gwledig yn debygol o arwain at gymunedau bywiog a hyfyw, a fydd yn ei dro yn helpu i gadw a denu pobl ifanc. |
| AC11 - Y Gymraeg | +/- | Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag AC11. Gall twf a mewnfudo wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd. |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Gall twf sy'n cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau hamdden a gofal iechyd hawdd eu cyrraedd newydd. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Gall twf sy'n cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau, greu a/neu gadw cymunedau â dwysedd poblogaeth digon uchel i gefnogi cyfleusterau addysg a hyfforddiant hawdd eu cyrraedd newydd. |
| AC14 – Yr Economi | ++ | Mae twf sy'n cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau yn darparu cyfle i gefnogi economïau gwledig a threfol cynaliadwy ledled y sir. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | ++ | Mae twf sy'n cyd-fynd â'r fframwaith aneddiadau yn darparu cyfle ddiwallu anghenion yn lleol a hyrwyddo cynllun aneddiadau bywiog cynhwysol. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Dim awgrymiadau | | |

| **PS 17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd** |
|---|
| Mae angen i rwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, diogel, effeithlon, dibynadwy, hwylus ac integredig fod yn sylfaen i ddatblygiad cynaliadwy a chyflawniadwy. Felly mae'r Cynllun yn cyfrannu at gyflawni system drafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith cysylltiedig trwy:<br>a) Leihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn ceir modur preifat;<br>b) Mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol trwy gynyddu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau;<br>c) Cefnogi a gwella, lle bo hynny'n berthnasol, dulliau eraill o deithio heb fod yn gar modur, fel trafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio ac annog cynlluniau teithio) a theithio llesol trwy feicio a cherdded;<br>ch) Atgyfnerthu swyddogaeth aneddiadau yn unol â'r fframwaith aneddiadau;<br>d) Hyrwyddo defnydd effeithiol o'r rhwydwaith trafnidiaeth; |

| | | |
|---|---|---|
| dd) Gwella mynediad at gyflogaeth, cartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau mewn lleoliadau sydd ar gael trwy seilwaith trafnidiaeth priodol – gan gynnwys cynigion sy'n arwain at deithiau mawr;<br>e) Ymgorffori atebion cynllun a mynediad mewn datblygiadau i hybu hygyrchedd. Darparu llwybrau cerdded a beicio, gan gysylltu â rhwydweithiau teithio llesol a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd; a<br>f) Mabwysiadu dull cynaliadwy ar gyfer dyluniad, swyddogaeth a chynllun datblygiad newydd, gan gynnwys darparu lefelau priodol o leoedd parcio. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 -Datblygu Cynaliadwy | ++ | Mae'r polisi hwn yn sylfaen i'r gallu i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, trwy leihau'r defnydd o geir preifat a sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | + | Bydd defnyddio ceir preifat yn llai yn lleihau'r llygryddion aer cysylltiedig sy'n effeithio'n negyddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd mewn rhai ardaloedd o Sir Gaerfyrddin. |
| AC3 – Ansawdd Aer | ++ | Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar wella ansawdd aer. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | + | Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn lleihau'r defnydd o geir preifat ac allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig. |
| AC5 – Dŵr | 0 | |
| AC6 – Asedau Materol | ++ | Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn cynnwys teithio llesol fel cerdded a beicio. |
| AC7 – Pridd | 0 | |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | 0 | |
| AC9 – Tirwedd | 0 | |
| AC10 – Poblogaeth | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol trwy gynyddu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau. |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cynyddu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau iechyd a hamdden. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio cynyddu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau addysg a sgiliau. |
| AC14 – Yr Economi | 0 | |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | + | Mae'r polisi hwn yn ceisio mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol trwy gynyddu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau. |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Dim awgrymiadau | | |

| **PS 18: Adnoddau Mwynol** | | |
|---|---|---|
| Caiff adnoddau mwynol y Sir eu rheoli'n gynaliadwy trwy:<br><br>a) Sicrhau cyflenwad trwy gynnal banc tir digonol o gronfeydd agregedig a ganiateir (carreg caled a thywod a graean) trwy gydol cyfnod y Cynllun;<br>b) Annog defnydd effeithlon a phriodol o fwynau o ansawdd uchel a chyflawni'r potensial mwyaf posibl i ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau addas yn lle agregau cynradd;<br>c) Gwarchod ardaloedd lle ceir mwynau o bwys economaidd lle gellid eu gweithio yn y dyfodol i sicrhau na chaiff adnoddau o'r fath eu sterileiddio gan fathau eraill o ddatblygu;<br>ch) Defnyddio parthau clustogi i leihau'r gwrthdaro rhwng datblygiad mwynau a datblygiad sensitif;<br>d) Sicrhau adfywio priodol a all gyflawni buddion amgylcheddol a chymunedol penodol | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC1. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar nodweddion ecolegol sensitif. Mae gwaith mwynau hefyd yn debygol o fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd heb eu datblygu. |
| AC3 – Ansawdd Aer | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly bydd yn anodd lleihau'r pellteroedd y bydd yn rhaid eu teithio i gludo nwyddau. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly bydd yn anodd lleihau'r pellteroedd y bydd yn rhaid eu teithio i gludo nwyddau. |
| AC5 – Dŵr | 0 | |
| AC6 – Asedau Materol | ? | Mae'r polisi hwn yn diogelu cronfeydd agregau i sicrhau eu bod ar gael yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso prosesau tynnu adnoddau mwynol â defnyddio deunyddiau ailgylchu ac eilaidd. |
| AC7 – Pridd | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar adnoddau pridd penodol. |
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | - | Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar ardaloedd tirwedd sensitif. Mae gwaith mwynau hefyd yn debygol o fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd heb eu datblygu. |
| AC10 – Poblogaeth | 0 | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |

| | | |
|---|---|---|
| AC12 - Iechyd a Llesiant | 0 | |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae echdynnu agregau yn cefnogi datblygiad a thwf economaidd. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Awgrymir mwy yn y testun ategol i gefnogi pwynt (d) Sicrhau adfywio priodol a all gyflawni buddion amgylcheddol a chymunedol penodol.<br><br>Cyfeirio at fynediad at gysylltiadau trafnidiaeth fel rheilfyrdd/neu drafnidiaeth ddŵr yn hytrach na chludo ar y ffyrdd. | | |

| **PS 19: Rheoli Gwastraff** | | |
|---|---|---|
| Gwneir darpariaeth i hwyluso trefniadau rheoli gwastraff yn gynaliadwy trwy:<br><br>a) Ddyrannu tir priodol digonol i ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff;<br>b) Cefnogi cynigion ar gyfer rheoli gwastraff sy'n cynnwys rheoli gwastraff yn unol â'r drefn a nodir yn yr hierarchaeth wastraff;<br>c) Cefnogi cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd mewn adeiladau ar safleoedd diwydiannol presennol ac a ddyrannwyd sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff;<br>ch) Cydnabod efallai nad oes angen i fathau penodol o gyfleuster gwastraff fod wedi'u leoli y tu allan i derfynau datblygu aneddiadau;<br>d) Sicrhau y darperir ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy mewn pob datblygiad newydd, gan gynnwys sicrhau cyfleoedd i leihau faint o wastraff gaiff ei gynhyrchu. | | |
| **Amcan AC** | **Arfarniad** | **Sylwadau** |
| AC1 - Datblygu Cynaliadwy | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC1. |
| AC2 – Bioamrywiaeth | - | Gall unrhyw ddatblygiad neu drefniadau gwaredu gwastraff effeithio'n andwyol ar gynefinoedd naturiol. |
| AC3 – Ansawdd Aer | I | Mae safleoedd Ynni o Wastraff wedi'u rheoleiddio'n llym o ran llygryddion fel SO2, $NO_x$, HCl a CO. Yn y pen draw, mae effeithiau yn dibynnu ar y math o gyfleusterau rheoli gwastraff a'u lleoliad. |
| AC4 – Ffactorau Hinsoddol | I | Mae safleoedd Ynni o Wastraff wedi'u rheoleiddio'n llym o ran llygryddion fel SO2, $NO_x$, HCl a CO. Yn y pen draw, mae effeithiau yn dibynnu ar y math o gyfleusterau rheoli gwastraff a'u lleoliad. |
| AC5 – Dŵr | 0 | |
| AC6 – Asedau Materol | + | Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr hierarchaeth wastraff ac at hyrwyddo dulliau o ailgylchu a lleihau gwastraff. |
| AC7 – Pridd | - | Gall cael gwared ar wastraff, gan gynnwys safleoedd tirlenwi a gwaredu lludw o safleoedd Ynni o Wastraff effeithio'n andwyol ar adnoddau pridd. |

| | | |
|---|---|---|
| AC8 - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC8. |
| AC9 – Tirwedd | - | Gall cynigion ar gyfer rheoli gwastraff arwain at effaith negyddol ar dirwedd. |
| AC10 – Poblogaeth | 0 | |
| AC11 - Y Gymraeg | 0 | |
| AC12 - Iechyd a Llesiant | I | Mae'r dewis o safleoedd a sut y cânt eu datblygu yn effeithio ar faint y mae'r dewis hwn yn cyd-fynd ag AC12. |
| AC13 - Addysg a Sgiliau | 0 | |
| AC14 – Yr Economi | + | Mae safleoedd rheoli gwastraff newydd yn creu swyddi a chyfleoedd cyflogaeth lleol a hirdymor. |
| AC15 – Gwead Cymdeithas | 0 | |
| **Sylwadau ac Awgrymiadau'r AC** | | |
| Dylai'r polisi gyfeirio at faen prawf sy'n datgan na ddylai fod unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i gynigion rheoli gwastraff.<br>Awgrymir mwy yn y testun ategol ynglŷn â lleoliad cynaliadwy cyfleusterau rheoli gwastraff, yn arbennig pan fyddant wedi'u lleoli y tu allan i derfynau datblygu.<br>Cyfeirio at y ffaith y dylai cynllun adeiladau gydweddu i'r dirwedd o'i gwmpas.<br>Cynnwys cyfeiriad at yr egwyddor agosatrwydd i leihau'r pellter rhwng ble y caiff gwastraff ei gynhyrchu a'i reoli. | | |

## 6. Effeithiau Cyffredinol a Chamau Lliniaru

6.1.1 Mae Ffigwr 8 yn dod â'r arfarniadau blaenorol ym Mhennod 5 a 6 ynghyd i ddangos beth fyddai effeithiau cronol cyffredinol y Strategaeth a Ffefrir.

6.1.2 Yn gyffredinol fe fyddai gan y Strategaeth a Ffefrir fanteision sylweddol o ran darparu'r tai a thir cyflogaeth sydd ei angen i gynnal twf cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n perfformio'n dda o'i gymharu ag amcanion economaidd-gymdeithasol y fframwaith cynaliadwyedd, gyda dewisiadau strategol sy'n ceisio gwella mynediad i swyddi o ansawdd da, gwasanaethau a seilwaith ledled y Sir, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â rhywfaint o'r anghyfartaledd rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Bwriad y Strategaeth a Ffefrir hefyd yw gwella iechyd a llesiant ledled y Sir, gyda gwell tai, mynediad i fannau agored a chyfleusterau teithio llesol.

6.1.3 Fel y mae hi gydag unrhyw ddatblygiad, erys rhai effeithiau negyddol posibl, yn enwedig o ran bioamrywiaeth, ansawdd aer a ffactorau hinsoddol. Serch hynny, gyda chamau lliniaru addas, gellir lleihau'r effaith negyddol hwn.

6.1.4 Mae rhai camau lliniaru eisoes wedi eu gweithredu yn y Strategaeth o ganlyniad i'r AC, megis dethol dewis gofodol Hybrid a oedd yn ceisio cyfuno agweddau gorau'r dewisiadau a oedd yn bodoli. Mae'r Cynaliadwyedd hefyd wedi awgrymu rhai newidiadau i eiriad y Polisïau Strategol sy'n cael ei nodi ym Mhennod 6 yr adroddiad hwn. Roedd Tabl 8 yn cynnig camau i osgoi neu i leihau effeithiau cynllun cyfan ychwanegol y Strategaeth a Ffefrir. Mae hefyd yn awgrymu sut i wella manteision y Strategaeth a Ffefrir yn ogystal ag ymdrin â rhywfaint o ansicrwydd a allai fod yn aros.

**Tabl 7 Effeithiau'r Strategaeth a Ffefrir sy'n Weddill a'r Lliniaru a Awgrymir.**

| Effeithiau Sylweddol y Strategaeth a Ffefrir | Awgrymiadau ar gyfer osgoi neu liniaru effeithiau negyddol neu ar gyfer gwella rhai cadarnhaol | Ymateb y CDLl |
|---|---|---|
| Mae capasiti seilwaith dŵr i hwyluso twf yn aneglur | Cadarnhau gyda Dŵr Cymru y bydd seilwaith cyflenwi dŵr a thrin dŵr gwastraff yn ddigonol ar gyfer maint y datblygiad a gynigir | |
| Y potensial ar gyfer datblygu yn Llanelli i'w gyfeirio at ardaloedd ym mharthau llifogydd C1/C2 | Ystyried datblygiad tystiolaeth. | |
| Y potensial ar gyfer cynyddu datblygu yn Llanelli a allai gynyddu pwysau ar seilwaith carthffosiaeth a allai fod â goblygiadau ar gyfer Safle Morol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. | Adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) presennol rhwng Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Abertawe, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ei fod dal yn addas i'r diben | |

| | | |
|---|---|---|
| | Sicrhau cynnwys SDCau mewn cynigion datblygu newydd pan fo'n ymarferol gyda pholisi penodol, yn cynnwys gofyniad i ddangos eu bod yn unol ag adran 8 TAN 15, yn ogystal â'r canllawiau cynllunio atodol (SPG) presennol ar gyfer Creu Lle a Dylunio. | |
| Llygredd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr yn debygol o gynyddu gyda thwf rhagamcanol dros gyfnod y cynllun. | Sicrhau bod dyraniadau safleoedd wedi eu lleoli'n gynaliadwy gyda mynediad digonol i drafnidiaeth gyhoeddus. | |
| | Polisi penodol yn ymwneud â gwella ansawdd aer yn rhestru'n fanwl sut gall ansawdd aer yn arbennig o ran $NO_2$ a'r tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA's) presennol gael ei gadw a'i wella o dan y cynllun newydd. | |
| | Dylai polisi penodol ofyn hefyd am gadw, diogelu a gwella rhwydwaith o nodweddion tirwedd sy'n cyfrannu at buro aer megis coed, llystyfiant naturiol neu seilwaith gwyrdd arall. | |
| | Y gofyn i ddatblygiad newydd i ystyried cynlluniau gweithredu'r Ardal Rheoli Ansawdd yn ogystal â Strategaeth Ansawdd Aer ac amcanion y DU, a dylai unrhyw gynigion a allai effeithio'n niweidiol ar safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth Cenedlaethol ac/neu Ryngwladol sicrhau bod camau lliniaru yn cael eu gweithredu. | |
| Yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad | Sicrhau polisi penodol sy'n adlewyrchu Deddf yr Amgylchedd o ran diogelu a gwella bioamrywiaeth. | |
| Posibiliadau eraill ar gyfer gwella buddion neu leihau effeithiau | Awgrymu cynllun seilwaith gwyrdd sy'n cydgysylltu diogelu a gwella seilwaith gwyrdd drwy'r sir o ran datblygu. | |

## Ffigwr 7 Crynodeb o Arfarniad Cynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir

| Amcan yr AC | AC1 Datblygu Cynaliadwy | AC2 Bioamrywiaeth | AC3 Ansawdd Aer | AC4 Ffactorau Hinsoddol | AC5 Dŵr | AC6 –Asedau Materol | AC7 Pridd | AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac | AC9 Tirwedd | AC10 Poblogaeth | AC11 Y Gymraeg | AC12 Iechyd a llesiant | AC13 Addysg a Sgiliau | AC14 Yr Economi | AC15 Gwead Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth | + | + | ? | ? | ? | + | ? | ? | ? | + | | + | + | + | + |
| Yr Amcanion | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | + | + | + | + | ++ |
| Dewis Twf 4 | + | +/- | +/- | +/- | ? | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| Dewis Gofodol Hybrid | + | I | + | +/- | + | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| Polisïau Strategol | | | | | | | | | | | | | | | |
| PS1 | + | - | - | - | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| PS2 | + | I | +/- | +/- | I | | I | I | + | + | | | | ++ | |
| PS3 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| PS4 | + | | | | | | | | | ++ | + | + | + | + | ++ |
| PS5 | + | - | +/- | +/- | ? | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| PS6 | + | - | +/- | + | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | | + | ++ | + |
| PS7 | + | | | | | | | + | | + | ++ | | + | + | ++ |
| PS8 | ++ | +/- | + | + | + | + | - | - | - | ++ | | + | + | + | ++ |
| PS9 | + | I | | | ? | | I | I | I | + | | | | | + |
| PS10 | + | I | +/- | +/- | I | + | I | I | I | + | +/- | ++ | + | ++ | + |
| PS11 | ++ | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | | + | | + | + |
| PS12 | + | - | + | + | - | + | - | I | - | + | +/- | + | + | ++ | ++ |
| PS13 | + | ++ | + | + | + | | + | | + | | | + | | + | |
| PS14 | + | | | | | | | ++ | + | | | + | | + | |
| PS15 | ++ | + | + | ++ | + | + | | | | | | + | ? | | |
| PS16 | ++ | - | + | + | ? | ++ | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | ++ |
| PS17 | ++ | + | ++ | + | | ++ | | | | + | | + | + | | I+ |

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PS18 | I | - | - | - | | ? | - | I | - | | | | | + | |
| PS19 | I | - | I | I | | + | - | I | - | | | I | | + | |

## 7. Fframwaith Monitro Arfarnu Cynaliadwyedd

7.1.1 Bydd Cynllun Adnau'r CDLl yn gosod fframwaith monitro a fydd yn asesu pa mor effeithiol yw perfformiad y CDLl a hefyd y goblygiadau i'r AC. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i roi gwybodaeth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol pan fydd yn ystyried yr angen i adolygu a diwygio'r CDLl. Adroddir a chyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl.

7.1.2 Yn ystod cyfnod y Strategaeth a Ffefrir ym mhroses y CDLl, dim ond mewn cyfnod strategol y mae'r cynigion a'r polisïau ac felly mae'n anodd gosod fframwaith monitro manwl. Bydd fframwaith monitro'r AC yn cael ei gwblhau yng nghyfnod E y broses AC ac mae felly ar hyn o bryd yn esblygu ac yn agored i newidiadau yn sgil polisïau yn amlygu eu hunain ar lefel leol a chenedlaethol ac ymgynghorol.

7.1.3 Amlinellir Fframwaith Monitro AC yn Nhabl 8 isod. Mae ffynonellau pob un o'r setiau data y cyfeirir atynt wedi eu rhestru yn Atodiad 2.

## Tabl 8 Fframwaith Drafft Monitro Cynaliadwyedd

| Testun AC | Amcan yr AC | Dangosydd Monitro | Targed/Tuedd |
|---|---|---|---|
| AC1 Datblygu Cynaliadwy | 1-1 Byw o fewn terfynau amgylcheddol | Ôl troed Ecolegol Cymru | Yn gostwng |
| | 1-2 Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn | | |
| | 1-3 Cyflawni economi gynaliadwy | Wedi ei fonitro drwy AC14 | |
| | 1-4 Dileu rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd i newid ymddygiad | | |
| AC2 Bioamrywiaeth | 2-1 Hybu cydnerthedd ecosystemau drwy osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir ac annog cysylltedd. | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd sydd ag effaith niweidiol ar:<br>a) uniondeb safle Natura 2000<br>b) uniondeb safle dynodedig ar gyfer gwarchod natur<br>c) statws cadwraeth ffafriol rhywogaeth a warchodir gan Ewrop | Ni chaniatawyd unrhyw gais sydd ag effaith niweidiol ar a), b) neu c) |
| | 2-2 Gwarchod, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt priodol a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd trefol a gwledig | | |
| AC3 Ansawdd Aer | 3-1 Cynnal a gwell lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU | Dangosyddion Ansawdd Aer (fesul Awdurdod Lleol). Crynodiadau cyfartalog a bwysolwyd gan y boblogaeth a'u modelu. | Yn gostwng |
| | | Nifer y toriadau i amcanion Ansawdd Aer Rhif 2 UE/DU yn Sir Gaerfyrddin | Yn gostwng |
| | 3-2 Lleihau lefelau osôn ar lefel y ddaear | | |
| | 3-3 Lleihau'r angen i deithio, trwy leoli datblygiadau newydd mewn mannau addas a darparu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus | Cyfanswm y traffig ar briffyrdd (fesul Awdurdod Lleol)<br>• Ceir | Yn gostwng |
| AC4 Ffactorau Hinsoddol | 4-1 Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | Amcangyfrif o allyriadau CO2 (fesul Awdurdod Lleol) | Yn gostwng |
| | 4-2 Lleihau'r perygl o effaith newid hinsawdd ar Sir Gaerfyrddin drwy wneud lle i ddŵr, cilio arfordirol a phatrymau dosbarthu cynefin symudol | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 4-3 Annog pob datblygiad newydd i fod yn gydnerth i wrthsefyll yr hinsawdd | | |
| | 4-4 Annog pobl i arbed ynni a gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni | | |
| | 4-5 Lleihau'r defnydd o ynni a hybu ffynonellau o ynni adnewyddadwy. | a) Nifer, a<br>b) Chapasiti gosod datblygiadau technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel a ganiateir. | Yn cynyddu |
| **AC5 Dŵr** | 5-1 Sicrhau bod ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac ardaloedd arfordirol yn cael ei wella a sicrhau bod ansawdd hydroforffoleg cyrff dŵr mor uchel â phosibl. | Dosbarthiad blynyddol Ansawdd Dŵr Ymdrochi ar gyfer safleoedd ymdrochi<br>a) Pen-bre<br>b) Pentywyn<br>yn Sir Gaerfyrddin | Cynnal dosbarthiad ansawdd dŵr rhagorol |
| | | % cyrff dŵr â statws dosbarthu 'da' neu uwch ar gyfer<br>a) Statws ecolegol<br>b) Statws cemegol | a) Yn cynyddu<br>b) Yn cynyddu |
| | 5-2 Diogelu a chynnal adnoddau dŵr yn y gadwyn gyflenwi gyhoeddus a sicrhau bod digon o ddŵr ar gael ar gyfer yr amgylchedd ar hyd y flwyddyn | Argaeledd Adnoddau Dŵr Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Bae Caerfyrddin | Dim gostyngiad |
| | 5-3 Lleihau llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol a gwledig. | Canran y safleoedd a ganiatawyd sy'n cynnwys Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy | Yn cynyddu |
| | 5-4 Cynyddu effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a datblygiadau wedi eu hadnewyddu | Nifer y tai a adeiladwyd sy'n cyflawni trothwy effeithlonrwydd dŵr a osodwyd gan y llywodraeth yn Rhan G2.36(1) o'r Rheoliadau Adeiladu. | Yn cynyddu |
| | 5-5 Gwneud lle ar gyfer dŵr, a lleihau a chyfyngu cymaint â phosibl ar y perygl o lifogydd | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) mewn perygl canolig neu fawr o lifogydd o afonydd a'r môr | |
| **AC6 Asedau Materol** | 6-1 Cyfyngu gymaint â phosibl ar y defnydd o adnoddau cyfyngedig a hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd o ran | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | adnoddau a defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu | | |
| | 6-2 Hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff, sef arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu | % Ailddefnyddio gwastraff /ailgylchu/compostio (fesul Awdurdod Lleol) | Yn cynyddu |
| | 6-3 Annog diwallu anghenion yn lleol | | |
| | 6-4 Hyrwyddo defnydd o adnoddau mwy cynaliadwy | | |
| | 6-5 Gwella integreiddiad gwahanol ddulliau o drafnidiaeth | Canran cyfanswm y traffig<br>a) Beiciau<br>b) Bysiau a Choetsis<br>c) Ceir | <br>a) Yn cynyddu<br>b) Yn cynyddu<br>c) Yn gostwng |
| | 6-6 Hyrwyddo defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy (e.e. beicio a cherdded) | Cyfanswm Cyfrif Blynyddol Beiciau (Teithio Llesol Sir Gaerfyrddin) | Yn cynyddu |
| **AC7 - Pridd** | 7-1 Hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu tir halogedig | Arwynebedd tir halogedig | Yn gostwng |
| | 7-2 Osgoi colli pridd i arwynebau anathraidd a chyfyngu cymaint â phosibl ar erydiad pridd | Canran y datblygiadau a ganiatawyd sy’n cynnwys Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy | Yn gostwng |
| | 7-3 Lleihau allyriadau SO7 ac NOx a llygredd nitradau o fyd amaeth | | |
| **AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol** | 8-1 Diogelu asedau hanesyddol a diwylliannol a nodweddion unigryw lleol rhag effeithiau negyddol datblygu/adfywio a chefnogi gwelliannau iddynt | Nifer y datblygiadau a ganiatawyd sy’n cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd adeiledig neu o ddiddordeb hanesyddol a’u lleoliadau | Ni chaniatawyd datblygiad a fyddai’n cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd adeiledig neu o ddiddordeb hanesyddol a’u lleoliadau |
| | 8-2 Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r cymeriad lleol a nodweddion unigryw | Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio | Er gwybodaeth |
| **AC9 - Tirwedd** | 9-1 Diogelu'r dirwedd/trefwedd rhag effeithiau negyddol newid defnydd tir a'u gwella | | |
| | 9-2 Rhoi ystyriaeth i leoliadau sensitif wrth leoli datblygiadau a hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel | Nifer y datblygiadau a ganiatawyd ag effaith niweidiol ar Ardal Tirwedd Arbennig | Ni chaniatawyd datblygiadau ag effaith niweidiol ar Ardal Tirwedd Arbennig |
| | 9-3 Annog defnydd priodol o dir adfeiliedig yn y dyfodol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AC10 - Poblogaeth | 10-1 Sicrhau stoc addas, fforddiadwy o dai, gyda mynediad i gyfleusterau addysg a chyflogaeth | Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir | |
| | 10-2 Helpu i gadw pobl iau | % pobl<br>a) 15-29 oed<br>b) 30 – 44 oed<br>yn byw yn Sir Gaerfyrddin | Yn cynyddu |
| | 10-3 Hyrwyddo cynnwys grwpiau dan anfantais a lleiafrifoedd yn y gymdeithas | Canran y bobl sy'n cytuno<br>a) eu bod yn perthyn i'r ardal;<br>b) bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda<br>c) bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | Yn cynyddu |
| AC11 – Y Gymraeg | 11-1 Annog twf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant | % y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (fesul Awdurdod Lleol) | Yn cynyddu |
| AC12 Iechyd a Llesiant | 12-1 Creu cyfleoedd i bobl fyw bywydau actif ac iach trwy gynllunio gweithgareddau | Canran yr oedolion a gofnodir sy'n<br>a) rhy drwm<br>b) ordew<br>(fesul Bwrdd Iechyd) | Yn gostwng |
| | 12-2 Darparu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau iechyd a hamdden | Canran y bobl sy'n fodlon/fodlon iawn eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau y maent eu hangen | Yn cynyddu |
| | 12-3 Annog cerdded neu feicio fel dull cludiant amgen | Cyfanswm Cyfrif Blynyddol Beiciau (Teithio Llesol Sir Gaerfyrddin) | Yn cynyddu |
| | | Canran y bobl yn yr arolwg-modd o deithio i'r gwaith<br>(a) Cerdded<br>(b) Ar feic<br>(c) Yn y car | (a) Yn cynyddu<br>(b) Yn cynyddu<br>(c) Yn gostwng |
| | 12-4 Hybu mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru | Maint y mannau agored a gollwyd oherwydd datblygiadau (hectarau) | Ni chollwyd mannau agored oherwydd datblygiadau |
| | | Canran y bobl sy'n bresennol neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf tair gwaith y flwyddyn. | Yn cynyddu |
| AC13 - Addys | 13-1 Darparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant hygyrch sy'n diwallu | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | anghenion yr ardal yn y dyfodol | | |
| | 13-2 Cynyddu lefelau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd | | |
| | 13-3 Hybu dysgu gydol oes | Lefel y cymhwyster uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio yng Nghymru (fesul Awdurdod Lleol). | |
| **AC14 – Yr Economi** | 14-1 Hybu twf economaidd cynaliadwy | Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen (gwerth De-orllewin Cymru) | Yn cynyddu |
| | 14-2 Darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da i bob rhan o'r boblogaeth | Canran y boblogaeth sydd mewn cyflogaeth rhan amser ac amser llawn neu sy'n hunangyflogedig | Yn cynyddu |
| | | Maint y tir yn ymwneud â chyflogaeth a gollwyd oherwydd defnydd nad yw'n ymwneud â chyflogaeth | Ni chollwyd tir yn ymwneud â chyflogaeth |
| | 14-3 Hybu busnesau cynaliadwy yng Nghymru | Nifer y busnesau gweithredol yn Sir Gaerfyrddin | Yn cynyddu |
| | | Nifer y busnesau gweithredol sydd wedi cau yn Sir Gaerfyrddin | Yn gostwng |
| **AC15 Gwead Cymdeithas** | 15-1 Gwella diogelwch a diogeledd pobl ac eiddo | Cyfartaledd lefelau troseddu blynyddol (Sir Gaerfyrddin) | Yn gostwng |
| | | Y tebygolrwydd o deimlo'n ddiogel (fesul awdurdod lleol) | Yn cynyddu |
| | 15-2 Hyrwyddo dyluniad aneddiadau sy'n gwella gwead cymdeithas trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol | Y tebygolrwydd o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (fesul awdurdod lleol) | Yn cynyddu |
| | | Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda; a bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | Yn cynyddu |
| | 15-3 Hyrwyddo cyflwyno tai fforddiadwy | Cyfran o dai fforddiadwy fel canran o gartrefi newydd a ddarparwyd | |
| | 15-4 Gwella hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais | Canran y bobl sy'n fodlon eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau y maent eu hangen | Yn cynyddu |

# 8. Y Casgliadau a'r Camau Nesaf

## 8.1 Y Casgliadau

8.1.1 Mae'r AC wedi disgrifio a gwerthuso effeithiau sylweddol tebygol Strategaeth a Ffefrir y CDLl ac mae wedi ei lunio yn unol â Rheoliad 12(5).

8.1.2 Egwyddor graidd y strategaeth a ffefrir yw cyflawni datblygu cynaliadwy dros oes y CDLl, drwy gefnogi twf preswyl digonol sy'n diwallu anghenion y Sir; caniatáu datblygiad sy'n hybu twf economaidd; sicrhau bod seilwaith digonol i ddiwallu anghenion y gymuned a gwarchod, a lle mae'n bosibl, cyfoethogi amgylchedd naturiol y Sir.

8.1.3 Cydnabyddir bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd wedi bod yn strategol oherwydd natur y Strategaeth a Ffefrir. Serch hynny mae'n bwysig bod Cynllun Adnau'r CDLl yn ymdrin yn ddigonol ag anghydfodau a gododd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'u lliniaru. Dylid nodi'n benodol:

- Bioamrywiaeth a cholli cynefin
- Cynnydd mewn trafnidiaeth a'r effeithiau ar ansawdd aer a ddaw yn ei sgil
- Effeithiau ar amgylchedd dŵr yn unol â gofynion y WFD a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

## 8.2 Cyfnodau Nesaf y Broses Arfarnu Cynaliadwyedd

8.2.1 Bydd yr adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd hwn ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â Strategaeth a Ffefrir y CDLl diwygiedig am gyfnod o 8 o wythnosau. Mae crynodeb annhechnegol ar gael hefyd yn ogystal â'r fersiwn llawn hwn o'r ddogfen. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael o Adain Blaen-gynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin neu gellir eu gweld ar wefan yr Awdurdod: www.sirgar.llyw.cymru

8.2.2 Gellir archwilio adroddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor ac yn y Swyddfeydd Cynllunio yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo a llyfrgelloedd cyhoeddus.

8.2.3 Gellir ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar-lein yn www.sirgar.llyw.cymru neu gellir lawrlwytho ffurflenni o'r wefan ac maen nhw ar gael hefyd yn y lleoliadau uchod neu drwy gysylltu â'r Adain Blaen-gynllunio yn uniongyrchol.

8.2.4 Dylech anfon eich sylwadau ynghylch Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ysgrifenedig at:

Yr Adain Blaen-gynllunio,
Adran yr Amgylchedd,
7/8 Heol Spilman,
Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin,
SA31 1JT

Neu drwy e-bost: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk
Ar-lein: www.sirgar.llyw.cymru

# Atodiadau

## Atodiad 1 Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd

| Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Benderfyniadau |
|---|---|
| **1 Datblygu Cynaliadwy** | |
| 1-1 Byw o fewn terfynau amgylcheddol<br>1 – 2 Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn<br>1 – 3 Cyflawni economi gynaliadwy<br>1 – 4 Dileu rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd i newid ymddygiad | A fydd y CDLl yn cyfrannu at leihau'r adnoddau a ddefnyddir?<br>A fydd y CDLl yn annog y gwaith o ddiwallu anghenion yn lleol?<br>A fydd y CDLl yn annog unigolion, cwmnïau a busnesau i wneud dewisiadau mwy cynaliadwy? |
| **2 Bioamrywiaeth** | |
| 2-1 Hybu cydnerthedd ecosystemau drwy osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir ac annog cysylltedd.<br>2-2 Gwarchod, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt priodol a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd trefol a gwledig | A oes unrhyw safleoedd cadwraeth natur dynodedig neu anstatudol y gallai'r CDLl effeithio arnynt?<br>A oes unrhyw dystiolaeth y gellid effeithio ar rywogaethau a warchodir?<br>A fydd cyfleoedd i gynyddu neu adennill adnoddau bywyd gwyllt?<br>A fydd cyfleoedd i greu cynefinoedd newydd? |
| **3 Ansawdd Aer** | |
| 3-1 Cynnal a gwell lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU<br>3-2 Lleihau lefelau osôn ar lefel y ddaear<br>3-3 Lleihau'r angen i deithio, trwy leoli datblygiadau newydd mewn mannau addas a darparu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus | A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y llinell sylfaen bresennol o ran ansawdd aer?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu neu'n lleihau'r allyriadau llygryddion aer o ddatblygiadau?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu neu'n lleihau'r allyriadau llygryddion aer o drafnidiaeth? |
| **4 Ffactorau Hinsoddol** | |
| 4-1 Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr<br>4-2 Lleihau'r perygl o effaith newid hinsawdd ar Sir Gaerfyrddin drwy wneud lle i ddŵr, cilio arfordirol a phatrymau dosbarthu cynefin symudol<br>4-3 Annog pob datblygiad newydd i allu gwrthsefyll yr hinsawdd<br>4-4 Annog pobl i arbed ynni a gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni.<br>4-5 Lleihau'r defnydd o ynni a hybu ffynonellau o ynni adnewyddadwy. | A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar yr allyriadau carbon deuocsid o ddatblygiadau newydd yn y Sir?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at leihau'r allyriadau carbon deuocsid yn sgil ffyrdd traddodiadol o gynhyrchu ynni? |

| | |
|---|---|
| | A fydd y CDLl yn golygu bod mwy o drigolion yn wynebu perygl llifogydd?<br>A yw'r datblygiadau newydd yn medru gwrthsefyll yr hinsawdd?<br>A yw'r CDLl yn gadael lle i addasu cynefinoedd a dŵr llifogydd arfordirol ac afonol? |
| **5 Dŵr** | |
| 5-1 Sicrhau bod ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac ardaloedd arfordirol yn cael ei wella a sicrhau bod ansawdd hydroforffoleg cyrff dŵr mor uchel â phosibl.<br>5-2 Diogelu a chynnal adnoddau dŵr yn y gadwyn gyflenwi gyhoeddus a sicrhau bod digon o ddŵr ar gael ar gyfer yr amgylchedd ar hyd y flwyddyn.<br>5-3 Lleihau llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol a gwledig.<br>5-4 Cynyddu effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a datblygiadau wedi eu hadnewyddu<br>5-5 Gwneud lle ar gyfer dŵr, a lleihau a chyfyngu cymaint â phosibl ar y perygl o lifogydd | A fydd achosion o ollwng llygryddion i ddŵr yn cynyddu neu'n lleihau?<br>A fyddai yna gynnydd neu leihad yn y dŵr a ddefnyddir yn sgil datblygu?<br>A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ansawdd dŵr a hydroforffoleg?<br>A fydd yn cyfrannu at gynyddu'r perygl o lifogydd?<br>A fydd yn cyfrannu at leihau'r perygl o lifogydd? |
| **6 Asedau Materol** | |
| 6-1 Cyfyngu gymaint â phosibl ar y defnydd o adnoddau cyfyngedig a hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau a defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu.<br>6-2 Hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff, sef arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu.<br>6-3 Annog diwallu anghenion yn lleol.<br>6-4 Hyrwyddo defnydd o adnoddau mwy cynaliadwy.<br>6-5 Gwella integreiddiad gwahanol ddulliau trafnidiaeth.<br>6-6 Hyrwyddo defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy (e.e. beicio a cherdded). | A fydd y CDLl yn cyfrannu at fwy o ailgylchu a mwy o effeithlonrwydd adnoddau?<br>A fydd y CDLl yn sicrhau bod modd diwallu anghenion yn lleol?<br>A fydd y CDLl yn caniatáu i bobl wneud dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy? |
| **7 Pridd** | |
| 7-1 Hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu tir halogedig<br>7-2 Osgoi colli pridd i arwynebau anathraidd a chyfyngu cymaint â phosibl ar erydiad pridd.<br>7-3 Lleihau allyriadau SO7 ac NOX a llygredd nitradau o fyd amaeth. | A fydd y CDLl yn cynyddu neu'n lleihau'r tir a halogir?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu'r adnoddau pridd o ansawdd da, neu'n arwain at eu colli?<br>A fydd y CDLl yn gwella neu'n diraddio ansawdd y pridd?<br>A fydd y CDLl yn cynnwys datblygiad ar dir a ddefnyddiwyd yn flaenorol? |
| **8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol** | |
| 8-1 Diogelu asedau hanesyddol a diwylliannol a nodweddion unigryw lleol rhag effeithiau negyddol datblygu/adfywio a chefnogi gwelliannau iddynt<br>8-2 Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r cymeriad lleol a nodweddion unigryw | Oes yna unrhyw safleoedd o bwysigrwydd archeolegol y gallai'r CDLl effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol arnynt? |

| | |
|---|---|
| | Oes yna unrhyw dirweddau hanesyddol y gallai'r CDLl effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol arnynt?<br>Oes yna unrhyw adeiladau rhestredig y gallai'r CDLl effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol arnynt? |
| **9 Tirwedd** | |
| 9-1 Diogelu'r dirwedd/trefwedd rhag effeithiau negyddol newid defnydd tir a'u gwella<br>9-2 Rhoi ystyriaeth i leoliadau sensitif wrth leoli datblygiadau a hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel<br>9-3 Annog defnydd priodol o dir adfeiliedig yn y dyfodol | A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar dirweddau neu drefweddau?<br>A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar dirweddau dynodedig?<br>A fydd y CDLl yn annog ailddatblygu tir a ddatblygwyd o'r blaen? |
| **10 Poblogaeth** | |
| 10-1 Sicrhau stoc addas, fforddiadwy o dai, gyda mynediad i gyfleusterau addysg a chyflogaeth<br>10-2 Helpu i gadw pobl iau<br>10-3 Hyrwyddo cynnwys grwpiau dan anfantais a lleiafrifoedd yn y gymdeithas | A fydd y CDLl yn cynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at gadw pobl ifanc yn y sir?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol? |
| **11 Yr Iaith Gymraeg** | |
| 11-1 Annog twf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant | A fydd y CDLl yn annog twf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant? |
| **12 Iechyd a Llesiant** | |
| 12-1 Creu cyfleoedd i bobl fyw bywydau actif ac iach trwy gynllunio gweithgareddau<br>12-2 Darparu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau iechyd a hamdden<br>12-3 Annog cerdded neu feicio fel dull cludiant amgen<br>12-4 Hybu mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru | A fydd effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd dynol?<br>A fydd mynediad i wasanaethau iechyd a chyfleusterau hamdden gan gynnwys nodweddion treftadaeth yn cynyddu?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu'r cyfleoedd i gerdded a beicio? |
| **13 Addysg a Sgiliau** | |
| 13-1 Darparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant hygyrch sy'n diwallu anghenion yr ardal yn y dyfodol<br>13-2 Cynyddu lefelau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd<br>13-3 Hybu dysgu gydol oes | A fydd y CDLl yn cyfrannu at gynyddu lefelau cyrhaeddiad pobl ifanc?<br>A fydd y CDLl yn hyrwyddo mynediad i gyfleusterau addysg ar gyfer holl aelodau'r gymuned? |

| | |
|---|---|
| | A fydd y CDLl yn cyfrannu at wella lefelau llythrennedd a rhifedd? |
| **14 Yr Economi** | |
| 14-1 Hybu twf economaidd cynaliadwy<br>14-2 Darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da i bob rhan o'r boblogaeth<br>14-3 Hybu busnesau cynaliadwy yng Nghymru | A fydd yna unrhyw effeithiau economaidd niweidiol ar dir ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflogaeth?<br>A fydd yna effaith gadarnhaol neu negyddol ar y cyfleoedd am swyddi yn sgil y CDLl? |
| **15 Gwead Cymdeithas** | |
| 15-1 Gwella diogelwch a diogeledd pobl ac eiddo<br>15-2 Hyrwyddo dyluniad aneddiadau sy'n gwella gwead cymdeithas trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol<br>15-3 Hyrwyddo cyflwyno tai fforddiadwy<br>15-4 Gwella hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais. | A fydd y CDLl yn cyfrannu at wneud tai yn fwy fforddiadwy?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at greu aneddiadau sy'n ddiogel ac yn safleoedd trefol o ansawdd uchel?<br>A fydd y CDLl yn cyfrannu at greu cartrefi iachach?<br>A fydd y CDLl yn cynyddu mynediad i wasanaethau a chyfleusterau gymaint â phosibl ar gyfer holl aelodau'r gymuned trwy ddulliau trafnidiaeth gwahanol? |

## Atodiad 2 Fframwaith Monitro Cynaliadwyedd – Ffynonellau Data

| Testun AC | Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Dangosydd Monitro | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|
| 1 Datblygu Cynaliadwy | 1-1 Byw o fewn terfynau amgylcheddol | Ôl Troed Ecolegol Cymru | Dangosydd Cenedlaethol 14 Cenedlaethau'r Dyfodol https://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/ecological-footprint-of-wales-report/?skip=1&lang=cy |
| | 1-2 Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn | | |
| | 1-3 Cyflawni economi gynaliadwy | Wedi ei fonitro drwy AC14 | |
| | 1-4 Dileu rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd i newid ymddygiad | | |
| 2 - Bioamrywiaeth | 2-1 Osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir ac annog y gwaith o'u gwella<br>2-2 Gwarchod, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt priodol a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd trefol a gwledig | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd sydd ag effaith niweidiol ar:<br>a) uniondeb safle Natura 2000<br>b) uniondeb safle dynodedig ar gyfer gwarchod natur<br>c) statws cadwraeth ffafriol rhywogaeth a warchodir gan Ewrop | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| 3 – Ansawdd Aer | 3-1 Cynnal/lleihau lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU | Dangosyddion Ansawdd Aer (fesul Awdurdod Lleol). Crynodiadau cyfartalog a bwysolwyd gan y boblogaeth a'u modelu. | Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 4 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Air-Quality/airqualityindicators-by-localauthority |
| | | Nifer y toriadau i amcanion Ansawdd Aer UE/DU yn Sir Gaerfyrddin. | Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) yn cael ei fonitro gan Iechyd Cyhoeddus Cyngor Sir Gaerfyrddin. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 3-2 Lleihau lefelau osôn ar lefel y ddaear | | |
| | 3-3 Lleihau'r angen i deithio, trwy leoli datblygiadau newydd mewn mannau addas a darparu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus | Cyfanswm y traffig ar briffyrdd, mewn miloedd o filltiroedd cerbyd – ceir (fesul awdurdod lleol) | Data cyfrif traffig Yr Adran Drafnidiaeth (DfT) (fesul Awdurdod Lleol)<br><br>https://www.dft.gov.uk/traffic-counts/area.php?region=Wales&la=Carmarthenshire |
| 4 – Ffactorau Hinsoddol | 4-1 Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | Lefelau blynyddol $CO_2$ (fesul Awdurdod Lleol) | Ystadegau cenedlaethol allyriadau $CO_2$ awdurdod lleol a rhanbarthol y DU: https://www.gov.uk/government/collections/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics#2018 |
| | 4-2 Lleihau'r perygl o effaith newid hinsawdd ar Sir Gaerfyrddin drwy wneud lle i ddŵr, cilio arfordirol a phatrymau dosbarthu cynefin symudol | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| | 4-3 Annog pob datblygiad newydd i allu gwrthsefyll yr hinsawdd | | |
| | 4-4 Annog pobl i arbed ynni a gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni | | |
| | 4-5 Lleihau'r defnydd o ynni a hybu ffynonellau o ynni adnewyddadwy. | a) Nifer, a<br>b) Chapasiti gosod datblygiadau technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel a ganiateir. | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| 5 - Dŵr | 5-1 Sicrhau bod ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac ardaloedd arfordirol yn cael ei wella a sicrhau bod | Dosbarthiad blynyddol Ansawdd Dŵr Ymdrochi ar gyfer safleoedd ymdrochi yn Sir Gaerfyrddin | Data Ansawdd Dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd<br>https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/iechyd-yr-amgylchedd/d%C5%B5r-ymdrochi/#.W_KnFlNzyUk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ansawdd hydroforffoleg cyrff dŵr mor uchel â phosibl. | % cyrff dŵr â statws dosbarthu 'da' neu uwch ar gyfer<br>a) Statws ecolegol<br>b) Statws cemegol | Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr<br>http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/ |
| | 5-2 Diogelu a chynnal adnoddau dŵr yn y gadwyn gyflenwi gyhoeddus a sicrhau bod digon o ddŵr ar gael ar gyfer yr amgylchedd ar hyd y flwyddyn | Argaeledd Adnoddau Dŵr Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Bae Caerfyrddin | Cynlluniau rheoli tynnu dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru<br>https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-available-in-our-catchments/?lang=cy |
| | 5-3 Lleihau llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol a gwledig. | Cyfran y datblygiadau sy'n cynnwys Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy. | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| | 5-4 Cynyddu effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a datblygiadau wedi eu hadnewyddu | Nifer y tai a adeiladwyd sy'n cyflawni trothwy effeithlonrwydd dŵr a osodwyd gan y llywodraeth yn Rhan G2.36(1) o'r Rheoliadau Adeiladu. | Dogfen Gyfeirio: https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-g-sanitation/?lang=cy<br>CCC Building Control |
| | 5-5 Gwneud lle ar gyfer dŵr, a chyfyngu cymaint â phosibl ar y perygl o lifogydd | Nifer y ceisiadau a ganiateir o fewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 yn groes i gyngor Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| | | Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) mewn perygl canolig neu fawr o lifogydd o afonydd a'r môr | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 32<br>https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Flooding/environment-and-countryside-state-of-the-environment-our-local-environment-properties-at-risk-of-flooding |
| 6 Asedau Materol | 6-1 Cyfyngu gymaint â phosibl ar y defnydd o adnoddau cyfyngedig a hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau a defnydd o | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu | | |
| | 6-2 Hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff, sef arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu | % Ailddefnyddio gwastraff /ailgylchu/compostio (fesul Awdurdod Lleol) | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 15<br>https://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-municipal-waste-management/?skip=1&lang=cy |
| | 6-3 Annog diwallu anghenion yn lleol | | |
| | 6-4 Hyrwyddo defnydd o adnoddau mwy cynaliadwy | | |
| | 6-5 Gwella integreiddiad gwahanol ddulliau trafnidiaeth | Cyfran cyfanswm traffig<br>d) Beiciau<br>e) Bysiau a Choetsis<br>f) Ceir | Data cyfrif traffig Yr Adran Drafnidiaeth (DfT) (fesul Awdurdod Lleol)<br><br>https://www.dft.gov.uk/traffic-counts/area.php?region=Wales&la=Carmarthenshire |
| | 6-6 Hyrwyddo defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy (e.e. beicio a cherdded) | Cyfanswm Cyfrif Blynyddol Beiciau (Teithio Llesol Sir Gaerfyrddin) | Adroddiadau teithio llesol<br>https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/#.W_LIpVNzyUk |
| 7 - Pridd | 7-1 Osgoi halogi'r pridd a lleihau'r achosion o hynny, a hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu tir halogedig | Cyfanswm arwynebedd tir halogedig | |
| | 7-2 Osgoi colli pridd i arwynebau anathraidd a | Canran y datblygiadau a ganiatawyd sy'n cynnwys | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chyfyngu cymaint â phosibl ar erydiad pridd | Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy. | |
| | 7-3 Lleihau allyriadau SO7 ac NOx a llygredd nitradau o fyd amaeth | | |
| 8 – Treftadaeth Ddiwylliannol | 8-1 Diogelu asedau hanesyddol a diwylliannol a nodweddion unigryw lleol rhag effeithiau negyddol datblygu/adfywio a chefnogi gwelliannau iddynt | Nifer y datblygiadau a ganiatawyd sy’n cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd adeiledig neu o ddiddordeb hanesyddol a’u lleoliadau | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| | 8-2 Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r cymeriad lleol a nodweddion unigryw | Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| 9 - Tirwedd | 9-1 Diogelu'r dirwedd/trefwedd rhag effeithiau negyddol newid defnydd tir a'u gwella | | |
| | 9-2 Rhoi ystyriaeth i leoliadau sensitif wrth leoli datblygiadau a hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel | Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| | 9-3 Annog defnydd priodol o dir adfeiliedig yn y dyfodol | Nifer y datblygiadau ar dir a ddatblygwyd o’r blaen | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 Poblogaeth | 10-1 Sicrhau stoc addas, fforddiadwy o dai, gyda mynediad i gyfleusterau addysg a chyflogaeth | Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiatawyd | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| | 10-2 Helpu i gadw pobl iau | % pobl o oedran<br>a) 15-29<br>b) 30 – 44<br>yn byw yn Sir Gaerfyrddin | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Distributions |
| | 10-3 Hyrwyddo cynnwys grwpiau dan anfantais a lleiafrifoedd yn y gymdeithas | Canran y bobl sy'n cytuno<br>a) eu bod yn perthyn i'r ardal;<br>b) bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda<br>c) bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 27<br>Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>https://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?topic=nhs_social_care&tab=el_home&skip=1&lang=cy |
| 11 – Y Gymraeg | 11-1 Annog twf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant | % y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (fesul Awdurdod Lleol) | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 37<br>Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>https://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&lang=cy |
| 12 Iechyd a Llesiant | 12-1 Creu cyfleoedd i bobl fyw bywydau actif ac iach trwy gynllunio gweithgareddau | Canran yr oedolion a gofnodir yn<br>a) rhy drwm<br>b) ordew<br>(fesul Bwrdd Iechyd) | http://www.infobasecymru.net/IAS/profiles/profile?profileId=381&=geoTypeId<br>https://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?topic=population_health&tab=el_home&skip=1&lang=cy |
| | 12-2 Darparu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau iechyd a hamdden | Canran y bobl sy'n fodlon eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau y maent eu hangen | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 24<br>Arolwg Cenedlaethol Cymru |
| | 12-3 Annog cerdded neu feicio fel dull cludiant amgen | Canran y bobl yn yr arolwg-modd o deithio i'r gwaith<br>(a) Cerdded<br>(b) Ar Feic | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Moddau o deithio i'r gwaith a'r amser y mae'n ei gymryd i gymudo o'r cartref i'r gwaith, Arolwg o'r Llafurlu<br>https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/adhocs/008005traveltoworkmethodsandthetimeittakestocomm |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | utefromhometoworklabourforcesurvey2007to2016?:uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/adhocs/008005traveltoworkmethodsandthetimeittakestocommutefromhometoworklabourforcesurvey2007to2016 |
| | | Cyfanswm Cyfrif Blynyddol Beiciau (Teithio Llesol Sir Gaerfyrddin) | Adroddiad Teithio Llesol https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/#.W_LXZ1NzyUk |
| | 12-4 Hybu mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru | Maint y mannau agored a gollwyd i ddatblygiadau (hectarau) | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| | | Canran y bobl sy’n mynd i neu’n cymryd rhan mewn gweithgareddau’n ymwneud â’r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf tair gwaith y flwyddyn. | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau’r Dyfodol 35<br><br>https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Sport-and-Recreation/percentageofpeoplewhoattendorparticipateinartcultureheritageactivities3ormoretimesayear-by-localauthority-year |
| 13 Addysg a Sgiliau | 13-1 Darparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant hygyrch sy'n diwallu anghenion yr ardal yn y dyfodol | | |
| | 13-2 Cynyddu lefelau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd | % yr oedolion sydd heb sgiliau sylfaenol rhifedd a llythrennedd | |
| | 13-3 Hybu dysgu gydol oes | Lefel y cymhwyster uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio yng Nghymru (fesul Awdurdod Lleol). | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau’r Dyfodol 8<br><br>https://gov.wales/docs/statistics/2018/180418-levels-highest-qualification-held-working-age-adults-2017-cy.pdf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 14 Yr Economi | 14-1 Hybu twf economaidd cynaliadwy | Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen | http://www.infobasecymru.net/IAS/profiles/profile?profileId=470&geoTypeId<br><br>(Gwerth De-orllewin Cymru) |
| | 14-2 Darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da i bob rhan o'r boblogaeth | Maint y tir yn ymwneud â chyflogaeth a gollwyd i ddefnydd nad yw'n ymwneud â chyflogaeth | Data cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| | | Canran y boblogaeth sydd mewn cyflogaeth rhan amser ac amser llawn neu sy'n hunangyflogedig | https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymchwil-ac-ystadegau/proffil-wardiau-etholiadol-a-sirol/#.W_LiRVNzyUk |
| | 14-3 Hybu busnesau cynaliadwy yng Nghymru | Nifer y busnesau gweithredol yn Sir Gaerfyrddin | http://www.infobasecymru.net/IAS/profiles/profile?profileId=456&=geoTypeId |
| | | Nifer y busnesau gweithredol sydd wedi cau yn Sir Gaerfyrddin | http://www.infobasecymru.net/IAS/profiles/profile?profileId=456&geoTypeId= |
| 15 Gwead Cymdeit | 15-1 Gwella diogelwch a diogeledd pobl ac eiddo | Cyfartaledd lefelau troseddu blynyddol | https://www.police.uk/dyfed-powys/110/crime/stats/ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Y tebygolrwydd o deimlo’n ddiogel (fesul awdurdod lleol) | Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 25<br><br>https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170301-national-survey-who-most-likely-feel-safe-local-area-cy.pdf |
| | 15-2 Hyrwyddo dyluniad aneddiadau sy'n gwella gwead cymdeithas trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol | Y tebygolrwydd o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (fesul awdurdod lleol) | Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 27:<br><br>https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170301-national-survey-who-most-likely-strong-sense-community-cy.pdf |
| | | Canran y bobl sy’n cytuno eu bod yn perthyn i’r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â’i gilydd yn dda; a bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol |
| | 15-3 Hyrwyddo cyflwyno tai fforddiadwy | Cyfran o dai fforddiadwy fel canran o gartrefi newydd a ddarparwyd | |
| | 15-4 Gwella hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais | Canran y bobl sy’n fodlon eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a’r gwasanaethau y maent eu hangen | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau’r Dyfodol 24<br>https://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&lang=cy |

### Atodiad 3. Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

| **Rhyngwladol: Cynllun, Polisi neu Raglen** |
|---|
| **Agenda 21: Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig**<br>https://sustainabledevelopment.un.org/outcomedocuments/agenda21 |
| **Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu UNEP 1992**<br>http://www.unep.org/Documents.multilingual/Default.asp?DocumentID=78&ArticleID=1163&l=en |
| **Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig 1994**<br>http://unfccc.int/2860.php |
| **Protocol Kyoto y Cenhedloedd Unedig 1997**<br>http://unfccc.int/kyoto_protocol/items/2830.php |
| **Y Confensiwn ar Rywogaethau Mudol UNEP 1979**<br>http://www.cms.int/ |
| **Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol UNEP 1992**<br>http://www.biodiv.org/default.shtml |
| **Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd UNESCO 1971**<br>http://www.ramsar.org/ |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2009/147/EC (ar Warchod Adar Gwyllt - 'Y Gyfarwyddeb Adar') Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 30 Tachwedd 2009** (http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/birdsdirective/index_en.htm<br><br>Y Gyfarwyddeb Adar yw deddfwriaeth natur hynaf yr UE ac un o'r rhai pwysicaf. Mae'n creu cynllun gwarchod cynhwysfawr ar gyfer yr holl rywogaethau adar gwyllt sydd i'w cael yn naturiol yn yr UE. Cafodd ei mabwysiadu fel ymateb i bryder cynyddol am y dirywiad ym mhoblogaethau adar gwyllt Ewrop o ganlyniad i lygredd, colli cynefinoedd yn ogystal â defnydd anghynaliadwy.<br><br>Mae'r Gyfarwyddeb yn cydnabod mai colli a dirywiad cynefinoedd yw'r bygythiadau mwyaf difrifol i warchod adar gwyllt. Felly, mae'n rhoi pwyslais mawr ar amddiffyn cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sydd mewn perygl yn ogystal â rhywogaethau mudol, yn enwedig trwy sefydlu rhwydwaith o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n cynnwys yr holl diriogaethau mwyaf addas ar gyfer y rhywogaethau hyn. |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2000/60/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 23 Hydref 2000**<br><br>Nod cyffredinol y Gyfarwyddeb yw sefydlu fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli dyfroedd wyneb, gan gynnwys afonydd, llynnoedd, dyfroedd aberol ac arfordirol a dyfroedd daear yn yr UE. Prif amcanion y Gyfarwyddeb a gynigir yw:<br><br>• atal dirywiad pellach a gwarchod a chyfoethogi'r amgylchedd dyfrol;<br><br>• cyflawni dŵr ag ansawdd ecolegol a chemegol da ar gyfer pob dŵr wyneb a dŵr daear oni bai ei bod hi'n amhosibl neu'n afresymol o ddrud; ac |

| |
|---|
| • hyrwyddo arferion rheoli dŵr cynaliadwy yn seiliedig ar warchod adnoddau dŵr yn y tymor hir. |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 92/43/CEE (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd 21 Mai 1992**<br>http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/habitatsdirective/index_en.htm<br><br>Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw un o'r darnau deddfwriaeth mwyaf arwyddocaol sy'n ysgogi polisïau cadwraeth Ewrop a fabwysiadwyd yn dilyn Confensiwn Berne (1982). Ei nod yw gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd a nodwyd sydd o bwysigrwydd cadwraeth natur ar lefel Ewropeaidd, ac arweiniodd at sefydlu rhwydwaith o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Ynghyd â'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a sefydlwyd o dan y Gyfarwyddeb Gwarchod Adar Gwyllt (1979), mae'r safleoedd hyn yn ffurfio rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd gwarchodedig a elwir yn safleoedd Natura 2000. Nod y rhwydwaith yw sicrhau goroesiad hirdymor y rhywogaethau a'r cynefinoedd mwyaf gwerthfawr ac sydd dan y bygythiad mwyaf yn Ewrop. |
| **Cynnig am Raglen Weithredu Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd newydd hyd at 2020 Comisiwn Ewropeaidd 2012**<br>http://ec.europa.eu/environment/newprg/index.htm |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 1999/31/EC (y Gyfarwyddeb Tirlenwi) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 1999**<br>http://ec.europa.eu/environment/waste/landfill_index.htm<br><br>Bwriad y Gyfarwyddeb Tirlenwi yw helpu i yrru gwastraff i fyny'r hierarchaeth trwy leihau gwastraff a chynyddu'r lefelau ailgylchu ac adfer. Nod cyffredinol y Gyfarwyddeb yw *"atal neu leihau cyn belled ag sy'n bosibl effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, yn enwedig llygredd dŵr wyneb, dŵr daear, pridd ac aer, ac ar yr amgylchedd byd-eang, gan gynnwys yr effaith tŷ gwydr, yn ogystal ag unrhyw berygl i iechyd pobl a gyfyd o ganlyniad i dirlenwi gwastraff, yn ystod hyd oes cyfan y safle tirlenwi".*<br><br>Mae gan y Gyfarwyddeb ddarpariaethau'n ymwneud â lleoliadau safleoedd tirlenwi, a gofynion technegol a pheirianneg ar gyfer agweddau megis rheoli dŵr a rheoli trwytholchion, gwarchod pridd a dŵr a rheoli allyriadau methan. Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod targedau llym ar leihau swm y gwastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi:-<br><br>• Erbyn 2010, lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi i 75% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995;<br><br>• Erbyn 2013, lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi i 50% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995; ac<br><br>• Erbyn 2020, lleihau'r gwastraff trefol bioddiraddiadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi i 35% o'r hyn a gynhyrchwyd yn 1995. |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2008/98/EC (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff) Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 19 Tachwedd 2008**<br>http://ec.europa.eu/environment/waste/framework/index.htm |
| **Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 91/676/EEC (Y Gyfarwyddeb Nitradau) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 1991**<br>http://ec.europa.eu/environment/water/water-nitrates/directiv.html |

Mae'r Gyfarwyddeb Nitradau yn ymwneud â gwarchod dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol, gyda'r bwriad o ailgyfeirio amaethyddiaeth i fod yn fwy cynaliadwy. Nod y Gyfarwyddeb yw gwarchod dyfroedd croyw, dyfroedd aberol/arfordirol a dyfroedd morol rhag llygredd a achosir gan nitradau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod Wladwriaethau nodi dyfroedd y mae llygredd nitradau ymledol naill ai'n effeithio'n wirioneddol arnynt neu y gallai fod yn effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dŵr wyneb, yn enwedig y rheiny ar gyfer tynnu dŵr yfed, lle mae'r crynodiadau nitradau yn fwy na 50 mg/l nitrad;
- dyfroedd daear sy'n cynnwys neu a allai fod yn cynnwys mwy na 50 mg/l nitrad; a
- llynnoedd dŵr croyw, cyrff dŵr croyw eraill, aberoedd, dyfroedd arfordirol a dyfroedd morol sydd yn ewtroffig, neu a allai fod yn ewtroffig yn y dyfodol.

Roedd rhaid i Aelod Wladwriaethau ddynodi pob ardal sy'n draenio i ddyfroedd megis parthau perygl nitradau erbyn 19 Rhagfyr 1993 a sefydlu Rhaglenni Gweithredu i reoli amseriad a dyddiad rhoi tail a gwrteithiau cemegol yn y parthau hyn.

**Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd (2008/50/EC) (Cyfarwyddeb y Fframwaith Ansawdd Aer Newydd) Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 11 Mehefin 2008**
http://ec.europa.eu/environment/air/quality/legislation/existing_leg.htm

**Y DU: Cynllun, Polisi neu Raglen**

**Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017**

Mae'r Rheoliadau yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod Cynefinoedd Naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE). Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer dynodi a gwarchod 'Safleoedd Ewropeaidd' (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig)', amddiffyn 'rhywogaethau a warchodir gan ddeddfwriaeth Ewrop', a mabwysiadu rheolaethau cynllunio a rheolaethau eraill er mwyn gwarchod Safleoedd Ewropeaidd.

Amcan pellach yw cadw, cynnal ac ailsefydlu digon o amrywiaeth ac ardaloedd o gynefin ar gyfer adar gwyllt yn y Deyrnas Unedig ac osgoi unrhyw lygredd neu ddirywiad mewn cynefinoedd adar gwyllt wrth arfer yr holl swyddogaethau perthnasol.

Ceir nifer fawr o safleoedd o bwysigrwydd ecolegol / daearegol yn y sir ac yn hyn o beth, mae gan Sir Gaerfyrddin nifer o safleoedd yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol i gadwraeth natur. Caiff yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) hyn eu dynodi o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd.

**Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)**
- Moryd Byrri (sydd hefyd yn safle Ramsar)
- Elenydd Mallaen
- Bae Caerfyrddin

**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)**
- Afon Teifi
- Afon Tywi
- Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd
- Twyni Bae Caerfyrddin
- Cwm Doethïe - Mynydd Mallaen

- Caeau'r Mynydd Mawr
- Cernydd Carmel

**Ymgeisydd am Ardal Cadwraeth Arbennig.**

- Ardal Cadwraeth Arbennig Ceg Môr Hafren

Ceir rhagor o wybodaeth amdanynt a pham y cawsant eu dynodi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/find-protected-areas-of-land-and-seas/designated-sites/?lang=cy

**Diogelu'r Dyfodol - Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y DU – Llywodraeth y DU 2005**

http://www.defra.gov.uk/publications/2011/03/25/securing-the-future-pb10589/

Mae Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r DU yn seiliedig ar y pum egwyddor arweiniol canlynol:-

**1 - Byw o fewn terfynau amgylcheddol**
Parchu terfynau'r blaned o safbwynt ei hamgylchedd, ei hadnoddau a'i bioamrywiaeth - i wella ein hamgylchedd a sicrhau bod yr adnoddau naturiol sydd eu hangen ar gyfer bywyd heb eu gwanhau ac yn parhau felly ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
**2 - Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn**
Diwallu anghenion amrywiol pawb mewn cymunedau presennol ac yng nghymunedau'r dyfodol, hyrwyddo llesiant personol, cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol, a chreu cyfle cyfartal i bawb.
**3 - Cyflawni economi gynaliadwy**
Adeiladu economi gref, sefydlog a chynaliadwy sy'n darparu ffyniant a chyfleoedd i bawb, a lle mae'r rheiny sy'n peri costau amgylcheddol a chymdeithasol yn gorfod talu amdanynt (y llygrwr sy'n talu), a lle caiff defnydd effeithlon o adnoddau ei annog.
**4 - Hyrwyddo arferion llywodraethu da**
Mynd ati i hyrwyddo systemau llywodraethu effeithiol a chyfranogol ym mhob lefel o'r gymdeithas - gan ddefnyddio creadigrwydd, egni ac amrywiaeth pobl.
**5 - Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn modd cyfrifol**
Sicrhau bod polisi yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ar sail tystiolaeth wyddonol gref, gan gymryd ansicrwydd gwyddonol i ystyriaeth (trwy'r egwyddor ragofalus) yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd y cyhoedd.

Mae strategaeth 2005 yn adeiladu ar strategaeth 1999 ac yn edrych yn agosach ar yr agweddau rhyngwladol ar gyflawni datblygu cynaliadwy a'r elfennau cymdeithasol o wneud hyn. Un o themâu creiddiol y ddogfen yw cydnabod terfynau amgylcheddol. Dyma'r pedair blaenoriaeth allweddol y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy:-

- Cynhyrchu a defnyddio cynaliadwy;
- Newid yn yr hinsawdd;
- Gwarchod adnoddau naturiol; a
- Cymunedau cynaliadwy.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu edrych ar ffyrdd o annog newid mewn ymddygiad a gwella effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu ynni yn heriau sylweddol wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, ac y dylai fod gan bawb hawl i gyfiawnder amgylcheddol.

**Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd y DU DEFRA 2006**

http://jncc.defra.gov.uk/page-4000

Mae Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd Defra yn nodi polisïau a blaenoriaethau'r DU ar gyfer gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn y DU ac yn nodi'r dull o gryfhau'r rôl y gall unigolion ei chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gymaint â 60% yn yr hirdymor erbyn 2050 ym Mhapur Gwyn Ynni 2003.

Ochr yn ochr ag ymrwymiadau rhyngwladol a domestig ar lefel uchel, mae'r strategaeth yn nodi'r gwariant er mwyn cefnogi technolegau microgynhyrchu, datblygu technolegau lleihau carbon, cefnogi ynni o ffynonellau adnewyddadwy a gwres a phŵer cyfunol, codi safonau ynni adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu a chyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi incwm isel.

**Y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (Cyfrolau 1 a 2) DEFRA 2007**

(http://www.defra.gov.uk/environment/quality/air/air-quality/approach/)

Mae'r Strategaeth:

- Yn gosod nodau cyffredin a ffordd ymlaen ar gyfer gwaith a chynllunio ar faterion ansawdd aer ar gyfer llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig;
- yn nodi'r safonau a'r amcanion ansawdd aer sydd i gael eu cyflawni;
- yn cyflwyno fframwaith polisi newydd ar gyfer mynd i'r afael â gronynnau mân; a
- yn nodi mesurau polisi cenedlaethol newydd posibl y gallai eu modelau ddod â manteision iechyd pellach a symud yn agosach at gyflawni amcanion y Strategaeth.

Amcan pennaf y strategaeth yw sicrhau bod holl ddinasyddion y DU yn cael mynediad i'r awyr agored heb berygl arwyddocaol i'w hiechyd, lle mae hyn yn ymarferol o safbwynt economaidd a thechnegol. Yn ôl y strategaeth, rhagwelir y bydd y DU yn methu â chyflawni'r amcanion yn achos tri o'r naw llygrydd (gronynnau, osôn a nitrogen deuocsid). Yn benodol, rhagwelir y bydd asidedd a/neu effeithiau ffrwythloni nitrogen yn uwch na'r llwythau critigol mewn dros hanner cynefinoedd naturiol a lled-naturiol y DU.

**Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**

Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu ar gyfer mynediad cyhoeddus ar droed i rai mathau o dir, yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus, yn cynyddu'r amddiffyniad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn cryfhau'r ddeddfwriaeth sy'n gorfodi materion bywyd gwyllt. Mae hefyd yn darparu ar gyfer rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol mewn modd gwell.

Mae 81 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y sir (heb gynnwys yr ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) sy'n cwmpasu 17,088 hectar, ac maent yn amrywio o ran maint, o gaeau bach i ardaloedd mawr o ochrau mynydd ac afonydd hir. Maent yn ymestyn dros tua 7.2% o'r sir. Mewn SoDdGA y mae'r bywyd gwyllt a'r safleoedd daearegol gorau yn y wlad. Maent yn cynnwys cynefinoedd fel coetiroedd hynafol, dolydd sy'n llawn blodau, gwlyptiroedd yn ogystal â chwareli segur. Maent yn cynnal planhigion a rhywogaethau o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu gweld yn aml yn y cefn gwlad ehangach. Caiff Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eu gwarchod yn statudol o dan Ddeddf

Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am nodi, dynodi a gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Mae gan Sir Gaerfyrddin chwe Gwarchodfa Natur Leol (GNL). Dynodir y Gwarchodfeydd Natur Lleol gan awdurdodau lleol ac maen nhw'n lleoedd sy'n cynnal amrywiaeth cyfoethog o fywyd gwyllt neu nodweddion daearegol ac maen nhw'n bwysig i bobl leol drwy eu galluogi nhw i gysylltu â'r amgylchedd naturiol. Rheolir y Gwarchodfeydd Natur Lleol gyda chadwraeth bywyd gwyllt y flaenoriaeth uchaf. Mae'r Gwarchodfeydd hyn i'w cael yn Nhwyni Pen-bre a'r Morfa, Pwll Ashpit a Merllyn y Pwll, Twyni Doc y Gogledd, Morfa Berwig (i gyd yn ardal arfordirol Llanelli), Carreg Cennen a Glan-yr-Afon, Cydweli.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod priffyrdd i gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer ei ardal.

**Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)**

Mae'r Ddeddf yn cwmpasu gwarchod bywyd gwyllt (adar, a rhai anifeiliaid a phlanhigion), cefn gwlad, atal rhywogaethau ymledol penodol rhag lledu a dynodi ardaloedd a warchodir gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a nodir oherwydd eu planhigion, eu hanifeiliaid, eu nodweddion daearegol neu'u nodweddion ffisiograffigol.

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017**

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i rai mathau o brosiectau gael asesiad o'u heffaith amgylcheddol cyn y gellir penderfynu ar ganiatâd cynllunio.

**Deddf yr Amgylchedd 1995**

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i adolygu ac asesu ansawdd yr aer yn ei ardal o bryd i'w gilydd. Mae'r Amcanion Ansawdd Aer i'w gweld yn Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010.

**Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**

Mae'r Ddeddf hon yn newid y ffordd o ymdopi â'r pwysau cynyddol a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd, yn benodol rheoli dŵr. Yr hyn sydd o ddiddordeb neilltuol yw'r cynnig posibl i gychwyn ar Atodlen 3 yng Nghymru a dod ymlaen â'r Offerynnau Statudol cysylltiedig ym mis Mai 2018. Mae'r Cyngor yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o dan y Ddeddf.

**Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990**

Mewn perthynas â thir halogedig, mae gan y Sir etifeddiaeth ddiwydiannol gyfoethog ac amrywiol, yn cynnwys ystod eang o ddiwydiannau megis mwyngloddio, gweithgynhyrchu tunplat, gweithfeydd nwy, tanerdai ac ati. Gall pob un o'r prosesau hyn fod wedi halogi'r tir, y dyfroedd daear neu dderbynyddion sensitif eraill. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu a diweddaru Strategaeth Archwilio Tir Halogedig.

**Fframwaith Bioamrywiaeth ôl-2010 y DU**

(http://jncc.defra.gov.uk/page-6189)

| |
|---|
| |
| **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 Llywodraeth y DU 2009**<br>http://gov.wales/topics/environmentcountryside/fisheries/marine/marine-planning/?lang=en<br><br>Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn darparu pwerau newydd i gynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn Amcanion Morol Lefel Uchel y DU. Mae'r pwerau newydd a ddarperir gan y ddeddf hon yn cynnwys:<br>• Cynllunio morol - System newydd ar gyfer cynllunio morol a fydd yn ymdrin â'r holl weithgareddau morol allweddol; a<br><br>• Trwyddedu Morol - Yng Nghymru cafodd pwerau Trwyddedu Morol eu dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2011. Mae'r pwerau trwyddedu hyn yn disodli'r trefniannau trwyddedu a oedd yn flaenorol yn dod o dan: Deddf Bwyd a'r Amgylchedd 1985, Deddf Diogelu'r Arfordir 1949 a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (echdynnu mwynau a charthu) (Cymru) 2007.<br><br>• Mecanyddion Cadwraeth Forol - Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i greu Parthau Cadwraeth Forol i gynorthwyo i warchod planhigion ac anifeiliaid morol neu nodweddion daearegol/geomorffolegol. |
| **Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chynllunio - Cyngor Cychwynnol i Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru a Lloegr; Asiantaeth yr Amgylchedd; RTPI; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Chwefror 2006**<br>http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/40195.aspx<br><br>Mae'r canllaw hwn yn darparu cyngor ynghylch gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn perthynas â'r polisi cynllun datblygu (a materion eraill). Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn mynnu bod yr holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol yn cyrraedd "statws da" erbyn 2015. Mae'n sefydlu strwythur ardal basn afon gyda thargedau ecolegol ar gyfer dyfroedd wyneb a dangosyddion amgylcheddol eraill. |
| **Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, Senedd y DU 1979**<br><br>Y modd y rhoddir amddiffyniad cyfreithiol i Henebion Cofrestredig. Dyma offeryn allweddol i amddiffyn Henebion Cofrestredig. Nid yw'r amddiffyniad a roddir gan hyn yn mynd mor bell ag amddiffyn lleoliadau ac amgylchoedd henebion. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn caniatáu i rai gweithrediadau niweidiol barhau dan amgylchiadau penodol. |
| **Cenedlaethol: Cynllun, Polisi neu Raglen** |
| **Deddf Cymru (2017)**<br><br>Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017. Mae'n darparu'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfwriaethu ar unrhyw bwnc ac eithrio'r rheiny a gedwir ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig. Mae Deddf Cymru 2017 yn gweithredu elfennau o'r cytundeb Dydd Gŵyl Ddewi a oedd yn gofyn am newidiadau deddfwriaethol. Ei nod yw creu setliad cliriach a chryfach yng Nghymru sydd yn wydn ac yn para am gyfnod hir. Yn benodol, |

mae Deddf Cymru yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 trwy symud at fodel cadw pwerau ar gyfer Cymru.

Mae Deddf 2017 hefyd yn datganoli pwerau pellach i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru mewn meysydd lle roedd yna gonsensws gwleidyddol o blaid datganoli pellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datganoli mwy o gyfrifoldeb i'r Cynulliad i redeg ei faterion ei hun, gan gynnwys penderfynu ar ei enw;
- Datganoli cyfrifoldeb i'r Cynulliad am bolisi porthladdoedd, terfynau cyflymder, cofrestru bysus, rheoleiddio tacsis, etholiadau llywodraeth leol, carthffosiaeth a chaniatâd ynni hyd at 350MW (gweler isod am fanylion ychwanegol);
- Datganoli cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru am drwyddedu a chadwraeth morol a chaniatâd ynni yn y rhanbarth oddi ar arfordir Cymru; ac ymestyn cyfrifoldeb am reoliadau adeiladu i gynnwys adeiladau ynni eithriedig;
- Datganoli pŵer dros etholiadau'r Cynulliad;
- Datganoli pŵer dros drwyddedu'r gwaith o echdynnu olew a nwy ar y tir;
- Unioni'r ffin datganoli ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr, a
- Sefydlu, mewn statud, Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru i oruchwylio tribiwnlysoedd datganoledig a chaniatáu i ddeiliaid swyddi barnwrol weithio ar draws sefydliadau.

Mewn perthynas â Deddf 2017 a datganoli pwerau, cyfeirir yn benodol at faterion sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd y mater hwn, nad oedd wedi'i ddatganoli'n flaenorol, yn newid fel rhan o Ddeddf 2017, gyda'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei datganoli a rhagwelir y bydd y pwerau'n cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018. Yn hyn o beth, bydd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn angenrheidiol fodd bynnag i ganiatáu i Weinidogion Cymru addasu is-ddeddfwriaeth bresennol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103

Prif ddibenion y Ddeddf yw:

- Gosod fframwaith o fewn yr hwn y bydd awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy);
- Rhoi nodau llesiant ar waith y mae'r awdurdodau hynny i geisio eu cyflawni er mwyn gwella llesiant yn awr ac yn y dyfodol;
- Cyflwyno'r modd y mae'r awdurdodau hynny i fod i ddangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant;
- Rhoi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol ar sail statudol ac, wrth wneud hynny, symleiddio'r gofynion presennol gyda golwg ar gynllunio cymunedol integredig, a
- Sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru i fod yn eiriolwr dros genedlaethau'r dyfodol, a fydd yn cynghori ac yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 7 nod llesiant i Gymru:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydnerth.
- Cymru iachach.
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Rhaid i'r CDLl roi ystyriaeth i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**
https://gov.wales/topics/planning/legislation/planning-wales-act-2015/?skip=1&lang=cy
Nod y Ddeddf hon yw moderneiddio a gwella'r system gynllunio i hwyluso'r gwaith o ddarparu tai, swyddi a seilwaith. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio:

- atgyfnerthu rôl Llywodraeth Cymru fel stiwardiaid gweithredol y system gynllunio yng Nghymru;
- hyrwyddo newid diwylliannol ym maes cynllunio i helpu i'w wneud yn fwy cadarnhaol a chefnogi datblygiadau priodol yn fwy effeithiol; a
- hyrwyddo arferion gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Caiff yr isod hefyd eu nodi o safbwynt y goblygiadau posibl:

- Cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - mae hyn yn canolbwyntio ar faterion cynllunio defnydd tir ar lefel genedlaethol, nodi lleoliadau allweddol ar gyfer datblygu seilwaith a gosod y fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio.
- Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol Is-ranbarthol - gan gyfeirio'n benodol at Gaerdydd, Abertawe a choridor yr A55.
- Cadw Cynlluniau Datblygu Lleol - fodd bynnag, bydd angen i'r rhain gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyson â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a Chynlluniau Datblygu Strategol lle bo'n briodol).
- Cynyddu pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru, ac mewn rhai amgylchiadau bydd yr ymgeiswyr yn gallu gwneud cais yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i'r CDLl gael ei adolygu a'i baratoi'n unol â'r Ddeddf hon yn ogystal â dogfennau deddfwriaethau sylfaenol ac is-ddeddfwriaethau.

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diwygio Rheoliadau 2005 er mwyn symleiddio gweithdrefnau'r CDLl. Mae'r diwygiadau mewn ymateb i ganlyniadau ymarfer mireinio proses y CDLl.

Mae'r diwygiadau allweddol hynny, sydd yn arbennig o berthnasol i'r CDLl, yn cynnwys y canlynol:

- Cam y sylwadau ar ddyrannu safleoedd (a elwir hefyd yn safle amgen) - achosodd hyn ddryswch ac nid oedd yn ychwanegu gwerth at broses y CDLl. Mae'r rheoliadau diwygiedig yn diddymu'r angen am ymgynghori ynglŷn â'r safleoedd amgen yn dilyn y cam ymgynghori adnau.

- Cyflwynodd y Rheoliadau broses adolygu ffurflen fer i'w defnyddio lle mae'n ymddangos i'r Awdurdod Cynllunio Lleol nad yw'r materion dan sylw o ddigon o bwys i gyfiawnhau'r weithdrefn lawn.
- Caniatáu i adolygiad gael ei wneud o ran neu rannau o'r cynllun, cyn gwneud diwygiadau.
- Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno gofyniad fod is-deitl y CDLl yn dynodi diwedd y cyfnod mewn perthynas â'r hwn y paratowyd y CDLl.
- Mae'n cael gwared â'r gofyniad i gyhoeddi materion trwy hysbysebu yn y papur lleol.

Mae diwygiadau pellach yn ceisio helpu gydag eglurder a thryloywder mewn rhannau o'r weithdrefn. Mae'r rhain yn cynnwys nodi'r modd y bydd proses y safle ymgeisio, proses yr adroddiad adolygu a'r adroddiad ymgynghori cychwynnol yn gweithio.

**Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol - Rhifyn 2 - Awst 2015**

Mae'r Llawlyfr yn cynnig dull mwy integredig o ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd, yn esbonio newidiadau yn ymwneud â gweithdrefnau safleoedd ymgeisio a safleoedd amgen, yn ogystal â phrofion cadernid, ac yn ehangu'r cyngor ar adolygu a diwygio'r cynllun.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Mae'r mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad wrth iddynt gyflwyno gwasanaethau trwy'r Gymraeg gan gynnwys meysydd megis gwneud polisi, gweithgareddau gweithredol a hyrwyddo'r Gymraeg.

**Cyfarwyddiadau Dosbarthu Dŵr Wyneb a Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2009:**
http://gov.wales/legislation/subordinate/nonsi/epwales/2009/3739275/?skip=1&lang=cy

Mae'r Cyfarwyddiadau Dosbarthu'n nodi egwyddorion a safonau dosbarthu cyrff dŵr ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Maent yn berthnasol i Gymru a Lloegr a chawsant eu datblygu gan Grŵp Ymgynghorol Technegol y DU (UKTAG) i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

**Llywodraeth Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Cynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008):**

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn darparu cyd-destun polisi cyffredinol ar gyfer cynllunio gofodol a datblygu yng Nghymru trwy sefydlu blaenoriaethau cenedlaethol trawstoriadol. Lleolir Sir Gaerfyrddin o fewn tri o'r chwe is-ardal a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru.

**Llywodraeth Cymru – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) 2009**

Dywedir bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor graidd yn statud sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod yna ddyletswydd, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Adran 79), sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud cynllun sy'n cyflwyno'r modd y maent yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth weithredu eu swyddogaethau.

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Hon yw Deddf Tai gyntaf erioed Cymru. Ei nod yw gwella'r cyflenwad o dai yng Nghymru, eu hansawdd a'u safonau. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai ei blaenoriaethau yw darparu mwy o gartrefi o ansawdd a gwasanaethau sy'n ymwneud â thai.

**Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 9**

Polisi Cynllunio Cymru yw'r ddogfen genedlaethol ar bolisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru. Caiff ei defnyddio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i lywio polisïau a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer y rheiny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru.

**Polisi Cynllunio Drafft Cymru: Agraffiad 10**

Polisi Cynllunio Cymru yw'r ddogfen genedlaethol ar bolisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru. Caiff ei defnyddio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i lywio polisïau a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer y rheiny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru.
Caiff y drafft ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ac mae'n rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r fersiwn drafft o Bolisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ailstrwythuro yn themâu polisi sy'n adlewyrchu'r nodau llesiant ac mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru lle roedd angen i adlewyrchu strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru.

**Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**

Mae gan y Ddeddf dri phrif nod sef:

- rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig;
- gwella'r modd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei reoli'n gynaliadwy; a
- chyflwyno gwell tryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

Mae'r Ddeddf yn diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth y DU - Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

**Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Strategaeth Wastraff Gyffredinol Cymru (2010)**

Mae'r Strategaeth hon yn gosod fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050. Mae'n nodi'r canlyniadau sydd i gael eu cyflawni, yn gosod targedau ar lefel uchel ac yn cyfleu'r dull cyffredinol o gyflawni'r targedau hyn a chamau gweithredu allweddol eraill. Mae'r Strategaeth yn nodi canlyniadau, polisïau a thargedau ar lefel uchel, ac yn ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau sy'n cynnwys cynllun rheoli gwastraff cenedlaethol Cymru.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2006):**

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 yn darparu canllawiau ar gyfer ymgymryd â Chyd-Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Mae'r astudiaethau hyn yn ceisio monitro'r

| |
|---|
| ddarpariaeth tai ar y farchnad a thai fforddiadwy, yn darparu datganiad y cytunwyd arno o'r tir preswyl sydd ar gael a hefyd yn nodi'r angen am gymryd camau mewn sefyllfaoedd lle nodir bod y cyflenwad yn annigonol. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ynghylch defnyddio'r system gynllunio wrth ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r canllawiau'n diffinio tai fforddiadwy at ddibenion cynllunio ac yn darparu cyngor i Awdurdodau Cynllunio Lleol ynglŷn â sut i benderfynu ar fforddiadwyedd. Rhoddir pwyslais ar yr angen am gydweithio, gan gynnwys y gofyniad ar i awdurdodau tai ac awdurdodau cynllunio gynnal asesiadau o'r farchnad dai leol gyda chyfraniad rhanddeiliaid allweddol. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 3: Parthau Cynllunio Syml (1996):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth ddynodi Parthau Cynllunio Syml. Mae Parth Cynllunio Syml yn un ffordd y gall awdurdod helpu i sicrhau bod rhan o'i ardal yn cael ei datblygu neu'i hailddatblygu, gan ddarparu sicrwydd a chaniatáu i'r datblygwr neu'r tirfeddiannwr osgoi oedi ym mhroses y ceisiadau cynllunio. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu cyngor ynghylch dewis ardaloedd, cwmpas y caniatâd, gwaharddiadau ac amodau a chyfyngiadau yn ystod y broses ddynodi. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 4: Adwerthu a Datblygiadau Masnachol (2016)**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ar rôl cynllunio defnydd tir mewn adwerthu a datblygiadau masnachol, gan gynnwys:<br><br>• strategaethau adwerthu, uwch gynllunio a Chynlluniau Lleoedd;<br>• y profion o'r angen am adwerthu ac Ymagwedd Ddilyniannol at ddatblygu;<br>• asesiadau o'r effaith ar adwerthu;<br>• blaenau adeiladau adwerthu a masnachol cynradd ac eilaidd mewn canolfannau;<br>• amodau cynllunio adwerthu;<br>• Gorchmynion Datblygu Lleol; a<br>• dangosyddion bywiogrwydd a hyfywedd mewn ardaloedd adwerthu a masnachol. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio Llywodraeth Cymru (2009):**<br><br>Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 yn rhoi cyngor ynghylch sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Mae'n rhoi trosolwg o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol o fewn y maes ac yn "*dangos sut y gall awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol ym maes cadwraeth weithio gyda'i gilydd i gyflwyno datblygiadau mwy cynaliadwy nad ydynt yn arwain at golli'r dreftadaeth naturiol, ond yn hytrach yn cymryd pob cyfle i'w gwella*". |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010):** |

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau at sut y gall y system gynllunio gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'n darparu cyngor ar feysydd gan gynnwys cymunedau ac economïau gwledig cynaliadwy, tai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig, anheddau menter wledig, datblygiadau un blaned, gwasanaethau gwledig cynaliadwy ac amaethyddiaeth gynaliadwy.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996):**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn disgrifio sut y gellir rheoli hysbysebion awyr agored i amddiffyn amwynder a diogelwch y cyhoedd. Mae'n darparu cyngor ar y broses ceisiadau hysbysebu gan gynnwys y meini prawf ar gyfer delio â cheisiadau o'r fath, rheoli hysbysebion, defnyddio hysbysebion mewn meysydd o ddiddordeb treftadaeth megis ardaloedd cadwraeth, pwerau gwneud cyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac apeliadau am hysbysebion.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy (2005)**:

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 yn amlinellu'r ystyriaethau cynllunio defnydd tir sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Mae'n darparu manylion am sut y gall y system gynllunio gyflawni targedau'r Llywodraeth yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hefyd yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chadwraeth. Ers cyhoeddi TAN 8 bu rhai newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth. Mae Atodiad A o lythyr y Prif Swyddogion Cynllunio 'Cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 4, Chwefror 2011' yn nodi'r newidiadau hyn. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â TAN 8.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed (1997):**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar gyfer yr achosion hynny lle mae angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cadw a phlannu coed wrth roi caniatâd cynllunio drwy'r broses o wneud Gorchmynion Cadw Coed. Mae'n rhoi cyngor ar y broses o wneud Gorchmynion Cadw Coed ac ystyried gwarchod coed, yn enwedig yn ystod y broses ddatblygu.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997) :**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar y modd y gellir defnyddio'r system gynllunio i leihau effaith andwyol sŵn heb roi cyfyngiadau afresymol ar ddatblygu. Mae'n darparu cyngor ar roi ystyriaeth i sŵn yn ystod y cynllun datblygu a phrosesau rheoli, yn ogystal â chategorïau lefelau sŵn ar gyfer gwahanol fathau o weithgareddau y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried y cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016) :**

Diben y Nodyn Cyngor Technegol hwn yw rhoi cyngor i bawb sy'n ymwneud â dylunio datblygiadau ynglŷn â sut y gellir hwyluso 'Hyrwyddo Cynaliadwyedd trwy ddylunio da' a 'Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy' trwy'r system gynllunio. Mae dylunio da yn gofyn am broses gydweithredol, greadigol, gynhwysol o ddatrys problemau ac arloesi - sydd yn cwmpasu cynaliadwyedd, pensaerniaeth, creu lle, llecynnau cyhoeddus, tirwedd, a seilwaith. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn pwysleisio bod ymagwedd gyfannol at ddylunio yn golygu bod angen i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio ganolbwyntio o'r cychwyn ar gyflawni cyfres o amcanion dylunio da:

- Sicrhau mynediad hwylus i bawb
- Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio
- Sicrhau mannau cyhoeddus deniadol a diogel
- Cyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol
- Cynnal neu wella cymeriad lleol

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth, Llywodraeth Cymru (1997)**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar faterion sy'n ymwneud â thwristiaeth ym maes cynllunio gan gynnwys materion yn ymwneud â datblygu gwestai, carafanau gwyliau a charafanau teithio ac amodau deiliadaeth dymhorol a gwyliau.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio Arfordirol (1998) :**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar faterion allweddol yn ymwneud â chynllunio ar gyfer y parth arfordirol. Mae'n nodi ac yn disgrifio rôl awdurdodau cynllunio lleol a'r ystod o reolaethau sector a rheoleiddiol dros ddatblygu morol ac arfordirol. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn manylu ynghylch nifer o faterion y mae rhaid eu cymryd i ystyriaeth oherwydd eu heffeithiau posibl ar brosesau ffisegol ac amodau'r ddaear, yn ogystal â chydbwysedd, sensitifrwydd a chadwraeth yr ardal yn gyffredinol. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ynghylch yr ystyriaethau cynllunio a'r materion sydd i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd, Llywodraeth Cymru (2004):**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn rhoi arweiniad sy'n ychwanegu at y polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â datblygu a llifogydd. Mae'n darparu cyngor ar faterion gan gynnwys defnyddio mapiau cyngor datblygu i bennu materion yn ymwneud â'r perygl o lifogydd, sut i asesu'r llifogydd a fyddai'n ganlyniad i ddatblygiad arfaethedig a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd trwy gynlluniau datblygu a gweithdrefnau rheoli datblygu i liniaru'r perygl o lifogydd wrth gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd. Caiff y Map Cyngor Datblygu (DAM) sy'n ychwanegu at TAN 15 ei gyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009) :**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ynghylch cynllunio ar gyfer chwaraeon, hamdden a mannau agored fel rhan o gynigion datblygu newydd. Mae'n darparu cyngor yn ymwneud â'r maes hwn gan gynnwys paratoi Asesiadau Mannau Agored, cadw'r cyfleusterau presennol, darparu cyfleusterau newydd a chynllunio ar gyfer rhandiroedd a mannau chwarae i blant a phobl ifanc. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn trafod materion rheoli datblygu gyda golwg ar ddylunio cyfleusterau a mannau agored, a sŵn a hygyrchedd. Mae hefyd yn ystyried sut y gall cytundebau cynllunio helpu i sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu darparu a'u cynnal a'u cadw.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007) :**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn disgrifio sut i integreiddio defnydd tir a thrafnidiaeth. Mae'n esbonio sut y dylid asesu a lliniaru effeithiau ar drafnidiaeth. Mae'n cynnwys cyngor ar faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd gan

| |
|---|
| gynnwys integreiddio rhwng cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, lleoliad y datblygiad, parcio a dylunio'r datblygiad.<br><br>Mae hefyd yn rhoi cyngor ar gerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, cynllunio ar gyfer seilwaith trafnidiaeth, asesu effeithiau a rheoli'r broses weithredu. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu (2002) :**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau cynllunio y dylid eu dilyn wrth asesu cynigion telathrebu. Wrth wneud hynny mae'n cymryd twf y diwydiant telathrebu a thechnoleg i ystyriaeth.<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ar wahanol ffurfiau o systemau cyfathrebu cyhoeddus a'u gofynion datblygu a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn darparu canllawiau ar ystyried yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses o wneud Cynllun Datblygu. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu cyngor ar ymgorffori'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu trwy Arfarniadau Cynaliadwyedd, gweithdrefnau ar gyfer datblygiadau annisgwyl mewn ardaloedd lle mae'r iaith o bwys arbennig, ac arwyddion a hysbysebion. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2014):**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn golygu bod angen monitro i nodi p'un a oes:<br>• digon o le yn cael ei gynnal mewn safleoedd tirlenwi;<br>• gwasanaeth trin digonol yn cael ei gynnal, p'un a yw patrwm gofodol y ddarpariaeth yn briodol i ddiwallu'r anghenion a nodir, a<br>• p'un a oes angen i awdurdodau cynllunio lleol gymryd unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael â materion nas rhagwelwyd.<br><br>Dylid cyfeirio at yr Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 22: Adeiladau Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru (2011)**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu'r polisi cynllunio cenedlaethol ar adeiladau cynaliadwy yn ogystal â chanllawiau ar safonau asesu adeiladau cynaliadwy, atebion dylunio i fodloni'r safonau hynny a chanllawiau ychwanegol ar adeiladau carbon isel. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hefyd yn darparu canllawiau ar gyfer datblygu polisïau a safleoedd strategol. |
| **Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd**<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn pwysleisio y bydd angen i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu llywio gan dystiolaeth gadarn ac mae'n cynghori y dylid cynnwys ystod o randdeiliaid er mwyn elwa ar eu dealltwriaeth o'r economi leol. Mae'n cydnabod bod materion |

economaidd at ei gilydd yn fwy nag ar lefel awdurdod lleol, a bod tystiolaeth yn cael ei chasglu'n fwyaf priodol ar raddfa ranbarthol ac ar raddfa leol. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio ag awdurdodau cynllunio eraill o fewn grŵp rhanbarthol y cytunwyd arno.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017):**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ar y modd y mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig. Mae'n darparu canllawiau ynglŷn â'r modd y dylid ystyried yr agweddau canlynol ar yr amgylchedd hanesyddol:

- Safleoedd Treftadaeth y Byd;
- Henebion cofrestredig;
- Olion archaeolegol;
- Adeiladau rhestredig;
- Ardaloedd cadwraeth;
- Parciau a gerddi hanesyddol;
- Tirweddau hanesyddol; a
- Asedau hanesyddol sydd o ddiddordeb lleol arbennig.

**Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 2: Glo (2009):**

Mae'r nodyn hwn yn cynnwys cyngor manwl am y dulliau ar gyfer gweithredu'r polisi echdynnu glo trwy weithio ar yr wyneb a gweithio o dan y ddaear, ac mae hefyd yn rhoi cyngor ynglŷn ag arferion gorau. Mae'n nodi sut y dylid asesu effeithiau a pha fesurau lliniaru y dylid eu mabwysiadu, ac mae'n ceisio nodi costau amgylcheddol a chymdeithasol gweithrediadau fel eu bod yn cael eu cyflawni'n briodol gan y gweithredwr.

**Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau (2004):**

Nodir mai'r amcan cyffredinol wrth gynllunio ar gyfer darpariaeth agregau yw: sicrhau bod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy er mwyn cael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan wneud yn siŵr bod yr effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau ar amwynder yn sgil unrhyw waith echdynnu angenrheidiol yn cael eu cadw ar lefel sy'n osgoi achosi niwed dangosadwy i fuddiannau y cydnabyddir eu bod yn bwysig. Caiff y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau ei strwythuro i adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol canlynol:

- Darparu adnoddau agregau mewn modd cynaliadwy i ddiwallu anghenion y gymdeithas am ddeunyddiau adeiladu;
- Gwarchod ardaloedd pwysig;
- Lleihau effaith cynhyrchu agregau;
- Cyflawni safon uchel o adfer ac ôl-ofal, a darparu ar gyfer ôl-ddefnydd buddiol; a
- Annog defnydd effeithlon o fwynau a gwneud y defnydd gorau posibl o ddeunyddiau amgen fel agregau.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:**

Cafodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'n cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr

| |
|---|
| amgylchedd. Un o gydrannau allweddol y Ddeddf yw'r ddyletswydd y mae'n ei rhoi ar awdurdodau lleol i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth'. Wrth wneud hynny mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol flaengynllunio ac adrodd ar y modd y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Mae'r Ddeddf yn disodli'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 mewn perthynas â Chymru, gyda dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth. |
| **Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 – 2020, Partneriaeth ar gyfer Twf:**<br><br>Mae'r strategaeth hon yn nodi bod Rheoli Cyrchfannau yn hanfodol wrth helpu i wella apêl cyrchfannau twristiaeth i ymwelwyr ledled Cymru. |
| **Croeso Cymru – Datblygu'r Economi Ymwelwyr: Siarter i Gymru 2009:**<br><br>Mae'r ddogfen hon yn darparu cylch gwaith clir ar gyfer trefniadau Rheoli Cyrchfannau yng Nghymru, ac yn nodi rôl allweddol i awdurdodau lleol wrth gyfrannu at baratoi cynlluniau cyrchfannau lleol a sefydlu partneriaethau cyrchfannau lleol. |
| **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013:**<br><br>Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau teithio llesol a chyflwyno gwelliannau bob blwyddyn mewn llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru wneud gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ym mhob cynllun ffordd newydd a rhoi sylw i anghenion beicwyr a cherddwyr mewn ystod o swyddogaethau awdurdod lleol eraill.<br><br>Fel rhan o'i ymrwymiad i'w gwneud yn haws i gerdded a beicio, mae'r Cyngor wedi paratoi mapiau sy'n nodi'r llwybrau cerdded a beicio presennol. Crëwyd y mapiau hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ynghyd â'i ymchwil ei hun yn 2015. Mae'r llwybrau a nodir ar y map yn bodloni safonau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer llwybrau cerdded a beicio yng Nghymru. |
| **Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae yn yr Awyr Agored: Y Tu Hwnt i'r Safon Chwe Erw**<br><br>Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar gynllunio a dylunio mannau chwaraeon, chwarae a gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored. |
| **Rhanbarthol: Cynllun, Polisi neu Raglen** |
| **Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013 - 2030:**<br><br>Mae'r Strategaeth yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer y rhanbarth, gyda'r nod o gefnogi datblygiad yr ardal dros y degawdau i ddod. Y Weledigaeth yw y bydd De-orllewin Cymru erbyn 2030 yn "*Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig, a gydnabyddir yn rhyngwladol am ei economi ddatblygol ym meysydd gwybodaeth ac arloesi*". Mae'r Strategaeth yn cynnwys 5 nod Strategol. |
| **Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2017**<br><br>Cafodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd werth £1.3 biliwn, ei llofnodi ym mis Mawrth 2017. Honnir y bydd y Fargen yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol, ac yn creu bron 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd |

nesaf. Ceir cyfeiriad at 11 o brosiectau mawr i gyd, gyda'r prosiectau penodol canlynol yn cael eu cynnig ar gyfer Sir Gaerfyrddin:

- Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn Llanelli; a
- Prosiect diwydiant creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin.

Ceir 4 thema allweddol sef Cyflymu'r Economi, Gwyddor Bywyd a Llesiant, Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar. Bydd gwell Seilwaith Digidol, rhwydweithiau diwifr y genhedlaeth nesaf a datblygu sgiliau a thalentau'r gweithlu yn tanategu pob un.

**Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015-20):**

Mae hwn yn cyflwyno'r weledigaeth, yr amcanion a strategaeth hirdymor ar gyfer cyfnod o 20 mlynedd a rhaglen bum mlynedd o brosiectau. Mae'r Cynllun yn cwmpasu'r rhanbarth sydd yn dod o fewn ardaloedd gweinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, a Dinas a Sir Abertawe.

**Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru (SWWTP)**

Roedd Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru yn gyfrifol am gyflwyno'r strategaeth twristiaeth genedlaethol ar lefel ranbarthol. Daeth y Bartneriaeth i ben yn 2014, ond mae Croeso Cymru yn parhau i gynnal ei ymrwymiad parhaus i Reoli Cyrchfannau trwy Dimau Ymgysylltu Rhanbarthol.

**Adroddiad(au) Monitro Cynlluniau Gwastraff Rhanbarth De-orllewin Cymru:**

Caiff yr adroddiadau hyn eu llunio yn unol â TAN21: Gwastraff a'u bwriad yw coladu ac asesu data sydd ar gael ar bob gwastraff sy'n cronni, y lle gwag sydd ar gael mewn safleoedd tirlenwi a rheoli gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth er mwyn monitro tueddiadau ac yn y pen draw, monitro perfformiad yn erbyn y targedau a osodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae hefyd yn asesu cynnydd y meysydd a gwmpesir gan bolisi gwastraff mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, yn ogystal â darparu gwybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff / adennill adnoddau awdurdodau lleol ar hyn o bryd, a'r rhai fydd yn cael eu caffael yn y dyfodol.

**Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru (2014)**
http://www.dwrcymru.co.uk/en/My-Water/Water-Resources/Water-Resource-Management-Plan.aspx
Mae'r Cynllun yn cwmpasu cyfnod o 25 mlynedd, o 2015 i 2040 (a elwir hefyd yn 'gyfnod cynllunio') ac yn ystyried yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy a fforddiadwy rhwng faint o ddŵr a gymerwn o'r amgylchedd a faint o ddŵr sydd ei angen arnom ar gyfer ein bywydau bob dydd.

Mae'n hollbwysig fod cwmni dŵr yn deall ei allu i gyflenwi dŵr a'r galw am ddŵr gan gwsmeriaid a busnesau o fewn ei ardal gyflenwi. Yr enw ar y gymhariaeth hon yw'r Cydbwysedd rhwng y Cyflenwad a'r Galw.

Mewn perthynas â Sir Gaerfyrddin, dylid nodi bod cyflenwad dros ben ar gael ym mharth Tywi - Gŵyr. Fodd bynnag, gwelir bod yna ddiffyg yng nghyflenwad parthau Sir Benfro ac Aberhonddu Portis.

**Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (2015-2021), Cyfoeth Naturiol Cymru 2015**

| |
|---|
| Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru wedi'i baratoi o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n disgrifio cyflwr presennol yr ardal basn afon a'r hyn a gyflawnwyd ers 2009; yn manylu ar y Rhaglen o Gamau ar gyfer gwella'r amgylchedd dŵr erbyn 2021, yn darparu amcanion y corff dŵr ac yn edrych ymlaen at yr adolygiad arfaethedig yn 2021. |
| **Cynllun Rheoli Traethlin Trwyn Larnog i Bentir St Ann 2 (2012)**<br><br>Mae Cynllun Rheoli Traethlin yn darparu asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag erydiad arfordirol a llifogydd ar yr arfordir. Mae hefyd yn cyflwyno polisïau i helpu i reoli'r risgiau hyn i bobl ac i'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy.<br><br>Y ddogfen hon yw'r Cynllun Rheoli Traethlin ail genhedlaeth (CRhT2) ar gyfer y draethlin rhwng Trwyn Larnog (Bro Morgannwg) yn y dwyrain a Phentir St Ann (Sir Benfro) yn y gorllewin, ac mae'n cynnwys siroedd Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.<br><br>Mae'r ardal astudio hefyd yn cynnwys aber afon Nedd, aber afon Tawe, aber afon Llwchwr (Moryd Byrri), ardal aberoedd y Tair Afon (Gwendraeth, Tywi a Thaf) ac Aberdaugleddau, yn ogystal â nifer o aberoedd llai. |

## Atodiad 4. Polisi Strategol 16: Hierarchaeth Aneddiadau

**Bydd y ddarpariaeth o dwf a datblygiad yn cael ei chyfeirio at leoliadau cynaliadwy yn unol â'r fframwaith gorfodol canlynol.**

<table>
<tr><th></th><th>Clwstwr 1</th><th>Clwstwr 2</th><th>Clwstwr 3</th><th>Clwstwr 4</th><th>Clwstwr 5</th><th>Clwstwr 6</th></tr>
<tr><td>Haen 1 – Prif Ganolfannau</td><td>▪ Caerfyrddin</td><td>▪ Llanelli</td><td>▪ Rhydaman / Crosshands</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Haen 2 – Canolfannau Gwasanaethau</td><td>▪ Pont-iets / Meinciau / Pont-henri</td><td>▪ Porth Tywyn<br>▪ Pen-bre<br>▪ Fforest/Hendy<br>▪ Llangennech<br>▪ Trimsaran/ Carwe</td><td rowspan="2">▪ Brynaman<br>▪ Glanaman/ Garnant<br>▪ Pontyberem / Bancffosfelen</td><td rowspan="2">▪ Castell Newydd Emlyn<br>▪ Llanybydder<br>▪ Pencader</td><td rowspan="2">▪ Llanymddyfri<br>▪ Llandeilo<br>▪ Llangadog</td><td rowspan="2">▪ Sanclêr/ Pwll Trap<br>▪ Hendy-gwyn ar Daf<br>▪ Talacharn</td></tr>
<tr><td colspan="2">▪ Cydweli<br>▪ Glanyfferi</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Haen 3 – Pentrefi Cynaliadwy</td><td rowspan="2">▪ Cynwyl Elfed<br>▪ Llan-y-bri<br>▪ Llansteffan<br>▪ Bronwydd<br>▪ Cwm-ffrwd<br>▪ Llangyndeyrn<br>▪ Brechfa<br>▪ Llan-gain<br>▪ Idole/ Phentrepoeth<br>▪ Peniel<br>▪ Alltwalis<br>▪ Llanpumsaint<br>▪ Llandyfaelog<br>▪ Rhydargaeau<br>▪ Llanarthne<br>▪ Capel Dewi<br>▪ Nantgaredig<br>▪ Pontargothi<br>▪ Llanddarog</td><td>▪ Mynyddygarreg<br>▪ Pum Heol/ Horeb<br>▪ Llansaint / Broadway</td><td>▪ Carmel<br>▪ Cwmgwili<br>▪ Foelgastell<br>▪ Ystradowen</td><td rowspan="2">▪ Drefach/ Felindre<br>▪ Waungilwen<br>▪ Llangeler<br>▪ Pentrecwrt<br>▪ Saron/Rhos<br>▪ Llanllwni<br>▪ Cwm-ann<br>▪ Capel Iwan<br>▪ Llanfihangel – ar-arth<br>▪ Tre-lech<br>▪ Pontyweli<br>▪ Cenarth<br>▪ New Inn</td><td rowspan="2">▪ Caeo<br>▪ Ffarmers<br>▪ Llansawel<br>▪ Rhydcymerau<br>▪ Talyllychau<br>▪ Cwrt Henri<br>▪ Llanfynydd<br>▪ Llanwrda<br>▪ Cwmdu<br>▪ Cwmifor<br>▪ Salem<br>▪ Abergorlech</td><td rowspan="2">▪ Llanboidy<br>▪ Glandy Cross<br>▪ Efailwen<br>▪ Llangynin<br>▪ Meidrim<br>▪ Bancyfelin<br>▪ Llangynog<br>▪ Pentywyn<br>▪ Llanddowror<br>▪ Llanmilo</td></tr>
<tr><td colspan="2">▪ Llan-non<br>▪ Llanedi</td></tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ▪ Porthyrhyd<br>▪ Cwmduad | | | | | |
| **Haen 4– Pentrefi Gwledig (dim terfynau datblygu)** | ▪ Hermon<br>▪ Abernant<br>▪ Blaen-y-coed<br>▪ Bancycapel<br>▪ Nant-y-caws<br>▪ Croesyceiliog<br>▪ Crwbin<br>▪ Felingwm Uchaf<br>▪ Felingwm Isaf<br>▪ Llanegwad<br>▪ Pontantwn<br>▪ Nebo<br>▪ Talog<br>▪ Pen-y-bont<br>▪ Whitemill<br>▪ Pont-Newydd<br>▪ Pontarsais | ▪ Cynheidre<br>▪ Pedair Heol | ▪ Capel Seion<br>▪ Derwydd<br>▪ Heol Ddu<br>▪ Maes-y-bont<br>▪ Milo<br>▪ Pantllyn<br>▪ Pentregwenlais<br>▪ Temple Bar<br>▪ Cefnbrynbrain<br>▪ Rhosamman<br>▪ Drefach (Llandyfan)<br>▪ Stag and Pheasant<br>▪ Mynyddcerrig | ▪ Penboyr<br>▪ Drefelin<br>▪ Cwmpengraig<br>▪ Cwmhiraeth<br>▪ Pentrecagal<br>▪ Gwyddgrug<br>▪ Dolgran<br>▪ Banc-y-ffordd<br>▪ Bryn Iwan<br>▪ Pencarreg | ▪ Ffaldybrenin<br>▪ Crugybar<br>▪ Cwm-du<br>▪ Ashfield Row<br>▪ Felindre (Llangadog)<br>▪ Cynghordy<br>▪ Golden Grove<br>▪ Broad Oak<br>▪ Trapp<br>▪ Manordeilo<br>▪ Penybanc<br>▪ Felindre, (Dryslwyn)<br>▪ Dryslwyn<br>▪ Rhydcymerau<br>▪ Waunystrad Meurig<br>▪ Bethlehem<br>▪ Capel Isaac<br>▪ Llangathen<br>▪ Llansadwrn<br>▪ Rhandirmwyn<br>▪ Porthyrhyd<br>▪ Pumsaint<br>▪ Siloh<br>▪ Cilycwm | ▪ Cwmfelin Mynach<br>▪ Cwmbach<br>▪ Blaenwaun<br>▪ Llanglydwen<br>▪ Cwmfelin Boeth<br>▪ Cross Inn<br>▪ Llansadurnen<br>▪ Broadway<br>▪ Red Roses<br>▪ Llanfallteg |

## Atodiad 5. Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

| Sefydliad/Sylw | Ymateb/Cam Gweithredu |
|---|---|
| **Rhwydwaith Calon Cymru - Patricia Dodd Racher** | |
| **Sylwadau Cyffredinol** | |
| Llawer iawn i'w gymeradwyo yn yr astudiaeth gwmpasu hon, yn enwedig y penderfyniad i weithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Nodwyd |
| Yn ogystal, byddai cyfeirio'n benodol at Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn fuddiol, er mwyn asesu'r CDLl yn ôl y lleiafswm o ran lleihau allyriadau a nodwyd yn y Ddeddf. | Derbyniwyd. Ychwanegu cyfeiriad penodol. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru – c/o Sharon Luke | |
| Sylwadau Cyffredinol | |
| Ar ôl adolygu eich Adroddiad Cwmpasu Drafft dyddiedig Gorffennaf 2018, rydym yn fodlon â'ch cwmpas ar gyfer yr adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd. Fel y nodwyd yn yr adroddiad cwmpasu, rydych wedi nodi bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn broses ailadroddus a pharhaus. Rydym yn cytuno a byddem yn awgrymu y dylai'r Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) fod yn ddogfen fyw. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried fod data amgylcheddol sylfaenol yn datblygu, a bod cynlluniau a rhaglenni eraill yn datblygu o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd. Dylai'r AC/AAS felly barhau i gael eu hadolygu drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl. | Nodwyd - bydd yr AC/AAS yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â data datblygol sylfaenol a pholisïau, cynlluniau a rhaglenni datblygol. |
| Ymddengys fod y cwmpas a'r fethodoleg a gynigir ar gyfer yr AC yn rhesymol. Mae'r cwmpas wedi nodi'r nodweddion amgylcheddol tebygol yr effeithir arnynt gan y CDLl ac yn cydnabod y problemau amgylcheddol sy'n bodoli eisoes yn ardal y CDLl. | Nodwyd |
| Dylai amcanion yr AC a nodwyd ym Mhennod 6 (Fframwaith yr AC/AAS) a Thabl 3 Pennod 5 roi asesiad cadarn o effeithiau amgylcheddol dewisiadau strategol y CDLl. | Nodwyd |

| | |
|---|---|
| Rydym yn cynghori fod dangosyddion a thargedau'r AC (tabl 4) yn ymddangos yn ddefnyddiadwy fodd bynnag byddem yn argymell y dylid ystyried y pwyntiau canlynol.<br><br>Amcan 2 yr AC - Bioamrywiaeth<br><br>• Amcan i hybu cydnerthedd ecosystemau drwy osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir a chefnogi cysylltedd. | Derbyniwyd. Aralleiriwyd yr amcan er mwyn cynnwys cyfeiriad at gysylltedd a chydnerthedd:<br>***2-1 Hybu cydnerthedd ecosystemau drwy osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir ac annog cysylltedd.*** |
| Amcan 3 yr AC - Ansawdd Aer<br><br>• Ystyried y defnydd o'r gair 'gwella' ynghyd â 'lleihau' o ran amcanion 3-1 a 3-2.<br>• Cynnwys effeithiau cronnus. | Derbyniwyd. Aralleiriwyd yr amcanion i nodi:<br>***3-1 Cynnal a gwell lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU***<br><br>***3-2 Gwella lefelau osôn ar lefel y ddaear*** |
| Amcan 5 yr AC - Dŵr<br><br>• Rydym yn argymell y dylai Amcan 5-5 hefyd gynnwys lleihau effaith y perygl o lifogydd.<br>• Gallai'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau gynnwys - A fydd y CDLl yn lleihau/cynyddu'r risg o ran dyfroedd ymdrochi yn cyrraedd statws Baner Las? | Derbyniwyd. Aralleiriwyd yr amcan i nodi:<br>***5-5 Gwneud lle ar gyfer dŵr, a lleihau a chyfyngu cymaint â phosibl ar y perygl o lifogydd***<br><br>Derbyniwyd. Ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau i gynnwys: A fydd y CDLl yn lleihau/cynyddu'r risg o ran dyfroedd ymdrochi yn cyrraedd statws Baner Las? |
| Amcan 7 yr AC - Pridd<br><br>• Ni ddylai'r CDLl gynyddu'r risg o halogi, byddem yn eich cynghori i ddileu hyn. | Derbyniwyd. Aralleiriwyd yr amcan i nodi:<br>***7-1 Hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu tir halogedig*** |
| Amcan 9 yr AC Tirwedd<br><br>• Dylid cynnwys yr effeithiau cronnus.<br>• Dylid cynnwys treftadaeth ddaearegol. | Derbyniwyd. Newidiwyd geiriad materion a chyfleoedd yr Amcan er mwyn cynnwys cyfeiriad at effeithiau cronnol, treftadaeth ddaearegol ac effeithiau trawsffiniol posibl o ran Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr. |

| | |
|---|---|
| • Mae ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin yn gallu gweld Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr | |
| **Atodiad A: Adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol** | |
| Rydym yn awgrymu eich bod hefyd yn cynnwys y canlynol.<br><br>• Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol 91/271/EEC.<br>• Y Gyfarwyddeb Dŵr Daear 2006/118/EC.<br>• Y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi 2006/7/EC.<br>• Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010.<br>• Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o ran Amddiffyn Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd.<br>• O dan Bolisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15, rydym yn eich argymell i gynnwys llythyr y Prif Swyddog Cynllunio 23/8/16 CL-03-16 sef Lwfansau newid yn yr hinsawdd at ddibenion Cynllunio.<br>• O dan Bolisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 5, rydym yn eich argymell i gynnwys llythyr y Prif Swyddog Cynllunio dyddiedig 1 Mawrth 2018 sef Trwyddedu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop - hysbysiad gweithdrefn ddiwygiedig. | Derbyniwyd. Byddant yn cael eu hychwanegu at Atodiad A. |
| **Atodiad B: Gwybodaeth Sylfaenol** | |
| Ymddengys fod y wybodaeth sylfaenol a fydd yn cael ei chasglu yn drylwyr. Nodwch fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru ddyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a fydd yn arwain at baratoi rhagor o dystiolaeth. Dylid defnyddio'r dystiolaeth hon yn yr AC/AAS, os yw'r amserlenni yn caniatáu hynny. | Nodwyd. Bydd rhagor o wybodaeth sylfaenol o ganlyniad i ddyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei chynnwys pan fydd ar gael. |
| Pennod 2 | Cafodd yr Afon Cleddau ei chynnwys yn nhabl Safleoedd Ewropeaidd dan baragraff 2.4. |

| | |
|---|---|
| Dylid cynnwys Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Cleddau dan Safleoedd Ewropeaidd. | |
| Pennod 3<br><br>O ran ansawdd aer, dylid rhoi ystyriaeth i effeithiau cronnus. | Derbyniwyd. Bydd y wybodaeth sylfaenol yn cael ei diweddaru er mwyn ystyried effeithiau cronnus. |
| Pennod 5<br><br>Yn adran 5.5, dylid rhoi ystyriaeth i ddofednod neu ffermio moch ar raddfa ddwys, ynghyd â chynhyrchion llaeth. | Derbyniwyd. Bydd y wybodaeth sylfaenol yn cael ei diweddaru er mwyn ystyried dofednod a ffermio moch. |
| Mae adran 5.6 yn cyfeirio at fap sy'n amlinellu'r dyfroedd ymdrochi, ond ni chynhwyswyd y map. | Derbyniwyd. Bydd y map yn cael ei gynnwys. |
| Perygl Llifogydd - Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn adolygu TAN 15 a dylid ei gwblhau yn unol â'ch amserlenni. O ran adran 5.13, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi y dylai newid yn yr hinsawdd gael ei ystyried, ond nid yw wedi'i fapio ar hyn o bryd. | Nodwyd. Bydd y wybodaeth sylfaenol yn cael ei diweddaru ynghyd ag unrhyw gyhoeddiad newydd ynghylch TAN 15. |
| **Materion eraill i'w hystyried** | |
| **Seilwaith draeniau**<br><br>Gofynion Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o ran amddiffyn Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd. | Derbyniwyd. Bydd adran yn ymwneud â seilwaith draeniau yn cael ei chynnwys fel rhan o'r wybodaeth sylfaenol. |
| Atal nifer y systemau preifat ar gyfer draenio dŵr brwnt drwy sicrhau bod seilwaith priodol ar gael yn yr ardaloedd a nodwyd ar gyfer twf er mwyn diogelu ansawdd y dŵr (a'r pridd). | |
| Cyfleoedd y gall systemau draenio cynaliadwy eu cynnig i ecosystemau. | |
| **Ynni Adnewyddadwy**<br><br>Ardal Chwilio Strategol G: Fforest Brechfa ac Ardal Chwilio Strategol E: Pontardawe. | Derbyniwyd. Bydd adran yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy yn cael ei chynnwys fel rhan o'r wybodaeth sylfaenol. |
| Cynnwys dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei ddiffinio yn Neddf yr | Nodwyd. Byddid yn ystyried ffyrdd o gynnwys hyn yn yr adroddiad AC adneuo. |

| | |
|---|---|
| Amgylchedd fel: "defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddarperir ganddynt. Wrth wneud hynny, diwallu anghenion cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, a chyfrannu at gyflawni’r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol." | |